# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL (CYFARFOD CYLLIDEB)** | **CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE (BUDGET MEETING)** |
| **DYDD LLUN, 4 CHWEFROR 2019 am 2:00 y. p.** | **MONDAY, 4 FEBRUARY, 2019 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Lewis Davies, John Griffith, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 22)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 23 Tachwedd, 2018
- 10 Rhagfyr, 2018 (arbennig)
- 17 Ionawr, 2019 (arbennig)

**3** **PROSES GOSOD CYLLIDEB 2019/20 - REFENIW A CHYFALAF** (Tudalennau 23 - 96)

Rhoi ystyriaeth bellach i'r cynigion ar gyfer Cyllideb 2019/20 fel a ganlyn –

- Gosod y cyd-destun strategol a swyddogaeth Craffu **(Blaen Adroddiad)**

- Cynigion terfynol y Gyllideb Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2019/20. **(Atodiad 1)**

- Prif negeseuon yr Ymgynghoriad Cyhoeddus a gwaith ymgysylltu gyda dinasyddion a rhanddeiliaid eraill **(Atodiad 2)**

**4** **BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 97 - 106)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid (CE)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Owain Jones, Alun Roberts, Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru) Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig) (Aelodau Cyfetholedig) Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid), Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol), Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Ar ran y Pwyllgor, llongyfarchodd Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gael ei phenodi yn Brif Weithredwr Cyngor Sir Powys a dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd, diolchodd iddi am ei gwaith i Gyngor Sir Ynys Môn.

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod newid i fusnes y cyfarfod gan ei fod wedi rhoi caniatâd i ohirio eitem 5 ar y rhaglen (Rhaglen Moderneiddio Ysgolion: Achos Strategol Amlinellol/Achos Busnes Amlinellol – Ehangu Ysgol y Graig a Chau Ysgol Talwrn) a'i symud i gyfarfod y Pwyllgor fydd yn cael ei gynnal ar 10 Rhagfyr 2018.



DRAFT

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2018 a chadarnhawyd eu bod yn gywir -

Materion yn codi o'r cofnodion –

Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd, cadarnhaodd y Cadeirydd fod llythyr (dyddiedig 14 Tachwedd 2018) wedi cael ei anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru (gyda chopi at Simon Edwards o Adain Cyllid a Phartneriaethau Gweithlu Llywodraeth Cymru) i gyfleu pryderon y Pwyllgor am oblygiadau setliad refeniw dros dro 2019/20 yr Awdurdod a fyddai'n creu bwlch ariannol sylweddol y byddai'n rhaid i'r Cyngor ei lenwi. Darllenodd y Cadeirydd gynnwys y llythyr a oedd yn annog Llywodraeth Cymru i -

- Ystyried goblygiadau'r setliad dros dro ar sefyllfa ariannol cyffredinol y Cyngor fel rhan o'r broses o gadarnhau setliad refeniw terfynol llywodraeth leol ddiwedd mis nesaf, a
- Darparu cyllid ychwanegol i Gyngor Sir Ynys Môn yn y setliad refeniw terfynol.

Wrth nodi'r llythyr gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ynghylch sefyllfa ariannol y Cyngor yn sgil cyhoeddiad Ysgrifennydd Cyllid Llywodraeth Cymru ddechrau'r wythnos y byddai llywodraeth leol yn derbyn £14.2m o gyllid ychwanegol yn 2019/20.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y prif newid yn ymwneud â darparu cyllid ychwanegol er mwyn cynyddu'r llawr cyllido er mwyn sicrhau nad yw'r un cyngor yn wynebu toriad o fwy na 0.5% yn ei setliad. Yn ogystal, bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu drwy gyllid grant i gyfarfod â chostau gweithredu Dyfarniad Cyflog Athrawon yn ogystal â phwysau mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol plant. Nid oes manylion ar gael ar hyn o bryd ynglŷn â sut fydd y cyllid ychwanegol yn cael ei rannu – pa 'run bynnag bydd rhaid i gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20 fynd drwy broses graffu Llywodraeth Cymru ei hun sy'n golygu y gallai'r sefyllfa newid o ganlyniad i'r broses honno cyn cyhoeddi'r gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr.

Dywedodd yr Arweinydd, er bod yr arian ychwanegol yn ymddangos yn swm sylweddol, y bydd y swm a ddyrennir drwy fformiwla i bob cyngor yn llawer is – e.e. o'r £2.3m o gyllid ychwanegol fydd yn cael ei glustnodi ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol plant yn genedlaethol, tua £45k fyddai Ynys Môn yn ei dderbyn drwy fformiwla.

**3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 2 2018/19**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Trawsnewid ac Adnoddau Dynol yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 2018/19.

Wrth adrodd fod sefyllfa gyffredinol y Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol (fel y'u cytunwyd ar y cyd gan yr Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol) ar ddiwedd Chwarter 2 yn galonogol, tynnodd yr Arweinydd sylw at y pwyntiau canlynol er ystyriaeth -

- Dim ond 2 Ddangosydd Perfformiad - y ddau yn y Gwasanaethau Oedolion - sydd wedi tanberfformio, a manylir arnynt yn adran 2.4.3 yr adroddiad. Mewn perthynas â PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach - nodwyd fod nifer fechan yr achosion



DRAFT

dan sylw yn cael effaith ar y data perfformiad; mewn perthynas â PAM/025 (PM19) - Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed - rhagwelir y bydd y contract Gofal Cartref seiliedig ar ardaloedd a gomisiynwyd yn ddiweddar yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddata Chwarter 3. Mae'r UDA yn cydnabod y sefyllfa ac yn argymell parhau i weithredu'r mesurau lliniaru.

- Fod perfformiad Chwarter 2 mewn perthynas â rheoli absenoldeb salwch wedi gwella o gymharu â Chwarter 1 ac er ei fod ychydig yn is na'r targed o gymharu â'r un cyfnod yn 2017/18 mae'n well na chanlyniadau 2016/17. Mae absenoldeb salwch ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion yn Chwarter 2 wedi gwella'n sylweddol ac mae'r perfformiad yn well nag y bu ar unrhyw adeg yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf. Yn yr un modd, mae ffigyrau absenoldebau salwch y Gwasanaeth Dysgu wedi gwella ers Chwarter 1. Mae'r UDA wedi blaenoriaethau'r ddau wasanaeth i wella eu cyfraddau salwch blynyddol ymhellach yn Chwarter 3.
- Mewn perthynas â rheoli Cwynion Cwsmeriaid, derbyniwyd 29 o gwynion o gymharu â 43 yn Ch2 yn 2017/18 ac ymatebwyd i 92% o fewn yr amserlen. Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol derbyniwyd 4 o gwynion Cam 2 (Gwasanaethau Oedolion) a 26 o gwynion Cam 1 (Gwasanaethau Plant – 19 a Gwasanaethau Oedolion – 7). O'r cwynion hynny ymatebwyd i 50% ohonynt o fewn yr amserlen (Coch ar y cerdyn sgorio) ac roedd 13 o ymatebion hwyr – 10 yn y Gwasanaethau Plant a 3 yn y Gwasanaethau Oedolion. Mae'r UDA yn argymell parhau i fonitro'r dangosyddion yn y Gwasanaethau Plant ynghyd â gofyn i'r Gwasanaeth ail-werthuso ei weithdrefn rheoli cwynion er mwyn gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig o fewn yr amserlen.
- Mewn perthynas â rheolaeth ariannol, ar hyn o bryd rhagwelir y bydd gorwariant o £2.660m yng nghyllideb 2018/19 erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae hyn yn uwch na chyfanswm y gorwariant yn 2017/18. Mae'r gwasanaethau'n parhau i brofi pwysau cyllidebol sylweddol tebyg i'r hyn a welwyd yn 2017/18, yn benodol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Dysgu. Mae'r UDA yn argymell parhau i graffu'n rheolaidd ar reolaeth ariannol corfforaethol a bod y Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol er mwyn cynorthwyo gwasanaethau i gadw o fewn y cyllidebau y maent yn eu rheoli.

  Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid Corfforaethol fod taith y Cyngor o safbwynt gwella perfformiad yn ystod y 6 mlynedd ers cyflwyno'r arfer o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn dull cydlynus a systematig wedi bod yn un arwyddocaol fel y tystia canlyniadau diwedd Ch2 sydd yn dangos tanberfformiad mewn perthynas â dim ond 2 o 30 dangosydd ar hyn o bryd. Dywedodd y Swyddog fod monitro parhaus yn hanfodol er mwyn cynnal perfformiad a sicrhau bod gwasanaethau yn cymryd camau pendant i reoli perfformiad lle mae modd iddynt wneud hynny, yn arbennig mewn perthynas ag absenoldeb salwch, all fod yn faes cymhleth ac y mae amgylchiadau yn gallu dylanwadu arno e.e. mae asesiad wedi dangos fod nifer y staff sydd yn derbyn triniaeth lawfeddygol neu yn y broses o ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn derbyn triniaeth o'r fath wedi bod yn uchel yn ddiweddar.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau a ganlyn -

- Roedd y Pwyllgor yn cydnabod fod rheoli gwariant yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar yr un pryd â diwallu'r galw yn fater cymhleth ac yn destun pryder gan fod costau yn parhau i gynyddu oherwydd bod nifer cynyddol o blant yn cael eu derbyn i ofal. Hefyd, roedd y Pwyllgor yn cydnabod ac yn derbyn sicrwydd o'r gwaith mae'r Panel Sgriwtini Cyllid yn ei wneud i fonitro'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Dysgu, sef y ddau faes sydd â'r gorwariant mwyaf amlwg, ynghyd â'r

DRAFT

mesurau lliniaru y mae'r ddau wasanaeth yn eu gweithredu er mwyn cadw gwariant dan reolaeth.

- Nododd y Pwyllgor,  er y nodir yn aml fod y pwysau mwyaf ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cael ei achosi gan nifer y plant sy'n cael eu derbyn i ofal, nid yw'r un wybodaeth yn cael ei rhannu am nifer y plant a phobl ifanc sydd yn gadael y system ofal ac effaith hynny.

  Dywedodd yr Arweinydd a'r Deilydd Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Tîm Teuluoedd Gwydn a'r Tîm Trothwy Gofal yn gweithio gyda theuluoedd er mwyn atal plant rhag cael eu derbyn i ofal yn y lle cyntaf. Hefyd, mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn yn gwneud gwaith er mwyn caniatáu i blant ddychwelyd yn ddiogel at eu teuluoedd lle bo hynny'n briodol. Mae darpariaeth ariannol ar gyfer y Tîm Trothwy Gofal wedi ei gynnwys yng nghyllideb ddrafft 2019/20 er mwyn cydnabod y pwysau parhaol ar y Gwasanaeth Plant a'r angen i waith y Tîm Trothwy Gofal barhau.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod nifer o strategaethau a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth yn dechrau cael effaith erbyn hyn. Mae trosglwyddo'r Tîm o Gwmpas y Teulu i'r Gwasanaethau Plant fel rhan o'r hyb Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi gwneud gwahaniaeth yn arbennig mewn perthynas â darparu gwasanaeth drws ffrynt. Yn ogystal, mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn wedi gwneud gwahaniaeth arwyddocaol ac mae'n elfen hanfodol o'r agenda ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae angen gwneud mwy o waith gyda phobl ifanc sy'n gadael gofal gan fod cynnydd yn nifer y plant mewn gofal yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal yn arbennig o safbwynt sicrhau eu bod yn ddiogel a'u bod yn meddu ar y sgiliau a'r addysg angenrheidiol ar gyfer bywyd a gyrfa ar ôl gadael gofal. Mewn perthynas â rheoli costau, yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cyflwyno menter Cartrefi Grŵp Bach a gwella'r pecyn cefnogaeth ar gyfer Gofalwyr Maeth yr Awdurdod a dylai hynny gynorthwyo i leihau costau yn y tymor hir. Ffactorau penodol sydd wedi cael effaith ar gostau eleni yw achosion etifeddiaeth, h.y. achosion sy'n cael eu hail-agor er mwyn eu hadolygu, yn ogystal â theuluoedd mawr ac mae hyn wedi cynyddu niferoedd yn ogystal â chostau. Dywedodd y Swyddog fod 160 o blant yn derbyn gofal ar hyn o bryd, 20 yn fwy na'r nifer 6 i 9 mis yn ôl. Er bod niferoedd y plant yn ymddangos yn gyson, nid yr un plant ydyn nhw o reidrwydd – mae plant eraill sy'n dod i mewn i ofal yn cymryd lle plant sy'n gadael y system ofal i fyw gyda'u teuluoedd estynedig.

- Nododd y Pwyllgor y byddai dadansoddiad o nifer y plant sy'n gadael gofal yn ogystal â phlant sy'n dod i mewn i'r system ofal yn ddefnyddiol er mwyn arfarnu effaith y gwaith sy'n cael ei wneud i ddychwelyd plant at eu teuluoedd; dylid rhannu'r wybodaeth hon â'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn ogystal â'r Panel Sgriwtini Cyllid. Hefyd, byddai asesiad o effaith y Tîm Teuluoedd Gwydn ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf yn ddefnyddiol.

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at adroddiad diweddar y Cenhedloedd Unedig ynghylch lefelau uchel o dlodi yn y DU, gan gynnwys tlodi plant a digartrefedd. Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r Cyngor yn ymwybodol o bobl ifanc wedi gadael gofal sydd yn ddigartref neu wedi bod yn ddigartref.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod rhaid cymryd gofal wrth ddefnyddio'r term "digartref". Er enghraifft, cafodd 3 o bobl ifanc oedd wedi gadael gofal y cyngor eu dynodi yn ddigartref ond er na fyddai gan y tri unigolyn dan sylw denantiaeth, nid oeddynt yn ddigartref yn yr ystyr eu bod yn cysgu allan. Mae'r

DRAFT

gwasanaeth wedi datblygu protocol ar y cyd gyda'r Gwasanaethau Tai er mwyn asesu pobl nad ydynt o reidrwydd wedi bod mewn gofal ond sydd yn cael eu cynnwys yn y diffiniad "gofal a chymorth". Hefyd, mae Digartref yn darparu 20 o wlâu ar gyfer pobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain fel pobl ddigartref er mwyn sicrhau nad yw'r un person ifanc yn gorfod cysgu ar y strydoedd.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod nifer y bobl ifanc yn gadael gofal sydd wedi profi cyfnod o ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn un o fesurau perfformiad y Gwasanaeth – yn 2017/18 roedd y ffigwr hwnnw yn 5% ac yn ystod dau chwarter cyntaf 2018/19 roedd yn 4%. O dan ddiffiniad y Llywodraeth gallai hynny olygu person sydd wedi aros mewn llety Gwely a Brecwast neu aros gyda ffrind – yn ôl y data a gedwir gan y Gwasanaeth Tai nid oes unrhyw berson yn cysgu allan ar strydoedd Ynys Môn, er y gallai un neu ddau o unigolion fod yn gwneud hynny mewn ardaloedd penodol – maent yno o ddewis. Mae cryn werthfawrogiad i ddarpariaeth Digartref, drwy Coedlys yn Llangefni a Llys y Gwynt yng Nghaergybi, ar gyfer pobl ifanc sydd angen cymorth ac sy'n wynebu risg uchel o fod yn ddigartref.

- Mewn perthynas â rheolaeth ariannol, nododd y Pwyllgor er bod y rhagolygon yn dangos y bydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Dysgu yn gorwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, disgwylir tanwariant o £0.53m mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol a rhagwelir y bydd y Dreth Gyngor, sydd yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor, yn casglu gwarged o £0.348m ac o ganlyniad bydd y gorwariant yn gostwng i £2.660m. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynglŷn â pha sicrwydd all y Gwasanaeth Cyllid ei roi y bydd y gyfradd gasglu a ragwelwyd yn cael ei gwireddu.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y data ar gyfer ail gartrefi/tai gwag tymor hir penderfynwyd bod yn ddarbodus a rhoddwyd darpariaeth o 80% yn sail y Dreth Gyngor yn wreiddiol. Er bod nifer yr ail gartrefi wedi aros yn sefydlog, mae nifer y tai gwag tymor hir yn gostwng. O ganlyniad roedd y gyllideb a osodwyd yn llai na'r anfonebau Treth Gyngor a godwyd ac o ganlyniad cafwyd gwarged. Dywedodd y Swyddog ei fod felly'n hyderus y bydd y Dreth Gyngor yn cael ei chasglu yn unol â'r rhagolygon. Yn ystod cyfnod o flwyddyn mae'r gyfradd gasglu yn tueddu i leihau wrth i amgylchiadau pobl newid e.e. pobl yn gwneud cais am Ostyngiad Person Sengl. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth wedi comisiynu adolygiad allanol o bobl sydd yn hawlio'r gostyngiad person sengl drwy ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus i sefydlu a yw unigolion yn gymwys. Mae'r adolygiad wedi canfod ymgeiswyr oedd ddim yn gymwys i dderbyn y gostyngiad. O ganlyniad, rhagwelir y bydd y newidiadau dilynol yn cynhyrchu incwm ychwanegol gan y bydd yr hawlwyr hynny yn derbyn anfonebau am yr arian Treth Gyngor sydd yn ddyledus.

  Mewn perthynas â Chyllid Cyfalaf sydd yn cynnwys y llog a'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar fenthyciadau, oherwydd bod y Rhaglen Gyfalaf yn tanwario, nid yw'r Cyngor wedi benthyca gymaint o arian ag a ragwelwyd yn y gyllideb. Dywedodd y Swyddog ei fod yn hyderus na fydd y sefyllfa hon yn newid.

- Nododd y Pwyllgor fod cynyddu premiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi a thai gwag tymor hir yn creu risg y bydd cyfraddau casglu'r dreth yn lleihau.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod risg, yn arbennig mewn perthynas ag ail gartrefi, y bydd perchnogion ail gartrefi yn ceisio osgoi talu'r premiwm drwy drosglwyddo eu heiddo i'r gyfundrefn trethi busnes drwy



DRAFT

honni eu bod yn cael eu gosod fel tai gwyliau. Er mwyn cymhwyso fel llety gwyliau, rhaid i'r trethdalwr brofi i'r Swyddog Prisio fod yr annedd ar gael i'w osod am 140 diwrnod a'i fod wedi cael ei osod am 70 niwrnod yn ystod cyfnod o 12 mis. Er bod modd herio hyn, nid oes gan yr Asiantaeth Brisio, sydd yn atebol i CThEM, yr adnoddau i wneud hyn ym mhob achos, sy'n golygu y bydd rhai perchnogion ail gartrefi yn llwyddo i drosglwyddo i'r gyfundrefn trethi busnes heb fodloni'r meini prawf cymhwysedd. Hefyd, maent yn gallu hawlio rhyddhad ardrethi busnesau bach. Risg arall yw y gallai perchnogion ail gartrefi honni mai ei hail gartref yw eu prif annedd; mae modd herio hyn yn fwy effeithiol mewn Tribiwnlys ond mae gwneud hynny'n creu gwaith ychwanegol i'r Gwasanaeth.

Dywedodd y Swyddog fod y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd, wedi trafod y broblem o osgoi trethi ac o ganlyniad cytunwyd i gyflwyno sylwadau ar y mater i Lywodraeth Cymru er mwyn pwyso ar y Llywodraeth i ddarparu mwy o adnoddau i'r Swyddfa Brisio fel bod modd gweithredu trefn fwy cynhwysfawr o herio perchnogion ail gartrefi sydd yn trosglwyddo i'r gyfundrefn trethi busnes, ac i'r Llywodraeth ystyried eithrio'r eiddo hyn o'r cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach.

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y ffaith iddo, mewn cyfarfod blaenorol, dynnu sylw at Orfodaeth Cynllunio fel maes fyddai'n elwa o gael monitro ei berfformiad oherwydd bod pwysau ar y gwasanaeth; o ganlyniad argymhellwyd y dylid ystyried cynnwys dangosydd ar gyfer Gorfodaeth Cynllunio yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer 2019/20.

**Ar ôl ystyried yr adroddiad ac ymatebion y Swyddogion, penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel y'u nodir ym mharagraffau 3.1.1 i 3.1.5, ac yn derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir ynddynt.**
- **Argymell pan fydd y Dangosyddion Perfformiad yn cael eu hadolygu nesaf er mwyn eu cynnwys yn y Cerdyn Sgorio ar gyfer 2019/20, bod yr UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn ystyried cynnwys dangosydd ar gyfer Gorfodaeth Cynllunio.**

**CAMAU YCHWANEGOL A ARGYMHELLIR: Bod y Panel Gwella Gwasanaethau Plant a'r Panel Sgriwtini Cyllid yn derbyn y wybodaeth ganlynol -**

- **Nifer y plant/pobl ifanc sydd yn gadael gofal yn ogystal â nifer y plant/pobl ifanc sydd yn cael eu derbyn i ofal.**
- **Effaith y Tîm Teuluoedd Gwydn yn dilyn ei sefydlu flwyddyn yn ôl.**

**4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ni ystyriwyd y mater.

**5 RHAGLEN MODERNEIDDIO YSGOLION: ACHOS STRATEGOL AMLINELLOL/ACHOS BUSNES AMLINELLOL – EHANGU YSGOL Y GRAIG A CHAU YSGOL TALWRN**

Gohiriwyd yr eitem.

**Cynghorydd Aled M. Jones**
**Cadeirydd**



DRAFT

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, Bryan Owen, Alun Roberts, Nicola Roberts<br><br>Aelodau Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitemau 2 a 3)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 5)<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (ar gyfer eitem 2 a 3)<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Dros Dro (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol (GWT) (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Richard Owain Jones, J. Arwel Roberts, Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Dyfed Wyn Jones (Cynrychiolydd Rhieni-Lywodraethwr) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Nicola Roberts ddiddordeb personol nad oedd yn rhagfarnu yn eitem 4 ar y rhaglen gan ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig, Llangefni ac yn rhiant i ferch sydd yn ddisgybl yn Ysgol y Graig.

### 2 MONITRO CYNNYDD - CYNLLUN GWELLA'R GWASANAETHAU PLANT

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn amlinellu'r cynnydd hyd yma wrth weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol bod cyflymder y gwelliant o fewn y



DRAFT

Gwasanaeth wedi bod yn sylweddol ers i'r Cynllun Gwella Gwasanaeth gael ei greu ym mis Chwefror 2017 o ganlyniad i arolygiad AGC yn ystod mis Hydref a Thachwedd 2016 ac erbyn hyn mae 13 o'r 21 cam gweithredu â statws gwyrdd. Nid oes unrhyw gamau gweithredu yn Goch a dim ond 2 yn Ambr, gyda 6 yn Felyn. Mae'r ddau faes Ambr yn ymwneud â gwella ansawdd ymarfer ac adolygu'r holl blant mewn gofal er mwyn gwneud yn siŵr bod cynlluniau cymorth a gofal yn seiliedig ar ganlyniadau mewn lle er mwyn sicrhau fod ganddynt sefydlogrwydd tymor hir. Dywedodd y Swyddog fod y Gwasanaeth yn ymwybodol y bydd rhai agweddau angen mwy o amser i gydymffurfio'n llawn ac mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant, sydd yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y Cynllun yn ofalus, wedi trafod y mater. Rhagwelir y bydd gwaith ar y Cynllun yn parhau er mwyn sicrhau fod yr holl bwyntiau gweithredu a godwyd gan AGC yn symud i statws Gwyrdd erbyn mis Mawrth, 2019.

Yn ogystal, mae'r Dangosyddion Perfformiad wedi parhau i wella yn ystod y chwarteri diwethaf fel y dengys y tabl ym mharagraff 3 yr adroddiad sydd yn dangos gwelliant yn ystod Chwarter 1 a 2 2018/19 o gymharu â ffigyrau cronnus 2017/18 ar gyfer y DP cenedlaethol a lleol a restrir. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i sicrhau fod y gwelliant hwn yn cael ei gynnal a'i ddatblygu ymhellach.

Pwysleisiodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y Gwasanaeth, yn ogystal â chanolbwyntio ar symud y meysydd Ambr a Melyn i statws Gwyrdd, yn cadw golwg ar y meysydd "Gwyrdd" er mwyn sicrhau nad oes llithriad yn digwydd. Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol profiadol a gwnaethpwyd nifer o benodiadau gan olygu mai dim ond un swydd Gweithiwr Cymdeithasol sydd angen ei llenwi erbyn hyn. Er bod y Gwasanaeth yn parhau i gyflogi staff asiantaeth dros y sefydliad i gefnogi Gweithwyr Cymdeithasol newydd gymhwyso, fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith, mae'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag wedi lleihau'n sylweddol.

Wrth ystyried yr adroddiad roedd y Pwyllgor yn cydnabod y camau sylweddol y mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi eu cymryd i roi sylw i'r meysydd yr oedd angen eu gwella a amlygwyd gan AGC yn eu harolygiad yn 2016 a diolchwyd i staff y Gwasanaeth am eu hymdrechion, a hefyd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaeth am eu harweiniad wrth lywio'r Gwasanaeth i gyrraedd y pwynt hwn. Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor fod y pwysau ariannol sy'n mynd law yn llaw â chynnydd mewn galw yn effeithio ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gan arwain at orwariant; gofynnodd y Pwyllgor sut mae'r Gwasanaeth yn asesu ei sefyllfa ariannol debygol ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y sefyllfa'n parhau i fod yn heriol ac mae nifer y plant sydd angen gofal wedi cynyddu eto yn ystod y 4 mis diwethaf. Mae'r Tîm Etifeddiaeth, a sefydlwyd i asesu achosion hanesyddol lle mae posibilrwydd na wnaeth y Gwasanaeth ymateb yn briodol iddynt, wedi canfod achosion lle mae angen adolygu mewnbwn gwreiddiol y Gwasanaeth ac o ganlyniad mae dros 20 o blant ychwanegol wedi cael eu derbyn i ofal sy'n golygu fod yr Awdurdod yn gofalu am gyfanswm o 161 o blant a phobl ifanc ar hyn o bryd. Mae goblygiadau ariannol ynghlwm â hyn i'r Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn rhoi cynlluniau mewn lle i gynyddu lleoliadau lleol drwy gyflwyno model Cartrefi Grŵp Bach a chynnig pecyn gwell i Ofalwyr Maeth ac fe ddylai hynny gynorthwyo i ostwng costau yn y tymor hir. Fodd bynnag, mae pwysau yn parhau ar gyllideb y Gwasanaeth.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch sefyllfa'r Awdurdod mewn perthynas â nifer y plant a phobl ifanc y mae'n gofalu amdanynt o gymharu ag awdurdodau lleol

DRAFT

tebyg eu maint. Yn ogystal, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar waith y Tîm Teuluoedd Gwydn a sefydlwyd i ddarparu ymyrraeth gynnar i blant a'u teuluoedd er mwyn cyfyngu ar ymyriadau mwy dwys a chostus yn hwyrach ymlaen pan fydd plant yn cael eu derbyn i ofal.

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod ffigyrau ar gyfer nifer y plant mewn gofal fesul 10,000 o boblogaeth yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn ynghyd â'r gost gyfartalog fesul sir. Wrth gymharu'r data ar gyfer awdurdodau lleol mae'n anodd gweld patrwm clir oherwydd efallai fod gan awdurdodau fodelau gwahanol neu eu bod ar gamau gwahanol yn y broses o foderneiddio eu strwythurau ac arferion gwaith ac o ganlyniad gall ffigyrau amrywio o awdurdod i awdurdod. Mae'r Gwasanaeth yn Ynys Môn wedi bod yn glir ynglŷn â chanolbwyntio ar yr anghenion lleol yn ogystal â bod yn ymwybodol o'r ystadegau cenedlaethol - yn hanesyddol, mae nifer y plant mewn gofal wedi bod yn isel iawn; erbyn hyn maent wedi cyrraedd lefel y byddai'r Awdurdod ac AGC yn ei ddisgwyl, onid ydynt ychydig yn uwch oherwydd bod yr Awdurdod yn adolygu achosion hanesyddol ac o ganlyniad mae plant oedd o bosib angen gofal ynghynt yn dod i mewn i'r system yn awr. Mae plant sy'n dod i mewn i ofal yn aros mewn gofal am gryn amser; mae'r Gwasanaeth yn ceisio dychwelyd y plant at eu teuluoedd lle bo modd ac os yw'n ddiogel i wneud hynny.

Wrth egluro gwaith y Tîm Teuluoedd Gwydn, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y tîm wedi gweithio gyda 58 o blant, ac mae'n debygol y byddai nifer ohonynt wedi cael eu derbyn i ofal oni bai bod y tîm wedi ymyrryd yn gynnar ac wedi gwneud gwaith dwys gyda'u teuluoedd. Mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn yn costio oddeutu £250k ac o ystyried bod un lleoliad gofal hefyd yn gallu costio £250k, mae'n dangos beth yw gwerth yr adnodd o ran effeithiolrwydd a gwerth am arian.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod sefyllfa ariannol y Gwasanaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn heriol. Roedd gorwariant o £1.78m yn y Gwasanaeth ar ddiwedd 2017/18. Gan y rhagwelwyd y byddai pwysau ar gyllideb y gwasanaeth yn parhau, rhoddwyd oddeutu £300k ychwanegol o'r Dreth Gyngor i'r Gwasanaeth yn 2018/19. Gwireddwyd y disgwyliadau hynny ac roedd ffigyrau Chwarter 1 2018/19 yn rhagweld gorwariant o £1.28m erbyn diwedd y flwyddyn; erbyn diwedd Ch2 roedd y gorwariant a ragwelwyd wedi cynyddu i £2.03m. Mae adolygiad pellach ddiwedd mis Hydref, 2018 yn dangos ffigwr o £2.07m. O ganlyniad, gobeithir fod y gorwariant wedi cyrraedd uchafbwynt o gwmpas tua £2m ac y bydd gweithredu'r cynllun Cartrefi Grŵp Bach a chynnig gwell pecyn o fuddiannau i Ofalwyr Maeth, fel a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn dechrau dwyn ffrwyth ac yn cynorthwyo i reoli'r gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Wrth baratoi rhagolygon ar gyfer y dyfodol, mae'r Gwasanaeth Cyllid yn seilio ei ragolygon ar y sefyllfa waethaf bosib gan gymryd i ystyriaeth plant y mae'r Gwasanaethau Plant yn ymwybodol ohonynt ond nad ydynt mewn gofal eto – os na fydd y plant hyn yn cael eu derbyn i ofal yna bydd y gorwariant yn llai. Yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019/20 dyrannwyd £1.4m yn ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn seiliedig ar ragdybiaeth y bydd cynyddu'r gyllideb, ynghyd â chynlluniau'r Gwasanaeth ei hun i reoli gwariant, yn lleihau'r gorwariant ac yn arwain at fwy o gysondeb rhwng y gwariant a chyllideb y gwasanaeth ac o ganlyniad bydd disgwyl i'r Gwasanaeth weithredu o fewn ei gyllideb o 2019/20 ymlaen. Oherwydd bod arian wrth gefn y Cyngor yn lleihau, gwnaed y pwynt yn glir y byddai'n anodd cyfiawnhau darparu unrhyw gyllid ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd oni bai bod cynnydd sylweddol yn nifer y plant sydd angen gofal.



DRAFT

- Nododd y Pwyllgor fod cyfnod y Nadolig yn gallu achosi problemau ychwanegol neu ddwysau problemau sydd eisoes yn bodoli o fewn teuluoedd. Gofynnodd y Pwyllgor beth yw trefniadau'r Gwasanaeth ar gyfer delio gyda phlant a allai fod angen gofal ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn neu a allai fod angen gofal ar fyr rybudd neu mewn argyfwng o ystyried bod cyfarfod â'r gofynion hynny yn debygol o greu pwysau ychwanegol ar y Gwasanaeth. Nododd y Pwyllgor fod cyflwyno'r system Credyd Cynhwysol yn Ynys Môn ym mis Rhagfyr yn cymhlethu'r sefyllfa ymhellach gan fod hwn yn gyfnod anodd i rai teuluoedd pa un bynnag.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, er bod y Gwasanaeth wedi gwneud cynlluniau a'u bod yn barod ar gyfer y Nadolig ac y bydd staff yn gweithio yn ystod y cyfnod, yn hanesyddol ni welwyd cynnydd sylweddol yn yr atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r Gwasanaeth bob amser yn cynllunio ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau sylweddol, gwyliau ayb yn ystod y flwyddyn lle gallai amgylchiadau greu neu gynyddu tensiynau ymysg teuluoedd ac o bosib greu mwy o atgyfeiriadau. Yn ogystal, mae staff y Gwasanaeth wedi derbyn hyfforddiant ar y Credyd Cynhwysol ac maent yn gallu darparu cymorth i'r teuluoedd hynny y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt; fodd bynnag, bydd y gwasanaeth yn gwirio atgyfeiriadau er mwyn sefydlu a oes cynnydd yn nifer y teuluoedd sydd yn wynebu problemau ariannol neu'n ceisio ymdopi â'r Credyd Cynhwysol.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ei bod yn debygol y bydd effeithiau'r Credyd Cynhwysol yn cael eu hamlygu yn raddol dros gyfnod o amser wrth i unigolion drosglwyddo i'r system newydd ac ar yr un pryd bydd dealltwriaeth gwasanaethau o'r effaith yn gwella wrth iddynt weld yr effaith ar y rhai sy'n trosglwyddo. Mae'n debygol y bydd y newid mwyaf arwyddocaol i'w weld ddiwedd yr haf wrth i waith tymhorol ddod i ben ac unigolion sydd yn gwneud ceisiadau am fudd-daliadau hawlio budd-daliadau o dan y system Credyd Cynhwysol. Yn y cyfamser, mae'r Gwasanaeth Cyllid yn cynllunio ar sail cynnydd graddol gyda phosibilrwydd y bydd mwy o gynnydd ddiwedd yr haf.

  **Penderfynwyd -**

- **Fod y Pwyllgor yn fodlon â'r camau a gymerwyd i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chyflymder y cynnydd hyd yma yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a**
- **Bod y Pwyllgor yn argymell yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.**

**NI CHAFODD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL EU HARGYMELL.**

**3 MONITRO CYNNYDD – PANEL GWELLA GWASANAETHAU PLANT**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Panel Gwella Gwasanaethau Plant ar waith y Panel hyd yma.

Cyflwynodd y Cynghorydd Richard Griffiths, cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant, ddiweddariad i'r Pwyllgor ar waith y Panel yn ystod y cyfnod o fis Medi i fis Tachwedd 2018 ac adroddodd fod y Panel wedi cyfarfod 16 o weithiau ers mis Gorffennaf, 2017 ac yn ystod y cyfnod hwnnw bod yr aelodau wedi datblygu llawer gwell dealltwriaeth o'r materion a'r cymhlethdodau sydd ynghlwm â darparu'r Gwasanaethau Plant. Cyfeiriodd y Cynghorydd Griffiths at y rhestr o ymweliadau Laming a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod mis Hydref 2017 i fis Medi 2018 a oedd wedi ei gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad a oedd hefyd yn rhoi crynodeb o bwrpas a chynnwys pob ymweliad a gynhaliwyd.



DRAFT

Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Panel wedi bod o gymorth mawr i'r broses wella a'r bwriad yw y bydd y Panel yn parhau, er y bydd y trefniadau tymor hir yn cael eu hadolygu. Fodd bynnag, pwysleisiodd y Swyddog nad yw'r daith wella wedi gorffen a bod y Gwasanaeth yn llwyr ymwybodol fod angen gwneud mwy o waith er mwyn cwblhau pob elfen o'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a bod y gwaith hwnnw'n debygol o gymryd 9 i 12 mis arall.

Wrth dderbyn a nodi'r diweddariad gofynnodd y Pwyllgor beth yw'r sefyllfa mewn perthynas â gwaith partneriaeth a phlant sy'n cael eu haddysgu gartref, ac yn benodol a oes protocol cenedlaethol ar gael ynglŷn â hynny.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Gwasanaethau Plant wedi ymgynghori â'r Gwasanaeth Oedolion er mwyn datblygu trefniadau i ddarparu cymorth i'r bobl ifanc hynny sy'n trosglwyddo o'r Gwasanaethau Plant i'r Gwasanaethau Oedolion. Yn ogystal, mae cydweithio mewnol gyda'r Gwasanaeth Dysgu ac ysgolion, ac yn allanol gyda BIPBC a Heddlu Gogledd Cymru, wedi gwella. Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth yn cydgynllunio â'r Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Tai yn hytrach nac yn rhannu gwybodaeth yn unig. Mewn perthynas â phlant sy'n cael eu haddysgu gartref, mae'r Gwasanaeth yn ceisio sicrhau ei fod yn ymwybodol o blant sy'n cael eu haddysgu gartref ar Ynys Môn ond y Gwasanaeth Dysgu sy'n gyfrifol am fonitro ansawdd yr addysg y maent yn ei dderbyn.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, oherwydd y cynnydd yn nifer y plant sydd yn derbyn addysg gartref ar yr Ynys, fod y Gwasanaeth wedi cynnal tri chyfarfod er mwyn deall y tuedd ar i fyny a'r rhesymau tu ôl iddo. Mae trefniadau mewnol yn cael eu hystyried ar gyfer rhannu gwybodaeth ac asesu'r plant os oes angen yn ogystal â threfniadau ar gyfer ymyrryd yn briodol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau posib a allai olygu fod plant angen cynllun amddiffyn plant.

Cadarnhaodd y Pennaeth Dysgu, er bod y Gwasanaeth Dysgu yn cynnal cofrestr o blant sy'n cael eu haddysgu gartref, ei bod yn anodd i'r Gwasanaeth gael unrhyw ddylanwad ar ansawdd yr addysg y mae plant sy'n cael eu haddysgu yn y modd hwn yn ei dderbyn.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol –**

- **Y cynnydd a wnaed hyd yma gyda gwaith y Panel Gwella Gwasanaethau Plant o ran cyflawni ei raglen waith.**
- **Bod yr holl ffrydiau gwaith sy'n perthyn i'r Cynllun Gwella Gwasanaeth i weld ar darged hyd yn hyn.**
- **Y meysydd gwaith yr ymdriniwyd â hwy yn ystod yr Ymweliadau Laming, fel modd o gryfhau atebolrwydd, gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Panel ymhellach.**
- **Y rhaglen ddatblygu barhaus ar gyfer aelodau'r Panel, lle caiff llawer ohoni ei darparu'n fewnol.**
- **Yn ogystal, nododd y Pwyllgor fod y Panel wedi cyfeirio i'w sylw y ffaith fod staff asiantaeth yn dal i lenwi nifer fechan o swyddi gweithwyr cymdeithasol, er bod cynnydd da wedi'i wneud ar weithredu'r strwythur staffio diwygiedig. Mae hyn yn cael sylw trwy benodi gweithwyr cymdeithasol (rhai profiadol a newydd gymhwyso) a thrwy gefnogi gweithwyr i gymhwyso. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â hyn.**

**NI CHAFODD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL EU HARGYMELL.**

**4 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Penderfynwyd, o dan Adran 100(A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd wedi'i atodi.**

**5 MODERNEIDDIO YSGOLION – ACHOS STRATEGOL AMLINELLOL AC ACHOS BUSNES AMLINELLOL AR Y CYD AR GYFER YSGOL GYNRADD NEWYDD ER MWYN EHANGU YSGOL Y GRAIG A CHAU YSGOL TALWRN**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Dysgu yn ymgorffori'r Achos Strategol Amlinellol a'r Achos Busnes Amlinellol (ASA/ABA) ar y cyd i ymestyn Ysgol y Graig drwy adeiladu bloc newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a chau Ysgol Talwrn er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried a chyflwyno sylwadau arno.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid fod yr adroddiad ASA/ABA yn un technegol sydd yn nodi'r sail strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaethol dros ymestyn Ysgol y Graig drwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd a chau Ysgol Talwrn, yn unol a phroses Achos Busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif er mwyn derbyn arian cyfalaf ar gyfer y prosiect.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod yr ASA/ABA yn amlinellu'r achos dros foderneiddio ysgolion yn ardal ddwyreiniol Llangefni fydd yn cael ei wireddu drwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig i dderbyn y nifer cynyddol o blant yn y dalgylch ac i dderbyn plant o Ysgol Talwrn a fyddai'n cael ei chau. Cyfeiriodd at agweddau allweddol y cynnig a chostau tebygol y prosiect ynghyd â safle posib ar gyfer y bloc newydd, trefniadau caffael a manyleb y gwaith adeiladu. Mae'r achos ariannol yn rhoi sylw i sut fydd y prosiect yn cael ei ariannu a'i fforddiadwyedd cyffredinol ac mae'r achos rheoli yn nodi cynllun amlinellol y prosiect a'r amserlen gyflenwi.

Dangosodd y Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol gynllun o'r safle posib ar gyfer y Bloc Cyfnod Sylfaen Newydd i'r Pwyllgor, safle a gafodd ei nodi yn dilyn ymarfer arfarnu safleoedd a oedd yn rhoi pwyslais penodol ar yr angen i leoli'r bloc newydd cyn agosed â phosibl at adeilad presennol Ysgol y Graig. Wrth esbonio'r cynllun, cyfeiriodd y Swyddog at yr ystyriaethau a ganlyn -

- Nid yw'r safle a nodwyd ar gyfer y bloc newydd wedi cael ei gadarnhau.
- Ni chynhaliwyd arolwg manwl o'r safle. Fodd bynnag, gan fod y safle yn wlyb iawn, mae'n debygol y bydd angen gwneud gwaith draenio sylweddol er mwyn datrys y problemau draenio dŵr ar y safle.
- Yn ogystal, mae'n debygol y bydd rhaid gwneud gwaith archwilio archeolegol dwys a helaeth er mwyn sefydlu a oes unrhyw nodweddion archeolegol posib o dan y tir.
- Gallai gwaith uwchben yn ogystal â gwaith posib arall e.e. symud y llinell bŵer uwchben, gael effaith ar gyfanswm cost y prosiect.
- Mae safleoedd posib eraill yn yr ardal gyfagos yn cael eu hystyried, gan gadw'r ffactor agosatrwydd mewn cof.
- Mae problemau traffig sylweddol ar safle presennol Ysgol y Graig. Mae'r Gwasanaeth Priffyrdd wedi nodi fod rhaid datrys y problemau traffig ar gyfer y campws cyfan fel rhan o'r datblygiad, ac mae hynny'n golygu creu maes parcio newydd fydd yn cydymffurfio â'r gofynion parcio sylfaenol ar gyfer ysgolion ac yn diwallu anghenion adeilad presennol yr ysgol yn ogystal â'r bloc Cyfnod Sylfaen newydd. Mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys maes parcio newydd wedi ei leoli rhwng adeilad presennol Ysgol y Graig a'r bloc Cyfnod Sylfaen newydd a bydd yn gwasanaethu'r ddau adeilad.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd gan wneud y pwyntiau a ganlyn -

DRAFT

- O'r cynllun a gyflwynwyd, nododd y Pwyllgor ei fod yn ei chael yn anodd gweld sut y byddai'r ddau adeilad – adeilad presennol yr ysgol a'r bloc Cyfnod Sylfaen Newydd – yn gweithio fel un ysgol ar lefel ymarferol. Nododd y Pwyllgor nad yw'r ddau safle mor agos at ei gilydd ag y byddai wedi'i ddymuno ac o ganlyniad bod mwy o risg y byddai'r ddau adeilad yn cael eu rhedeg fel dau endid ar wahân; roedd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch hyn.

- Nododd y Pwyllgor fod y cynnig yn golygu lleoli maes parcio newydd mewn ardal rhwng y ddau adeilad a bod ganddo amheuon ynghylch diogelwch gan fod problemau traffig difrifol yn yr ardal. Gofynnod y Pwyllgor pa mor briodol oedd lleoli'r maes parcio yn y lleoliad hwn.

  Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Dros Dro fod Ysgol y Graig, pan y'i hadeiladwyd yn wreiddiol, wedi cael ei dylunio yn unol â chanllawiau "ysgol werdd" Llywodraeth Cymru gan olygu mai y nifer lleiaf posib o lefydd parcio a ddarparwyd gan mai'r bwriad oedd y byddai'r disgyblion yn cerdded i'r ysgol gan fod stad dai fawr gerllaw. Mewn gwirionedd, mae nifer fawr o ddisgyblion yn cael eu cludo i'r ysgol mewn ceir ac mae disgyblion eraill o du allan i'r dalgylch yn dod i Ysgol y Graig mewn ceir hefyd. Mae lleoli'r maes parcio arfaethedig rhwng y ddau adeilad yn golygu fod modd cael mynediad i'r ddau adeilad yr un mor rhwydd o'r maes parcio oherwydd petai'r maes parcio newydd yn cael ei leoli ym mhen pellaf y safle byddai mwy o waith cerdded i ddisgyblion yr ysgol bresennol.

- Nododd y Pwyllgor y bydd yn her i'r Awdurdod ddarparu ei gyfran o gostau'r prosiect pa un bynnag. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor fod costau y'i gelwir yn "gostau annormal" yn gysylltiedig â'r prosiect oherwydd amodau'r safle. Gofynnodd y Pwyllgor a oes risg i un neu fwy o'r costau hyn gynyddu, ac o bosib effeithio ar y prosiect yn ei gyfanrwydd. Nododd y Pwyllgor hefyd petai'r costau yn cynyddu o ganlyniad i eitemau annormal gallai hynny effeithio ar y cyllid cyffredinol ar gyfer prosiectau mewn ardaloedd eraill ar yr Ynys.

  Yn ddibynnol ar leoliad terfynol y bloc Cyfnod Sylfaen newydd, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol efallai na fydd rhai o'r costau annormal yn gysylltiedig ag amodau'r safle yn dod i'r golwg neu y byddai modd eu lliniaru. Mae "eitemau annormal" yn cael eu cynnwys fel mater o drefn yn yr achos busnes amlinellol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru oherwydd os yw'r costau rhagamcanol yn uwch na safonau cost dylunio Llywodraeth Cymru (cost fesul metr sgwâr) yr eitemau annormal hyn fydd i gyfrif am hynny. Serch hynny, cadarnhaodd y Swyddog bod risgiau'n gysylltiedig ag amodau safle annisgwyl. Cynhelir arolwg o'r safle cyn gynted â phosib a bydd unrhyw waith a nodir o ganlyniad i'r arolwg yn cael eu cynnwys yn yr Achos Busnes Llawn.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y prosiect uchod yn cael ei ariannu o'r adnoddau a ddyrannwyd i Band B gan Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu'r costau hyd at gost benodol fesul metr sgwâr yn ogystal â'r costau annormal yn unol â beth mae'n barnu sy'n rhesymol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am unrhyw gostau uwchlaw hynny y mae Llywodraeth Cymru yn barnu eu bod yn afresymol. Os yw Llywodraeth Cymru'n derbyn bod y costau annormal yn rhesymol ac yn gostau y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu talu yna mae hynny'n debygol o effeithio ar swm y cyllid Band B y bydd yr Awdurdod yn ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect gan olygu o bosib y bydd llai o adnoddau ar gael ar gyfer prosiectau eraill yn amlen gyllido Band B yr Awdurdod. Fodd bynnag, byddai modd trosglwyddo rhai prosiectau i Band C, er nad yw cyllid Band C wedi'i gadarnhau eto. Opsiwn cyllido arall sydd ar gael gan Lywodraeth

DRAFT

Cymru yw’r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, lle mae partner preifat yn adeiladu ac yn cynnal yr ysgol a’r Awdurdod yn gwneud taliad blynyddol er mwyn defnyddio’r adeilad am gyfnod cytunedig. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y gost flynyddol.

- Nododd y Pwyllgor bod angen darparu llefydd ychwanegol ar gyfer y nifer cynyddol o ddisgyblion yn Ysgol y Graig. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai’n rhesymol ystyried adolygu’r dalgylch er mwyn caniatáu i ddisgyblion o’r ardal fynychu’r ysgol newydd arfaethedig i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd. O ganlyniad, efallai y byddai estyniad llai i Ysgol y Graig yn ddigonol ac yn lleihau costau’r prosiect ac o bosib yn caniatáu i’r estyniad gael ei leoli yn nes at yr ysgol.

  O safbwynt capasiti, dywedodd y Pennaeth Dysgu bod angen estyniad i Ysgol y Graig ac ysgol newydd ar gyfer Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd, yn unol â’r cynlluniau. Petai’r dalgylch yn cael ei newid i ganiatáu i ddisgyblion o’r ardal fynychu’r ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd a maint yr estyniad yn Ysgol y Graig yn cael ei leihau o ganlyniad i hynny, byddai’n rhaid i’r Ysgol Corn Hir newydd fod yn fwy er mwyn cynnwys y disgyblion ychwanegol a byddai hynny’n cynyddu’r costau ac yn gwrthbwyso unrhyw arbedion o ganlyniad i leihau maint yr estyniad yn Ysgol y Graig.

  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol fod problemau capasiti yn ardaloedd dwyreiniol a gorllewinol Llangefni yn golygu fod rhaid gwneud newidiadau i Ysgol y Graig ac Ysgol Corn Hir. Petai’r ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd yn cael ei chwblhau gyntaf, mae’n bosib y byddai rhieni yn dewis anfon eu plant i’r ysgol newydd. Serch hynny, mae datblygiadau arfaethedig yn gysylltiedig â champws Coleg Menai yn golygu y byddai’n rhaid gwneud newidiadau i Ysgol y Graig pa un bynnag.

- Mewn cyfnod pan mae’r Cyngor yn wynebu rhaglen heriol o doriadau yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf o leiaf, nododd y Pwyllgor ei fod yn ymrwymo ei hun i gynllun benthyca digymorth. Gofynnodd y Pwyllgor pa mor fforddiadwy yw’r cynigion yn y ASA/ABA ar y cyd o ystyried costau'r cynlluniau moderneiddio ysgolion eraill y mae’r Cyngor eisoes wedi ymrwymo iddynt.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Cyngor wedi cydnabod o’r cychwyn y byddai’r rhaglen moderneiddio ysgolion yn creu costau ychwanegol. Bydd cynnydd o 50% i 65% yng nghyfraniad Llywodraeth Cymru tuag at gostau pob prosiect ym Mand B o gymorth mawr i gynghorau wrth iddynt weithredu cynlluniau moderneiddio ysgolion. Er y bydd cost i’r Gyllideb Refeniw ar ffurf y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) (sef y swm lleiaf y mae’n rhaid i’r Cyngor ei godi ar y Gyllideb Refeniw bob blwyddyn er mwyn talu am y gost o fenthyca a chostau llog) mae’r cynnig yn creu arbedion blynyddol a gellir defnyddio arian cyfalaf a dderbynnir drwy werthu Ysgol Talwrn fel rhan o gyfraniad y Cyngor tuag at y costau ac o ganlyniad leihau’r swm y bydd rhaid iddo ei fenthyg er mwyn cyllido’r prosiect. Mae’n annhebygol y bydd rhaglen gyfalaf i fuddsoddi mewn ysgolion yn cael ei chynnig eto lle mae 65% o gostau’r prosiect yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru ac o ganlyniad mae’n hanfodol fod y Cyngor yn manteisio ar y cyfle hwn i sicrhau fod ei stoc ysgolion yn cyfarfod â safonau'r 21ain Ganrif; fel arall, dim ond gohirio’r broblem o foderneiddio ysgolion fyddai’r Cyngor yn ei wneud ac mae’n debygol y byddai’n rhaid iddo gyllido’r cyfan o’r costau moderneiddio o’i goffrau ei hun rywbryd yn y dyfodol. Mae’r rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn rhaglen fuddsoddi hirdymor lle mae awdurdodau lleol yn cymryd benthyciadau tymor hir er mwyn cyllido eu prosiectau moderneiddio ysgolion a’r costau hynny’n cael eu hymestyn dros y tymor hir / cyfnod gweithredu’r ysgol.



DRAFT

**Ar ôl craffu ar y ASA/ABA, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell i'r Pwyllgor Gwaith, ar yr amod ei fod yn nodi pryderon y Pwyllgor ynglŷn â thraffig, lleoliad y maes parcio a'r her o wneud i'r Ysgol y Graig bresennol a'r Bloc Cyfnod Sylfaen newydd weithio fel un endid, ei fod yn cymeradwyo -**

- **Yr Achos Strategol Amlinellol a'r Achos Busnes Amlinellol (ASA/ABA) ar y cyd i ehangu Ysgol y Graig drwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen Newydd a chau Ysgol Talwrn.**
- **Anfon yr Achos Strategol Amlinellol a'r Achos Busnes Amlinellol (ASA/ABA) ar y cyd i ehangu Ysgol y Graig drwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd a chau Ysgol Talwrn at Lywodraeth Cymru.** ***(Ataliodd y Cynghorydd Lewis Davies ei bleidlais)***

  **NI CHAFODD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL EU HARGYMELL**

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod arbennig ar 17 Ionawr, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, Richard Owain Jones, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Yr Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| **WRTH LAW**: | Y Prif Weithredwr<br>Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Bryan Owen, Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) Trefor Lloyd Hughes, MBE, Kenneth Hughes (wedi eu gwahodd), Mrs Anest Frazer (Aelod Cyfetholedig) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Trwy Wahoddiad**: Y Cynghorwyr G.O. Jones, R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts, Peter Rogers, Alun Mummery (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a rhoddodd groeso arbennig i Christine Jones o Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a oedd yn bresennol i arwain ar eitem 2 ar y rhaglen. Cymerodd y Cadeirydd y cyfle hefyd i longyfarch Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ei phenodiad fel Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys, ac wrth ddymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd, diolchodd iddi am ei gwaith yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

### 1 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2 AROLWG O'R GWASANAETHAU PLANT GAN AROLYGIAETH GOFAL CYMRU (AGC)

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn crynhoi canlyniad yr ail-arolwg gan AGC o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yng Nghyngor Sir Ynys Môn ym mis Hydref, 2018. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio ar y gwelliannau y mae AGC yn cydnabod sydd wedi digwydd ers yr arolwg gwreiddiol ym mis Tachwedd, 2016, a oedd wedi arwain at nifer o bryderon sylweddol; y meysydd i'w datblygu a sefyllfa'r Gwasanaeth ym mhob maes ynghyd â'r camau i'w cymryd yn dilyn yr ail-arolwg. Roedd copi llawn o adroddiad AGC o'r ail-arolwg ynghlwm at sylw'r Pwyllgor.

Rhoddodd Christine Jones, AGC gyflwyniad i'r Pwyllgor ar y prif ganfyddiadau o adroddiad yr Arolygiaeth. Fel rhan o'r arolwg dilyn-i-fyny, roedd AGC wedi gwerthuso ansawdd yr ymarfer, penderfyniadau a wneir a gwaith aml-asiantaeth ynghyd ag ansawdd yr arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant.

Roedd y prif ganfyddiadau ym mis Hydref, 2018 yn cynnwys y canlynol –

- Mae Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Ynys Môn yn gallu dangos gwelliant sylweddol mewn nifer o feysydd allweddol ond mae dal angen gwaith pellach mewn rhai meysydd.
- Mae morâl staff yn uchel ac mae angerdd ac ymroddiad ar bob lefel i barhau i weithio'n galed ar y daith wella er mwyn cyflwyno gwasanaethau rhagorol i blant.
- Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) wedi gwella'n sylweddol ers yr arolwg diwethaf ym mis Tachwedd 2016.
- Mae ymatebion i faterion diogelu yn amserol ac yn gymesur gan amlaf. Mae lle i wella o ran dwyn ynghyd a chofnodi tystiolaeth a dadansoddi risg.
- Mae gwelliannau mewn goruchwyliaeth gan reolwyr ac atebolrwydd proffesiynol ar bob lefel yn parhau i amlygu achosion lle collwyd cyfleoedd i gefnogi plant yn y blynyddoedd cynt.
- Mae diffyg lleoliadau addas i blant. Mae angen rhagor o waith i sicrhau bod dewisiadau lleoliad yn cwrdd ag anghenion penodol y plant o fewn eu cymuned.
- Mae arweinyddiaeth a llywodraethiant cryf yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Mae Uwch Swyddogion yn weladwy, ar gael ac yn gyrru gwelliannau.
- Mae adborth positif gan bartneriaid ynglŷn â'r newidiadau maent wedi eu gweld yn Ynys Môn, gan ddisgrifio diwylliant agored newydd a chydweithio da.

Dywedodd Ms Jones, ar y cyfan, fod Gwasanaethau Plant Ynys Môn mewn lle llawer gwell o gymharu â lle'r oeddynt ym mis Tachwedd, 2016 a bod gan y Gwasanaeth ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'i wendidau a'r meysydd lle mae angen mwy o waith. Dyma yw'r camau cynnar mewn siwrnai barhaus o welliant ar gyfer y Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn a bydd hynny'n cynnwys rhoi ar waith y polisïau, gweithdrefnau a phrosesau newydd sydd wedi'u datblygu a sicrhau bod gwell perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol yn cael ei wreiddio. Y nod yw cyflawni gwelliant cynaliadwy a sicrhau, trwy ddod yn wasanaeth da, bod y Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn yn parhau i fod yn wasanaeth da yn y tymor hir. Dylai'r Gwasanaeth fonitro'r meysydd hynny y mae wedi eu datblygu, gan osod disgwyliadau uchel a chadw'r ffocws ar archwilio a chyflawni'r polisïau a ddatblygwyd. Byth AGC yn gwneud gwaith dilyn-i-fyny pellach trwy ei weithgaredd monitro rheolaidd a bydd yn canolbwyntio ar ffeiliau achos penodol er mwyn adolygu'r cynnydd a wnaed yn nhermau'r camau gweithredu a roddwyd ar waith, yr oruchwyliaeth sy'n digwydd, ansawdd y cofnodi, ac atal llithro'n ôl.

Diolchodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol i Arolygiaeth Gofal Cymru am y gefnogaeth a'r anogaeth a gafwyd gan yr Arolygiaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd hyn wedi bod yn hynod o werthfawr er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn aros ar y trywydd iawn. Dywedodd y Swyddog hefyd bod rhaid diolch i staff y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac i'r Tîm Rheoli a'r Pennaeth Gwasanaeth am ddarparu arweinyddiaeth gref a chlir, ac i Aelodau Etholedig trwy'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant, y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, y Pwyllgor Gwaith a'r Aelod Portffolio am eu cyfraniad wrth gefnogi a rhoi her i'r Gwasanaeth. Mae perthnasau gwaith y Gwasanaeth gyda'i bartneriaid mewnol ac allano fel ei gilydd wedi gwella'n fawr hefyd yn ystod yr amser hwn. Rhoddodd y Swyddog sicrwydd y bydd y gwelliannau a gyflawnwyd yn parhau, a bod gwersi wedi'u dysgu o brofiadau yn y gorffennol ei bod yn hanfodol cymryd camau i sicrhau nad yw'r perfformiad yn llithro'n ôl o gwbl.

DRAFT

Ategodd yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ddiolchiadau'r Swyddog i bawb sydd wedi bod yn rhan o siwrnai welliant y Gwasanaeth hyd yma a dywedodd y dylent hefyd gynnwys y Tîm Arweinyddiaeth Strategol a Phennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Plant a oedd wedi cychwyn y Cynllun Gwella Gwasanaeth yn dilyn yr arolwg gwreiddiol; pwysleisiodd pa mor bwysig yw cynnal y momentwm at y dyfodol a'r ymroddiad at hynny.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y Gwasanaeth nawr yn bwriadu datblygu Cynllun Gwella Gwasanaeth newydd a fydd yn ymgorffori'r ddwy elfen o'r cynllun cyfredol sydd angen eu cwblhau ac y bydd hefyd yn mynd i'r afael â'r 14 maes i'w datblygu yr oedd AGC wedi dwyn sylw atynt yn ei arolwg dilyn-i-fyny. Yn ogystal, bydd y Cynllun diwygiedig yn cynnwys yr elfennau y mae'r Gwasanaeth ei hun wedi eu hadnabod fel rhai sydd angen eu gwella. Bydd y CGG newydd yn cael ei gyflwyno i'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant ym mis Chwefror; caiff ei rannu gyda AGC a chaiff ei weithredu dim ond pan fo consensws ar ei gynnwys. Dywedodd y Swyddog fod yr hen Gynllun wedi ateb y diben yn dda, ac y daw'r gwahaniaeth rhwng y Cynllun newydd a'r hen Gynllun o'r hunan-ymwybyddiaeth uwch sydd gan y Gwasanaeth bellach a'i wybodaeth ynghylch lle mae ei gryfderau a'i wendidau. Mae'n amcan ychwanegol y dylai'r Cynllun Gwella Gwasanaeth newydd adlewyrchu mewnbwn y plant a'r bobl ifanc mae'r Awdurdod yn gofalu amdanynt yn ogystal â phartneriaid allweddol y Gwasanaeth.

Wrth ystyried adroddiad AGC o'i arolwg dilyn-i-fyny a sylwadau'r Swyddogion a'r Aelod Portffolio, fe wnaeth y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor ei fod yn blês gydag adroddiad ail-arolwg AGC a'i fod yn cytuno gyda'r cynnwys ac yn ei dderbyn, ac fe nododd hefyd nad yw'r adroddiad yn dweud unrhyw beth nad yw'r Rheolwyr a'r Aelodau Etholedig yn ymwybodol ohono eisoes.
- Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y cyfraniad a'r ymroddiad gan holl staff y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd dros y ddwy flynedd ddiwethaf tuag at y siwrnai wella. Nododd y Pwyllgor ymhellach fod yna dal ymroddiad cryf ar bob lefel yn yr Awdurdod i sicrhau bod y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i wella ar y daith tuag at ddod yn wasanaeth da, cyson a bod y Pwyllgor yn cydnabod ac yn derbyn bod angen parhau i fod yn wyliadwrus er mwyn sicrhau nad yw'r perfformiad yn llithro. Gellir cyflawni hyn trwy oruchwylio a monitro'r Gwasanaeth yn agos, a thrwy fod yn effro i unrhyw arwyddion cynnar o bryder.
- Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y cyfraniad positif a wnaed gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant ers iddo gael ei sefydlu tuag at y broses o wella'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Nododd y Pwyllgor fod y Panel wedi rhoi cyfle i'w aelodau gael dealltwriaeth fanwl o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a thrwy hynny gallent werthfawrogi'n well gymhlethdodau'r gwasanaeth, sy'n golygu bod aelodau mewn gwell sefyllfa i gefnogi a herio'r Gwasanaeth a gallant wneud hynny'n hyderus. Nododd y Pwyllgor y bydd y Panel yn parhau i fod yn gyfrwng pwysig i sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i gyflawni ei amcanion gwella, a cheisiodd eglurder ar sut y gallai gyfrannu mewn ffyrdd eraill tuag at y rhaglen wella.

  Dywedodd Christine Jones, AGC, fod ar Weithwyr Cymdeithasol angen fframwaith a strwythur i weithio oddi mewn iddynt ynghyd â'r safbwyntiau ffres y gall eraill eu cynnig i waith diogelu, gan gynnwys y Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau fel rhiant corfforaethol, mae angen i'r Awdurdod Lleol yn cynnwys ei Aelodau Etholedig, adnabod y plant a'r bobl ifanc maent yn gofalu amdanynt o ran eu hanghenion, eu sefyllfa a'r disgwyliadau ar eu cyfer a p'un a oes modd cwrdd â'r rhain. Mae angen iddynt fod yn ddiwyd o ran parhau i fod yn wybodus am lesiant a chynnydd y plant maent yn gofalu amdanynt. Nid yw diogelu yn fater i Weithwyr Cymdeithasol yn unig, mae'n fusnes i bawb.

DRAFT

- Nododd y Pwyllgor fod safle'r Gwasanaeth yng nghyswllt y cyntaf o'r 14 maes i'w datblygu a nodwyd gan AGC yn yr arolwg dilyn-i-fyny wedi sgorio'r maes yn Wyrdd sy'n golygu bod y camau gweithredu yn y maes hwn wedi'u cwblhau. Ceisiodd y Pwyllgor eglurder ynghylch p'un a oedd y dynodiad hwn yn gynamserol o gofio bod yr adroddiad arolwg hefyd yn datgan bod rhagor o waith i'w wneud.

  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ac ategodd Christine Jones ef, o'r 14 maes i'w datblygu, fod manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i roi adborth i bobl sy'n gwneud cyfeiriadau yn rhywbeth y gellir ei weithredu'n gyflym gan fod ffurflen electronig ar gael eisoes a'i bod ond yn fater o ddefnyddio'r ffurflen yn fwy cyson er mwyn cyfathrebu â'r rheini sy'n cyfeirio.

- Nododd y Pwyllgor fod recriwtio a chadw staff a chynnal lefelau digonol o staff wedi bod yn broblem i'r Gwasanaethau Plant yn hanesyddol. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd fod trefniadau staffio'r Gwasanaeth nawr yn ddigonol ar gyfer cyfaint y gwaith y mae disgwyl iddo ddelio ag ef.

  Dywedodd Christine Jones nad yw'n rôl i'r Arolygiaeth roi cyngor ar lefelau staffio. Ac ni chaiff lefelau staffio eu rhagnodi mewn deddfwriaeth chwaith. Mae Gwaith Cymdeithasol yn seiliedig ar bedair egwyddor hanfodol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 sef Pobl, Partneriaethau, Integreiddio ac Ataliaeth; mae deilliannau y mae disgwyl i'r Gwasanaeth eu cyflawni ar gyfer y bobl y daw i gyswllt â hwy o ran eu gofal, diogelwch, urddas a pharch. Mae'r modd y caiff y rhain eu cyflawni yn cael ei bennu gan yr Awdurdod yng nghyd-destun ei flaenoriaethau a'i ofynion cyllideb. Cyfrifoldeb y Rheolwyr yw ystyried y negeseuon a ddaw o'r sylwadau a wneir gan staff ynglŷn â llwythi achosion, ac adnabod unrhyw resymau sydd tu ôl iddynt. Un ffactor ychwanegol yw ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau ataliol y Gwasanaeth wrth y drws ffrynt ynghyd ag argaeledd adnoddau ar ffurf dewisiadau lleoliad. Mae'r rhain oll yn ffactorau a all gynorthwyo neu lesteirio rôl y Gweithiwr Cymdeithasol yn ei waith dydd i ddydd.

  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant fod buddsoddiad helaeth wedi'i wneud yn strwythur staffio'r Gwasanaethau Plant dros gyfnod y gwelliant, ac fe arweiniodd hynny at sefydlu'r model Grŵp Ymarfer a'r Tîm Teuluoedd Gwydn sydd wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran rheoli costau a sicrhau gwell canlyniadau i blant. Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol y bydd y pwysau o ran cwrdd ag anghenion y garfan o blant sy'n Gadael Gofal yn cynyddu'n flynyddol o'r pwynt hwn ac fe roddir ystyriaeth i sut y bydd y galw hwn yn cael ei ateb yn fewnol. Mae'n ffodus fod buddsoddiad ychwanegol wedi'i wneud yn y Gwasanaeth gan fod y Tîm Etifeddiaeth wedi adnabod rhai achosion hanesyddol lle gellid bod wedi delio â hwy yn fwy effeithlon.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y buddsoddiad ychwanegol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi cael ei gymeradwyo ar sail achos busnes cryf a oedd yn gosod yn glir pam oedd angen yr adnoddau a sut y byddent yn cael eu gwario.

- Nododd y Pwyllgor fod adroddiad AGC o'r arolwg dilyn-i-fyny yn adnabod diffyg lleoliadau addas i blant a bod angen rhagor o waith i sicrhau bod dewisiadau o ran lleoliadau yn cwrdd ag anghenion penodol plant o fewn eu cymuned. Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ar y mesurau y gellir eu cymryd i ddarparu ystod ehangach o ddewisiadau lleoliad.

  Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y Gwasanaeth nawr yn gweithredu'r model Cartrefi Grŵp Bach, a gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor



DRAFT

Gwaith yn ddiweddar. Mae'r model hwn yn golygu datblygu tai Awdurdod Lleol mewn lleoliadau addas yn y gymuned fel cartrefi i grwpiau o ddau o blant ar y tro. Mae un tŷ o'r fath wedi'i adnabod ac mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar ddod o hyd i dŷ arall o'r fath. Mae'n rhaid i gartrefi o'r fath gael eu cofrestru gan AGC gyda'r gobaith y gellir gwneud hyn yn rhwydd. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cael sêl bendith y Pwyllgor Gwaith i becyn cefnogaeth newydd ar gyfer Gofalwyr Maeth yr Awdurdod gan ddarparu buddion ehangach iddynt. Er y cydnabyddir fod gofalwyr maeth yn cael eu cymell am resymau ar wahân i rai ariannol, mae cyflwyno pecyn cefnogaeth newydd wedi arwain at dderbyn ymholiadau am ofal maeth.

- Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y byddai cofrestru cartrefi grŵp bach yr Awdurdod yn amodol ar y gwiriadau angenrheidiol i sicrhau addasrwydd yr eiddo, ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch p'un a fyddai modd cyflymu'r broses gofrestru ac a fyddai AGC yn gallu adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn.

  Dywedodd Christine Jones, AGC, y byddai'n sefydlu a yw hyn yn bosib a chadarnhaodd y byddai'n adrodd yn ôl i'r Awdurdod gan ychwanegu fod y broses gofrestru fel arfer yn cymryd amser gan fod rhaid iddi fod yn drylwyr.

  Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fod tîm o AGC wedi bod yn cydweithio gyda'r Pennaeth Gwasanaeth am beth amser i adnabod y gofynion ac mae'n bwysig bod gan yr Awdurdod yr holl elfennau angenrheidiol mewn lle yn barod at y broses gofrestru. Unwaith mae'r cartref cyntaf wedi'i gofrestru, dylai'r broses ar gyfer paratoi a sefydlu cartrefi dilynol fod yn haws.

- Nododd y Pwyllgor fod AGC trwy ei broses arolygu, yn ceisio rhoi sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd fod dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni; i yrru gwelliant ac i fod yn effro i arwyddion cynnar o bryder. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd fod AGC yn fodlon bod y Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn wedi bodloni'r amodau hyn ac nad oes unrhyw achos i fod yn bryderus sydd angen sylw ar unwaith.

  Cadarnhaodd Christine Jones, AGC fod yr arolwg dilyn-i-fyny wedi dangos nad oedd unrhyw blentyn sydd wedi'i adnabod fel plentyn mewn risg nad oedd heb dderbyn ymateb statudol. Dywedodd y gall pethau newid yn y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn amser byr iawn, weithiau o ganlyniad i un ymweliad a gollwyd, sy'n golygu ei bod yn bwysig cael strwythurau digonol mewn lle gan gynnwys goruchwyliaeth ac archwilio, i sicrhau petai rhywbeth yn cael ei golli yn y cam cyntaf, y caiff ei adfer i lawr y lein. Er bod y Gwasanaethau Plant ar Ynys Môn mewn sefyllfa llawer gwell o gymharu â dwy flynedd yn ôl, nid oes lle i laesu dwylo – mae'r adroddiad yn nodi bod gwaith pellach i'w wneud; gallai unrhyw lacio ar y momentwm i wella olygu bod y perfformiad yn llithro oherwydd mai dyna yw natur Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae goruchwyliaeth reolaidd, cefnogaeth gan reolwyr, archwilio a chasglu a chofnodi tystiolaeth yn glir felly'n hanfodol.

- Nododd y Pwyllgor fod darparu cyllid digonol i gwrdd â'r galw yn y Gwasanaethau Plant yn broblem; ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch p'un a yw hyn hefyd yn broblem i Wasanaethau Plant mewn awdurdodau eraill yng Nghymru.

  Cadarnhaodd Christine Jones, AGC mai dyma yw'r neges gan Wasanaethau Plant trwy Gymru gyfan. Wrth i'r ffordd y mae AGC yn arolygu newid i ganolbwyntio ar lefelau gwasanaeth unigol, gweithredol a strategol, bydd rhan o archwilio'r lefel strategol o wasanaeth yn cynnwys edrych ar p'un a yw cyllidebau wedi eu halinio i'r angen. Wrth i adnoddau brinhau, mae angen i Awdurdodau adlewyrchu a ydynt wedi

edrych yn ddigonol ar integreiddio, gwasanaethau di-dor ac ar adeiladu gwasanaethau ataliol yn seiliedig ar gymunedau gwydn.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i Christine Jones am ei chyflwyniad a'i hymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor.

**Ar ôl craffu ar adroddiad Arolwg Dilyn-i-Fyny AGC, nododd y Pwyllgor ei fod yn hapus gyda'r adroddiad ac yn cytuno gyda'i gynnwys, gan nodi nad oedd yn cynnwys unrhyw beth annisgwyl. Rhoddodd y Pwyllgor sicrwydd i AGC y byddai'r argymhellion yn yr adroddiad ynghyd â hunanasesiad y Gwasanaeth, yn cael eu defnyddio i ddatblygu Cynllun Gwella Gwasanaeth newydd er mwyn gwella ymhellach. Penderfynwyd felly –**

- **Cadarnhau'r ffurfiol fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad Arolwg gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar y Gwasanaethau Plant yng Nghyngor Sir Ynys Môn a'i fod yn argymell yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.**
- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn derbyn ac yn cytuno gyda sefyllfa wasanaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

  **CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL – Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd AGC yn adrodd yn ôl gyda manylion am y broses gofrestru ar gyfer cynllun cartrefi grŵp bach yr Awdurdod a p'un a oes modd cyflymu'r broses.**

**3 MATER ER GWYBODAETH – ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD 2017/18**

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor – adroddiad y Pennaeth Dysgu yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar gyfer 2017/18. Roedd yr adroddiad yn amlygu cryfderau a gwendidau cymharol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth fel y nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol 2017/18 ynghyd ag asesiad (MALD) Llywodraeth Cymru o Adroddiad Blynyddol 2017/18 y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a'r materion sy'n codi.

Nodwyd yr adroddiad er gwybodaeth.

**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **4 Chwefror, 2019** |
| **Pwnc:** | **2019/20 Gosod y Gyllideb (Refeniw a Chyfalaf)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Rhoi ystyriaeth bellach i gynigion y gyllideb 2019/20** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol** |

**1 - Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

**A1** Cytuno ar ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith[1] ar gyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2019/20 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol yn adran 4 yr adroddiad), gan gymryd i ystyriaeth y negeseuon allweddol a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar

**A2** Ystyried y priodoldeb o wahodd y Panel Sgriwtini Cyllid i ystyried y meysydd a nodwyd gan ddinasyddion i'w hystyried ar gyfer arbedion pellach posib yn 2020/21 a thu hwnt.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Cyswllt uniongyrchol efo Cynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid. Bydd y sylw a roddir gan y Pwyllgor i'r cynigion ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut bydd y cynigion yn galluogi'r Pwyllgor Gwaith i gyflawni Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid yn ogystal â rhoi sylw i unrhyw risgiau penodol.

Mae'n ofyn statudol bod y Cyngor yn gosod cyllideb hyfyw ar gyfer y flwyddyn i ddod erbyn 11 Mawrth, 2019. Bydd y cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror, 2019 ac wedyn cânt eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 27 Chwefror, 2019 i'w cadarnhau.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

[1] I'w gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gaiff ei gynnal ar 18 Chwefror, 2019

| |
|---|
| **3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar ostyngiad o 1% yn y Cyllid Allanol Cyfun (AEF), cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor ac angen am arbedion o £5m. Mae'r cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft a'r setliad terfynol wedi newid y gyllideb hy roedd y gostyngiad terfynol yn y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) yn 0.3% a dim ond £3.7m o arbedion a gafodd eu hadnabod ar gyfer 2019/20. Fel y nodwyd yn adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151, bydd angen cynyddu'r Dreth Gyngor 6% er mwyn gallu cydbwyso'r gyllideb. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan y Swyddog Adain 151, bydd lleihau cyllidebau ysgolion £1.7m yn cael effaith sylweddol ar ysgolion (llai o staff a dosbarthiadau mwy) ac er bod cyllid ychwanegol wedi'i chynnwys yn y cynigion cyllideb drafft ar gyfer y Gwasanaethau Plant ac Addysg, mae yna dal risg na fydd y gyllideb arfaethedig yn ddigonol er mwyn gallu bodloni'r galw cynyddol am ofal cymdeithasol. Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig y tu hwnt i 2019/20 yw i barhau â'r arbedion effeithlonrwydd (tua £1m - £1.5m y flwyddyn) a pharhau i gynyddu'r Dreth Gyngor 5%.<br><br>Yn dilyn yr uchod, gwahoddir y Pwyllgor Sgriwtini i ystyried y cwestiynau canlynol:<br><br>1. A yw'r Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig i godi'r Dreth Gyngor o leiaf 6% [adran 2, Atodiad 1]<br>2. Yn dilyn negeseuon allweddol yr Ymgynghoriad Cyhoeddus, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a ddylid peidio â gweithredu unrhyw rai o'r arbedion arfaethedig. Os felly, a fyddai'r Pwyllgor yn cefnogi cynnydd pellach yn y Dreth Gyngor hy uwch na 6%, er mwyn galluogi'r cynigion arbedion na chawsant eu cefnogi i beidio â chael eu gweithredu? [paragraff 3.6-3.9, Atodiad 1 a pharagraff 5, Atodiad 2]<br>3. A yw'r Pwyllgor yn ystyried y bydd unrhyw gynigion arbedion yn cael effaith andwyol ar ddinasyddion Ynys Môn neu unrhyw grwpiau sydd wedi'u gwarchod? A yw'r Pwyllgor yn ystyried y dylid cymryd unrhyw gamau pellach er mwyn lliniaru effaith y cynigion am arbedion ar ddinasyddion Ynys Môn neu grwpiau sydd wedi'u diogelu [Tabl Arbedion, Atodiad 1 ac Atodiad 2]<br>4. Derbyniwyd nifer sylweddol o ymatebion ar y newidiadau arfaethedig i'r premiwm ail dai a thai gwag yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar. Ydy'r Pwyllgor |

yn cefnogi'r cynigion cyfredol neu ydy'r Pwyllgor yn dymuno cyflwyno unrhyw sylwadau pellach i'r Pwyllgor Gwaith?

5. A yw'r Pwyllgor yn cefnogi cynyddu'r Dreth Gyngor yn uwch na 6% er mwyn galluogi mwy o gyllid i gael ei ddyrannu i ofal cymdeithasol? [paragraff 3.1 – 3.5 a 5, Atodiad 1]
6. Gan ystyried y gostyngiad yn lefel yr arian wrth gefn a barn broffesiynol y Swyddog Adain 151, a oes gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau am y defnydd o'r arian wrth gefn er mwyn mantoli cyllideb refeniw 2019/20? [paragraff 6, Atodiad 1]
7. A oes gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau am strategaeth ariannol y Cyngor y tu hwnt i 2019/20 (hy yr angen i barhau i wneud arbedion pellach ac i gynyddu'r Dreth Gyngor i lefel sy'n uwch na chwyddiant)? [paragraff 7, Atodiad 1]
8. A oes gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau ar y gyllideb gyfalaf arfaethedig o ran a yw'n mynd i'r afael ag amcanion corfforaethol y Cyngor ac o ran fforddiadwyedd? [paragraff 8, Atodiad 1].

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CYD-DESTUN

**1.1** Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diweddar, gan osod y sylfeini ar gyfer proses well, fwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arferion da. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu dull mwy systematig o graffu ariannol, fel sylfaen hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn. Mae ein dull o graffu ar faterion ariannol bellach yn dechrau dod i'r amlwg fel model a all fod yn arfer da.

**1.2** Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod cyllid yn hollbwysig i'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a bod gan y materion ariannol sy'n ein wynebu fel awdurdod lleol effeithiau pellgyrhaeddol – o ran y gwasanaethau a dderbynnir a hefyd y Dreth Gyngor neu ffioedd a thaliadau a godir[2]. Wrth iddi ddod yn fwyfwy anodd dod o hyd i'r arbedion angenrheidiol trwy arbedion effeithlonrwydd, bydd angen i'r Cyngor roi ystyriaeth fanwl i'r holl opsiynau posib. Yn anochel, bydd hyn yn golygu'r angen i ni ofyn cwestiynau heriol ynghylch pa wasanaethau i'w cynnig i'r dyfodol ac i ba raddau y mae'r dulliau cyfredol o ddarparu gwasanaethau yn parhau i fod yn briodol. Ystyriaeth arall yw'r ffordd orau o reoli disgwyliadau (mewnol ac allanol) wrth wneud y newidiadau angenrheidiol.

**1.3 Cynigion drafft cychwynnol ar gyfer y gyllideb**
Fel y trafodir ym mharagraff 3.3 isod, rhoddodd y Panel Sgriwtini Cyllid ystyriaeth fanwl i rai o'r cynigion drafft cychwynnol ar gyfer y gyllideb cyn i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried a rhoi sylwadau ar adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 yn ystod ei gyfarfod ar 6 Tachwedd, 2018. Roedd yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r cynigion drafft cychwynnol ar gyfer cyllideb 2019/20 a'r arbedion a nodwyd hyd yma, ynghyd â rhestr o'r arbedion effeithlonrwydd fesul gwasanaeth ar gyfer 2019/20. Cafodd y Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid hefyd yn amlinellu'r cynllun ymgynghori ar gyllideb 2018/19.
Gellir gweld crynodeb o drafodaethau'r Pwyllgor yn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor.

**1.4** Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion ar gyfer y gyllideb derfynol, mae angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y cynigion yng nghyd-destun sefyllfa ariannol hirdymor

[2] Disgwyliadau Uwch: Craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Canllawiau i awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Craffu Cyhoeddus Mehefin, 2014)

ehangach y Cyngor (fel y nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol) a nodau ac amcanion hirdymor y Cyngor (fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2017/2022).

**2. GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2019/20**

2.1 Gweler ynghlwm adroddiad y Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adran 151 ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2019/20 (**ATODIAD 1**) ac sy'n darparu datganiad sefyllfa ar y materion canlynol:

- Cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb
- Y setliad terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol
- Y sefyllfa gyllidebol ddiwygiedig ar gyfer 2019/20
- Y Dreth Gyngor
- Cronfeydd wrth gefn a balansau cyffredinol
- Cynigion arbedion
- Pwysau cyllidebol
- Risgiau.

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2019/20**

3.1 Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'r Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau sy'n prinhau, yn enwedig cyllid:

"…*Mae pwysigrwydd craffu effeithiol yn cynyddu wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n ceisio'n barhaus i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn unol ag anghenion y gymuned leol…..*"[3]

Sut i ychwanegu gwerth ym mhob cam o'r broses ariannol ddylai fod y cwestiwn allweddol o safbwynt sgriwtini ariannol. Mae'r **broses gosod cyllideb** yn un o'r camau allweddol hynny.

3.2 Mae Sgriwtini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith. Mae'n golygu sicrhau bod y pwyllgor yn craffu'n effeithiol ar y broses o gynllunio, gweithredu a dilyn-i-fyny yn effeithiol y penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Felly dylai Sgriwtini:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod (trwy brofi sut mae dewisiadau'n cael eu gwneud ynglŷn â dyrannu adnoddau a pha mor dda y defnyddir adnoddau i gyflawni ein hamcanion a'n blaenoriaethau polisi).

3.3 **Panel Sgriwtini Cyllid**

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Panel Sgriwtini Cyllid wedi'i sefydlu i sicrhau'r canlyniadau allweddol a ganlyn:

i. Datblygu model o weithio lle mae grŵp llai yn canolbwyntio ar roi sylw i faterion ariannol fel y gall yr Aelodau hynny gymryd mwy o ran a datblygu lefel o arbenigedd, ac er mwyn annog presenoldeb da a gwaith tîm
ii. Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau sydd â'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

[3] Sgriwtini Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014

Mae sgriwtini ariannol wedi datblygu'n helaeth dros y flwyddyn ddiwethaf trwy waith y Panel, gyda mewnbwn ac arweiniad arbenigol allanol gan CIPFA Cymru. Mae'r Panel wedi mynd ati'n strategol i graffu mater ariannol ac mae wedi datblygu strategaeth gwestiynu i danategu eu gwaith. Mae'r Panel wedi gweithio ar sail risg wrth ystyried y cynigion ar gyfer cyllideb 2019/20 ac mae wedi blaenoriaethu'r 3 maes gwasanaeth a ganlyn[4]:

- Y Gwasanaeth Dysgu
- Y Gwasanaethau Oedolion
- Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

Rhoddwyd ystyriaeth i grynodeb o sylwadau'r Panel fel rhan o ystyriaethau'r Pwyllgor o'r cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2019/20[5].

**4. NEGESEUON ALLWEDDOL O'R BROSES YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

**Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus**

4.1 Ymgynghorodd y Cyngor ar gynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith rhwng 16 Tachwedd a 31 Rhagfyr. Roedd y cyfnod ymgynghori o 7 wythnos yn canolbwyntio ar 17 cynnig

4.2 Deilliodd y cynigion hyn o'r broses gyllideb flynyddol ac ymgynghorwyd arnynt er mwyn casglu barn y cyhoedd a sicrhau y gall y Pwyllgor Gwaith (wrth i'r broses ddirwyn i ben) wneud argymhellion yn seiliedig ar wybodaeth gyflawn. Cawsant eu cyflwyno gan y gwasanaethau yn ystod yr Hydref a bu i Aelodau Etholedig o bob grŵp gwleidyddol yn y Cyngor eu herio a chytuno arnynt i bwrpas ymgynghori.

4.3 Rhannwyd y cynigion i'r themâu canlynol:

- Dysgu
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lleihau Cyllidebau
- Bysiau, Parcio ac Adfywio
- Y Dreth Gyngor
- Premiymau Treth
- Syniadau

4.4 Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynigion hyn mewn nifer o ffyrdd:

- Sesiwn briffio i'r wasg leol
- Datganiadau ac erthyglau yn y wasg
- Cyhoeddwyd y cynigion ar wefan y Cyngor (tudalen gartref)
- Defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol – Twitter a Facebook, i hyrwyddo'r cynigion i amrywiaeth ehangach o ddinasyddion
- Ebyst yn tynnu sylw at drafodaethau ar y cynigion ac yn gwahodd dinasyddion i gymryd rhan
- Cyfweliad gan Arweinydd y Cyngor ar MônFM yn hyrwyddo'r ymgynghoriad a'i gynnwys

Bwriad pob un o'r sianeli uchod oedd hysbysebu ac ennyn brwdfrydedd dinasyddion a staff i ymgysylltu ac ymateb i'r cynigion cychwynnol. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad drwy wahanol ddulliau gan gynnwys – arolwg ar-lein ar wefan y Cyngor, ebost neu drwy lythyr

**Ymgysylltu â Dinasyddion a Rhanddeiliaid Eraill**

4.5 Yn ogystal â'r uchod, cynhaliodd y Cyngor waith ymgysylltu pellach drwy gynnal:

[4] Cyfarfod y Panel Sgriwtini Ariannol a gynhaliwyd ar 26/09/18

[5] Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2018

- Sesiwn grŵp ffocws ar gyfer pobl ifanc o ysgolion uwchradd y Sir (yn Siambr y Cyngor)
- Sesiynau gyda cynghorau ysgolion uwchradd a hefyd gyda'r Ffermwyr Ifanc a'r Urdd
- Sesiwn a gynhaliwyd yn y Cyngor ar gyfer partneriaid ee Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub, Bwrdd Iechyd, Cynghorau Tref a Chymuned, sefydliadau 3ydd Sector ac asiantaethau eraill
- Sesiwn gyda Phenaethiaid ac Uwch Reolwyr ysgolion yr Ynys
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned

4.6 Roedd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus yn dilyn patrwn tebyg i'r blynyddoedd blaenorol ond rhoddwyd mwy o bwyslais eleni ar hyrwyddo ymateb electroneg drwy wneud defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol

**Negeseuon Allweddol**

4.7 Eleni mae cyfradd yr ymatebion wedi cynyddu'n sylweddol a derbyniwyd oddeutu 5,400 o ymatebion yn erbyn 17 o gynigion, sef cyfartaledd o oddeutu 317 ymateb ar gyfer pob cynnig. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ymateb gafwyd yn y gorffennol ac mae hynny i'w groesawu. Cyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio'r sianelau amrywiol a amlinellwyd uchod, gydag ymatebwyr yn defnyddio'r holl ddulliau ymgysylltu oedd ar gael

4.8 Y dull mwyaf llwyddiannus ar gyfer casglu ymatebion eleni oedd yr arolwg ar-lein – ymatebodd dros 95% drwy'r sianel hon ac mae hyn yn gynnydd pellach o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol ac efallai ei fod yn dangos unwaith eto fod dinasyddion yn fwy parod i gymryd rhan drwy ddefnyddio'r dull hwn

4.9 Derbyniwyd ymatebion gan gyrff megis cynghorau tref, cyrff llywodraethol ysgolion, pobl hŷn a phobl anabl, pobl ifanc, athrawon a dinasyddion eraill nad oedd modd eu cynnwys mewn unrhyw grŵp penodol

4.10 O'r ymatebion i'r mathau o arbedion a gynigir mewn perthynas â chyllideb 2019/20, ymddengys fod cydbwysedd amlwg, gyda rhai ymatebwyr yn erbyn a rhai o blaid. Mae tensiynau yn bodoli'n amlwg rhwng y rhain a'r meysydd mwyaf cynhennus (gydag ymatebion dros 70%). Mae cryn anghytundeb â'r cynigion gwreiddiol canlynol:

- Y Dreth Gyngor – Premiymau ar ail gartrefi
- Toriadau i gyllidebau ysgolion
- Gwneud arbedion drwy leihau'r galw am ofal cartref a gwasanaethau byw â chefnogaeth.

4.11 Noder hefyd bod y gyfradd ymateb i'r ymgynghoriad eleni yn llawer uwch nag yn y gorffennol a chynigir fod gwerthusiad llawn o broses ymgynghori eleni yn cael ei chynnal er mwyn dysgu gwersi a darparu sylfaen gadarn er mwyn gwella eto'r flwyddyn nesaf

Ynghlwm mae adroddiad y Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Pherfformiad sy'n crynhoi'r negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliodd y Cyngor yn ddiweddar (**ATODIAD 2**).

**5. MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**

5.1 Mae proses gosod cyllideb 2019/20 wedi rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r cynigion effeithlonrwydd drafft. Yn arbennig, bu'r gyfres o weithdai cyllidebol a gynhaliwyd yn ystod yr hydref yn gyfle i'r aelodau roi ystyriaeth fanwl i bob cynnig unigol ar gyfer y gyllideb a gyflwynwyd gan holl wasanaethau'r Cyngor. Cafwyd mewnbwn hefyd gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn sgil ei ystyriaeth

fanwl o'r cynigion effeithlonrwydd. Ar y cam hwn yn y broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried unrhyw safbwyntiau terfynol ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019/20 cyn y bydd y Pwyllgor Gwaith[6] yn ystyried ei gyllideb ddrafft derfynol arfaethedig ar 18 Chwefror.

5.2 Yn wyneb y broses hyd yma ar gyfer gosod cyllideb 2019/20, cynigir felly y dylai'r Pwyllgor:

i. Ystyried y negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar ar y cynigion ar gyfer cyllideb 2019/20
ii. Rhoi sylw manylach i'r effeithiau a gaiff y cynigion y bu pryder amdanynt yn yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar ar ddinasyddion
iii. Ystyried y gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2019/20 ymlaen.

## 6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Ynghlwm mae'r asesiadau effaith mewn perthynas â'r meysydd gwasanaeth a ganlyn a fydd yn galluogi'r Pwyllgor i asesu effaith y cynigion allweddol ar gyfer cyllideb 2019/20:

1. Rhoi'r gorau i wasanaeth bws ar rai llwybrau
2. Adolygu dyfodol yr holl gylchwylwyr croesi'r ffordd (ysgolion)
3. Rhoi'r gorau i'r gwasanaeth casglu clytiau ychwanegol
4. Lleihau'r galw am wasanaethau gofal cartref
5. Lleihau'r galw am gefnogaeth i fyw'n annibynnol
6. Darparu setliad ariannol i ysgolion sy'n is na chost lawn yr holl bwysau cyllidebol a wynebir gan ysgolion yn 2019/20
7. Cynyddu cost prydau ysgol
8. Dim ond prynu'r isafswm statudol o ddarpariaeth feithrin gan sefydliadau meithrin.

## 7 – Goblygiadau Ariannol

Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2019/20, sy'n cynnwys ystyried y cynigion ar gyfer y gyllideb a'r negeseuon allweddol a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus diweddar.

## 8 – Atodiadau:

**ATODIAD 1**: adroddiad y Pennaeth Adnoddau ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2019/20
**ATODIAD 2**: negeseuon allweddol o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y Cyngor
**ATODIAD 3**: asesiadau effaith cydraddoldeb

## 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

[6] Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gaiff ei gynnal ar 18 Chwefror, 2018

Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW

**Dyddiad: 11/01/19**
**(diwyg. 24/01/19 a 28/01/19)**

**ATODIAD 1**

**CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2019/20**

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Nodwyd y cyd-destun ar gyfer cyllideb refeniw 2019/20 yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) ar gyfer 2019/20 i 2021/22 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2018. Ceir crynodeb o'r cynllun yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1**

**Cynllun Ariannol Tymor Canol**

| | 2019/20 £'m | 2020/21 £'m | 2021/22 £'m |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen | 130.95 | 131.73 | 133.59 |
| Pwysau Cyllidebol a chwyddiant | 5.78 | 3.91 | 4.24 |
| **Cyllideb Ddiwygiedig** | **136.73** | **135.64** | **137.83** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | 94.85 | 94.85 | 94.85 |
| Y Dreth Gyngor | 36.88 | 38.74 | 40.67 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **131.73** | **133.59** | **135.52** |
| | | | |
| **Arbedion Angenrheidiol** | **5.00** | **2.05** | **2.31** |
| | | | |
| **Prif Dybiaethau** | | | |
| Codiadau Cyflog – ac eithrio athrawon | 3.1% | 2.0% | 2.0% |
| Codiadau Cyflog - Athrawon | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Pensiynau Athrawon | 12.3% | 0.0% | 0.0% |
| Chwyddiant cyffredinol | 2.1% | 2.1% | 2.0% |
| Lleihad yn yr AEF | -1.0% | 0.0% | 0.0% |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | 5.0% | 5.0% | 5.0% |

**1.2.** Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith ei gynigion cyllidebol cychwynnol yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2018 a chymeradwyodd Gyllideb Ddisymud gychwynnol o £137.402m ac, yn seiliedig ar y setliad dros dro o £95.159m, roedd hyn yn gadael bwlch cyllido o £7.156m cyn cynyddu'r Dreth Gyngor. Roedd y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb yn cynnwys arbedion o £3.747m, gan adael £3.409m i'w gyllido o'r Dreth Gyngor. Ceir crynodeb o'r arbedion arfaethedig yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2**

**Arbedion Arfaethedig 2019/20**

| Categori Arbedion | Arbediad Arfaethedig £'000 |
|---|---|
| Rhoi'r Gorau i Wasanaethau / eu trosglwyddo | 320 |
| Cynhyrchu Incwm | 475 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | 473 |
| Ailstrwythuro Staff | 308 |
| Trawsnewid Gwasanaethau | 237 |
| Rheoli'r Galw am Wasanaethau | 195 |
| Gostyngiad yng Nghyllidebau'r Ysgolion | 1,739 |
| **CYFANSWM** | **3,747** |

**1.3.** Yn ogystal, cynigiodd y Pwyllgor Gwaith gynnydd yn y premiwm Dreth Gyngor o 25%, ar gyfer y ddau gategori, i 35% yn achos ail gartrefi a 100% ar gyfer eiddo gwag hirdymor. Byddai'r newid hwn yn cynhyrchu £0.69m ychwanegol (yn seiliedig ar dâl 2018/19). Er mwyn cynhyrchu'r £2.719m sy'n weddill, byddai angen cynnydd o 7.55% yn y Dreth Gyngor.

## 2. CYLLIDEB DDISYMUD DDIWYGIEDIG 2019/20 A'R SETLIAD REFENIW TERFYNOL

**2.1.** Mae'r gyllideb ddisymud dros dros wedi cael ei hadolygu a'i diweddaru i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol sydd wedi eu cynnwys yn y setliad terfynol ar gyfer llywodraeth leol, diweddaru cyllidebau ar gyfer newidiadau y gwyddys amdanynt, diweddaru i gymryd i ystyriaeth y newidiadau yn ardoll y gwasanaeth tân a chywiro unrhyw gamgymeriadau neu bethau a adawyd allan a nodwyd yn ystod y broses o wirio'r gyllideb. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o £0.266m yn y gyllideb ddisymud.

**2.2.** Cafodd y setliad cyllido terfynol ar gyfer llywodraeth leol ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar 19 Rhagfyr 2018. Ar draws Cymru, gwelwyd cynnydd o £33.559m yn yr Asesiad Gwariant Safonol, fodd bynnag, gwelwyd cynnydd hefyd o £10.942m yn y refeniw a ragwelwyd o'r Dreth Gyngor. O ganlyniad, cafwyd cynnydd o £23.591m yn y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ar gyfer Cymru. Roedd y swm hwn yn cynnwys £7.0m i gwrdd â chostau codi'r trothwy cyfalaf o £40,000 i £50,000 cyn y byddai'n rhaid i gleientiaid mewn gofal preswyl /nyrsio orfod talu'r gost yn llawn, £1m ychwanegol i gwrdd â chostau prydau ysgol am ddim, £0.975m ychwanegol i godi'r gostyngiad mwyaf yn AEF unrhyw Gyngor o -1.0% i -0.3% a £14.616m mewn cyllid ychwanegol.

**2.3.** Yn achos Ynys Môn, roedd hyn yn codi'r AEF o £95.159m i £95.791m, cynnydd o £0.632m. Fe wnaeth Ynys Môn elwa o godi'r llawr cyllido o -1.0% i - 0.3% ond mae'n cynrychioli gostyngiad o 0.3% yn yr AEF ar sail tebyg am ei debyg.

**2.4.** Yn seiliedig ar y gyllideb ddisymud ddiwygiedig (ar ôl arbedion cyllidebol) o £133.921m ac AEF terfynol o £95.791m, byddai'n rhaid cynhyrchu £38.130m o'r Dreth Gyngor i ariannu'r gyllideb hon. Gan gymryd i ystyriaeth y cynnydd yn y premiwm a'r newid yn sylfaen y dreth, byddai angen gosod Treth Gyngor Band D ar £1,208.52, sy'n cyfateb i gynnydd o 6%.

## 3. PWYSAU YCHWANEGOL AR Y GYLLIDEB A RISGIAU

**3.1.** Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol (2018/19), rhagwelir y bydd y Cyngor yn gorwario gan £2.3m a hynny'n bennaf oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau yn y Gwasanaethau Plant (gorwariant rhagamcanedig o £2m), Gwasanaethau Oedolion (gorwariant rhagamcanedig o £1m) ac Addysg Ganolog (gorwariant rhagamcanedig o £0.7m).

**3.2.** Wrth lunio'r gyllideb ddisymud, cafodd cyllid ychwanegol ei gynnwys er mwyn cwrdd â rhywfaint o'r gorwariant a ragwelir, £1.4m ar gyfer y Gwasanaethau Plant a £0.2m ar gyfer Addysg Ganolog ond, ers drafftio'r gyllideb ddisymud ym mis Medi / Hydref 2018, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu o ran y gorwariant disgwyliedig yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Oedolion.

**3.3.** Mae'r tri Gwasanaeth yn gweithredu cynlluniau a phrosiectau i reoli'r galw ac i leihau costau, gan gynnwys:-

- Gwasanaethau Plant – Cartrefi Grŵp Bychan (bydd hyn hefyd yn lleihau ffioedd addysg All-sirol), cynyddu nifer y gofalwyr maeth sydd gan y Cyngor.
- Gwasanaethau Oedolion – Darparu tai gofal ychwanegol, adolygu a lleihau pecynnau gofal lefel isel, ailfodelu'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal cartref, adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal dydd i oedolion a llety â chymorth.
- Addysg Ganolog – aildendro'r contractau cludiant ysgol.

**3.4.** Yn ychwanegol at hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi grantiau ychwanegol, y tu allan i'r setliad ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Mae £35m wedi cael ei ddyrannu i Gymru a bydd Ynys Môn yn derbyn oddeutu £720k o gyllid ychwanegol (ffigyrau i'w cadarnhau).

**3.5.** Yn wyneb yr uchod, amcangyfrifiwyd bod y tan-gyllido posibl ar gyfer y 3 gwasanaeth yn £1.0m, a hynny gan dybio y bydd y prosiectau a gynlluniwyd yn arwain at sicrhau'r arbedion a ragamcenir a bod dim cynnydd pellach yn y galw am wasanaethau. Oherwydd bod lefel y cronfeydd wrth gefn wedi gostwng yn sylweddol, byddai gorwariant o'r maint yma eto yn 2019/20 yn peri risg ariannol fwy i'r Cyngor.

**3.6.** Mae'r cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb yn cynnwys £3.7m o arbedion ac, er bod yr arbedion hyn wedi cael eu craffu a'r risgiau o beidio â'u cyflawni wedi cael eu hasesu, gan gynnwys adolygiad gan y Panel Sgriwtini Cyllid, mae risg na fydd rhai arbedion yn cael eu gwireddu neu ddim yn cael eu gwireddu ar amser. Er enghraifft, yn 2018/19, amcangyfrifir na fydd £267k (10.6%) o'r arbedion a gynlluniwyd yn cael eu gwireddu. Wedi ystyried yr arbedion arfaethedig, gellir gweithredu'r rhan fwyaf ohonynt ac mae'r risg o beidio â chyflawni yn isel iawn ond ystyrir bod risg uwch na fydd gwerth £235k ohonynt yn cael eu cyflawni.

**3.7.** Mae'r cynigion cyllidebol yn cynnwys cynnig i ddyrannu llai o gyllid nag sydd ei angen i'r ysgolion i gwrdd â'r holl bwysau cyllidebol (cyflogau, cyfraniadau pensiwn a chwyddiant cyffredinol o ran prisiau). Amcangyfrifir bod cost yr holl bwysau a wynebir gan ysgolion yn 7% ond, drwy ostwng y gyllideb a ddatganolir i ysgolion gan £1.739m, bydd y cynnydd ariannol gwirioneddol y bwriedir ei roi i'r ysgolion yn 1.95%.

**3.8.** Mae prifathrawon wedi mynegi pryder y caiff y cynnig hwn effaith sylweddol ar ysgolion ac y bydd yn arwain at ostyngiad yn nifer yr athrawon a dosbarthiadau mwy. Mae gwaith cychwynnol a wnaed gydag ysgolion unigol wedi amlygu'r anawsterau a gaiff ysgolion i osod cyllideb gytbwys yn 2019/20. Mae balansau ysgolion ar gael i ddarparu cyllid ychwanegol yn y tymor byr ond mae lefel y balansau wedi gostwng yn raddol o £2.4m ym mis Mawrth 2016 i ffigwr rhagamcanedig o £0.8m ym mis Mawrth 2019.

**3.9.** Caiff effaith y cynnig ar ysgolion unigol ei ddangos yn Nhabl 3 isod.

**Tabl 3**

**Effaith y Gostyngiadau Amrywiol yn y Gyllideb a Ddatganolir i Ysgolion ar sail sampl o ysgolion**

| Sector | Maint yr Ysgol | Y Gostyngiad Posibl yn y Gyllideb |
|---|---|---|
| **Cynradd** | 28 disgybl | £760 |
| | 46 disgybl | £11,810 |
| | 71 disgybl | £14,110 |
| | 130 disgybl | £23,820 |
| | 183 disgybl | £33,080 |
| | 241 disgybl | £40,420 |
| | 352 disgybl | £58,600 |
| | 430 disgybl | £72,640 |
| | | |
| **Uwchradd** | | £103,240 to £187,800 |
| | | |
| **Arbennig** | | £76,000 |
| | | |
| Mae'r uchod yn seiliedig ar ostyngiad o £1.739m yn y gyllideb yn cael ei neilltuo pro rata ar sail maint y gyllideb ym mhob sector. | | |

## 4. Y DRETH GYNGOR

**4.1.** Roedd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo band D am 2018/19 yn £1,140.21, sef y 18fed o'r 22 Awdurdod yng Nghymru ac yn is na chyfartaledd Cymru o £1,241.Yn bwysicach fyth i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4**

**Cymhariaeth o Gostau Band y Dreth Gyngor ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru**

| Awdurdod | Tâl Band D 2018/19 £ | Swm yn Uwch / Is nag Ynys Môn £ | Y Ganran yn Uwch / Is nag Ynys Môn % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,140 | | |
| Gwynedd | 1,301 | + 161 | + 14.1% |
| Conwy | 1,169 | + 29 | + 2.5% |
| Sir Ddinbych | 1,248 | + 108 | + 9.5% |
| Sir y Fflint | 1,178 | + 38 | + 3.3% |
| Wrecsam | 1,093 | - 47 | - 4.1% |

**4.2.** Dangosir effaith pob cynnydd o 0.5% o 6% i 10% yn Nhabl 5 isod. Dylid nodi bod lefel y Dreth Gyngor yn bwysig o ran gosod cyllideb 2019/20 ond y bydd hefyd yn cael effaith ar gyfer 2020/21, oherwydd bydd y man cychwyn ar gyfer y Dreth Gyngor yn cael ei benderfynu gan y codiad a osodwyd ar gyfer 2019/20 a bydd hyn yn cael effaith ar y cynnydd y bydd ei angen yn 2020/21.

**Tabl 5**

**Effaith y Gwahanol Lefelau o Gynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19**

| Cynnydd Canrannol | Y Newid yng Nghyllid Cyffredinol y Cyngor £'m | Y cyllid uwchlaw'r Gofyniad i ariannu'r Gyllideb Ddiwygiedig £'m | Tâl Band D 2019/20 £ | Cynnydd yn Nhâl 2018/19 £ | Cynnydd wythnosol yn Nhâl 2018/19 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.0% | + 2.160m | - | 1,208.61 | + 68.40 | + 1.31 |
| 6.5% | + 2.340m | + 0.18m | 1,214.19 | + 73.98 | + 1.42 |
| 7.0% | + 2.520m | + 0.36m | 1,220.04 | + 79.83 | + 1.53 |
| 7.5% | + 2.700m | + 0.54m | 1,225.71 | + 85.50 | + 1.64 |
| 8.0% | + 2.880m | + 0.72m | 1,231.47 | + 91.26 | + 1.75 |
| 8.5% | + 3.060m | + 0.90m | 1,237.14 | + 96.93 | + 1.86 |
| 9.0% | + 3.240m | + 1.08m | 1,242.81 | + 102.60 | + 1.97 |
| 9.5% | + 3.420m | + 1.26m | 1,248.57 | + 108.36 | + 2.08 |
| 10.0% | + 3.600m | + 1.44m | 1,254.24 | + 114.03 | + 2.19 |

## 5. CYDBWYSO CYLLIDEB REFENIW 2019/20

**5.1.** Fel y dangosir ym mharagraff 2.4, bydd angen cynnydd o 6% yn lefel y Dreth Gyngor i ariannu cyllideb o £133.921m a bydd angen sicrhau gwerth £3.747m o arbedion.

**5.2.** Fodd bynnag, fel y nodir yn Adran 3, mae yna elfen o dan-gyllido nad yw wedi cael sylw yn y gyllideb hon, mae risg na fydd modd cyflawni rhai o’r arbedion ar amser neu y bydd amgylchiadau’n rhwystro gweithrediad y cyfan o’r arbedion ac mae angen rhoi sylw i effaith y gostyngiad yng nghyllidebau’r ysgolion.

**5.3.** Mae’r tabl isod (Tabl 6) yn amlygu effaith cyllido canran o’r gyllideb na fydd efallai’n cael ei hariannu / risgiau o ran arbedion ynghyd ag effaith y gostyngiad yng nghyllidebau’r ysgolion. Byddai costau ychwanegol y newidiadau hyn yn cael eu hariannu o godiad uwch na 6% yn y Dreth Gyngor.

**Tabl 6**

**Opsiynau ynghylch sut i ddefnyddio’r Cyllid Ychwanegol petai’r Dreth Gyngor yn cael ei chodi gan fwy na 6%**

| **CYLLID YCHWANEGOL FYDDAI’N CAEL EI GYNHYRCHU** | **Canran y Pwysau Cyllidebol sydd ddim yn cael eu hariannau ac a fydd yn cael eu cynnwys yn y Gyllideb Refeniw Net Derfynol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **25%** | **50%** | **75%** | **100%** |
| **Lefel y Gostyngiad yn y Gyllideb a Ddatganolir i Ysgolion** | | | | |
| £1.739m – dim newid o’r cynnig gwreiddiol | 358,750 | 674,500 | 990,250 | 1,306,000 |
| £1.2m - £539k yn is na’r cynnig gwreiddiol | 897,750 | 1,213,500 | 1,529,250 | 1,845,000 |
| £1m - £739k yn is na’r cynnig gwreiddiol | 1,097,750 | 1,413,500 | 1,729,250 | 2,045,000 |
| £800k - £939k yn is na’r cynnig gwreiddiol | 1,297,750 | 1,613,500 | 1,929,250 | 2,245,000 |
| £400k - £1.339m yn is na’r cynnig gwreiddiol | 1,697,750 | 2,013,500 | 2,329,250 | 2,645,000 |

| **CYNNYDD YN Y DRETH GYNGOR** | **Canran y Pwysau Cyllidebol sydd ddim yn cael eu hariannau ac a fydd yn cael eu cynnwys yn y Gyllideb Refeniw Net Derfynol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **25%** | **50%** | **75%** | **100%** |
| **Lefel y Gostyngiad yn y Gyllideb a Ddatganolir i Ysgolion** | | | | |
| £1.739m – dim newid o’r cynnig gwreiddiol | 6.92% | 7.80% | 8.67% | 9.55% |
| £1.2m - £539k yn is na’r cynnig gwreiddiol | 8.42% | 9.29% | 10.17% | 11.05% |
| £1m - £739k yn is na’r cynnig gwreiddiol | 8.97% | 9.85% | 10.73% | 11.60% |
| £800k - £939k yn is na’r cynnig gwreiddiol | 9.53% | 10.40% | 11.28% | 12.16% |
| £400k - £1.339m yn is na’r cynnig gwreiddiol | 10.64% | 11.51% | 12.39% | 13.27% |

## 6. ARIAN WRTH GEFN A BALANSAU

**6.1.** Ar 31 Mawrth 2018, roedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn £6.899m, sy'n cyfateb i 5.3% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2018/19, 7.4% os bydd y gyllideb a ddatganolir i ysgolion yn cael ei gadael allan. Mater i'r Cyngor, yn seiliedig ar argymhelliad gan y Swyddog Adran 151, yw penderfynu ar lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol ond, fel rheol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Yn seiliedig ar gyllideb refeniw ddisymud 2019/20, byddai angen oddeutu £6.7m yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y ffaith nad oes gan y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd unrhyw arian wrth gefn i syrthio'n ôl arno a bod ysgolion cynradd yn dibynnu'n gynyddol ar yr arian wrth gefn sydd ganddynt ar gyfer gwasanaethau i gydbwyso eu cyllidebau. Os cymerir y gyllideb sydd wedi ei datganoli i'r ysgolion allan o'r swm, byddai angen i lefel gyffredinol yr arian wrth gefn fod yn £4.8m.

**6.2.** Yn ystod 2018/19, mae £0.59m wedi cael ei ryddhau o'r arian wrth gefn cyffredinol i gyllido costau unwaith ac am byth. Daw hyn â lefel gyfredol yr arian wrth gefn i lawr i £6.309m.

**6.3.** Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd gorwariant o £2.35m yn y gyllideb refeniw yn 2018/19, y bydd angen ei gyllido o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Gan gymryd y cyfan o'r ffactorau hyn i ystyriaeth, tybir y bydd lefel y balansau cyffredinol yn gostwng i oddeutu £4m erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018/19, sy'n cyfateb i 3% o'r gyllideb refeniw ddisymud ar gyfer 2019/20.

**6.4.** Ar adegau o galedi ariannol, mae cyllidebau'n cael eu lleihau ac nid yw'r capasiti ar gael i ddelio gyda chynnydd yn y galw am wasanaethau, yn arbennig y gwasanaethau hynny sydd â llai o reolaeth dros y galw amdanynt, e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol. O'r herwydd, mae dadl bod yr angen am arian wrth gefn yn fwy oherwydd mae'r risg o orwario'n cynyddu a bydd y Cyngor angen lefel uwch o adnoddau ariannol i leihau'r risg.

**6.5.** Ym marn y Swyddog Adran 151, mae lefel yr arian wrth gefn cyffredinol bellach wedi cyrraedd pwynt tyngedfennol ac ni ddylid caniatáu iddo ostwng ymhellach. Mae cael cyn lleied â 3% o arian wrth gefn yn risg ariannol i'r Awdurdod ac mae'r risg hon yn cynyddu po fwyaf y bydd yr arian wrth gefn yn parhau i fod ar y lefel isel hon. Yn y tymor canol, rhaid i gynllun ariannol y Cyngor gynnwys cyllidebu ar gyfer gwarged ariannol y gellir ei ddefnyddio i adfer lefel yr arian wrth gefn cyffredinol yn ôl i isafswm o £6.7m. Derbynnir na fydd modd cyflawni hyn mewn un blwyddyn ariannol ac y gall gymryd rhwng 3 a 5 mlynedd i wneud hyn ac y bydd raid gwneud y cyfraniad blynyddol hwn i'r cronfeydd wrth gefn yn ystod cyfnod o galedi parhaus a'r angen i ddod o hyd i arbedion pellach.

**6.6.** Mae'r Cyngor hefyd yn dal £9.9m mewn cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyfyngedig (ar 31 Mawrth 2018). Mae'r rhan fwyaf o'r cronfeydd wrth gefn hyn yn angenrheidiol ac maent ar gael i gyllido prosiectau penodol, maent yn gysylltiedig â balans grantiau nad ydynt wedi eu dyrannu neu maent ar gael i gyllido risgiau posibl petaent yn datblygu i fod yn broblem. Parheir i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyfyngedig hyn a thybir y bydd y balans wedi gostwng i £6.3m erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018/19. Mae'r rhan fwyaf o'r £6.3m ar gael ar gyfer risgiau posibl, e.e. risgiau nad ydynt wedi eu hyswirio, i ddal grantiau sydd heb gael eu dyrannu ac i gyllido prosiectau sydd wedi cychwyn yn rhannol ac a fydd yn cael eu cwblhau yn ystod 2019/20.

## 7. DIWEDDARU'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL

**7.1.** Roedd y cynigion cychwynnol ar y gyllideb a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 12 Tachwedd 2018 yn seiliedig ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2018 (gweler Tabl 1). Yn hon, amcangyfrifiwyd y byddai cyfanswm yr AEF yn gostwng gan 1% yn 2018/19 ac y byddai'r Dreth Gyngor yn codi gan 5% ac na fyddai unrhyw newid yn y premiwm ar ail gartrefi a thai gwag.

7.2. Yn y setliad ei hun, gwelwyd gostyngiad o 0.3% yn yr AEF ac mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol. Nid yw'r sefyllfa hon yn unigryw i Ynys Môn ac roedd y rhan fwyaf o Gynghorau Cymru wedi cynllunio ar gyfer toriad sylweddol yn yr AEF – mewn gwirionedd, mae AEF 9 o'r 22 Gyngor wedi cynyddu o safbwynt ariannol.

7.3. Mae rhagamcan newidiadau yn yr AEF yn y dyfodol yn anodd a bydd llawer yn dibynnu ar berfformiad economi'r DU ar ôl Brexit. Mae Llywodraeth y DU wedi diwygio eu polisi ariannol ac nid yw'n darged mwyach i glirio diffyg cyllidebol y DU erbyn 2020 ond, os bydd twf economaidd yn llai na'r disgwyl, gall hyn arwain at doriadau pellach i gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru. Bydd y warchodaeth a rydd Llywodraeth Cymru i feysydd gwariant eraill o gymharu â llywodraeth leol hefyd yn cael effaith sylweddol ar lefel setliadau i lywodraeth leol yn y dyfodol.

7.4. Ni chafwyd unrhyw arwydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch lefel cyllid yn y dyfodol ac, oherwydd nad yw'r wybodaeth hon ar gael, mae'r CATC yn parhau i dybio na fydd cynnydd yn lefel yr AEF dros y 3 blynedd nesaf.

7.5. Cymerir y bydd chwyddiant a chodiadau cyflog yn cyd-redeg â'i gilydd yn ystod y 3 blynedd nesaf a thybir y bydd cynnydd blynyddol o 2%. Disgwylir y bydd galw am wasanaethau yn aros ar yr un lefel ar draws y gwasanaethau ond, fel y gwelwyd yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, efallai bod hyn yn optimistaidd.

7.6. Tybir y bydd y Dreth Gyngor yn parhau i dyfu 5% bob blwyddyn. Petai'r cynnydd gwirioneddol yn llai na'r ffigwr hwn, byddai angen arbedion ychwanegol o £0.41m ar gyfer pob 1% dan y 5%.

7.7. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau yma, amcangyfrifir y bydd angen i'r Cyngor wneud arbedion pellach o rhwng £1m a £1.5m ym mhob un o'r tair blynedd ddilynol. Mae hyn yn seiliedig ar ddiweddariad lefel uchel o'r CATC a bydd y Pwyllgor Gwaith yn cael asesiad manylach ym mis Medi 2019.

## 8. CYLLIDEB GYFALAF 2019/20

8.1. Cymeradwywyd y gyllideb gyfalaf ddrafft ar gyfer 2019/20 gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2018. Rhoes y gyllideb flaenoriaeth i'r meysydd isod:-

- Unrhyw gynlluniau a gymeradwywyd yn y blynyddoedd blaenorol ond nad oeddynt wedi cychwyn / wedi eu cwblhau;
- Buddsoddi i uwchraddio a chynnal a chadw asedau presennol, gan gynnwys adeiladau, ffyrdd, cerbydau a TG;
- Buddsoddiad parhaus mewn ysgolion newydd;
- Datblygu tai Cyngor newydd;
- Unrhyw gynlluniau sy'n denu lefel sylweddol o grantiau am fuddsoddiad bychan gan y Cyngor;
- Cynlluniau a fyddai'n cynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol.

8.2. Bydd y gyllideb gyfalaf yn cael ei gyllido o'r ffynonellau canlynol:-

- Grant Cyfalaf Cyffredinol;
- Benthyca â Chefnogaeth;
- Derbyniadau Cyfalaf;
- Benthyca Digefnogaeth ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif;
- Grantiau cyfalaf;
- Arian wrth gefn cyfalaf.

**Tabl 7**

**Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig ar gyfer 2019/20**

| **Cynllun** | **Cyllideb 2019/20 £'m** | **Grantiau Allanol £'m** | **Arian y Cyngor £'m** |
|---|---|---|---|
| Porth Ymwelwyr Ynys Gybi | 1.000 | 0.950 | 0.050 |
| Lôn Newydd Wylfa | 7.000 | 7.000 | 0.000 |
| Isadeiledd Strategol Caergybi a Llangefni | 3.400 | 3.330 | 0.070 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | 0.900 | 0.765 | 0.135 |
| Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr | 0.779 | 0.000 | 0.779 |
| Neuadd y Farchnad Caergybi | 0.350 | 0.250 | 0.100 |
| Ysgol Santes Dwynwen | 0.085 | 0.000 | 0.085 |
| Ysgol Rhyd y Llan | 0.037 | 0.000 | 0.037 |
| Estyniad Ysgol y Graig | 3.120 | 1.185 | 1.935 |
| Ysgol Bro Llangefni | 3.521 | 2.324 | 1.197 |
| Ysgol Biwmares, Llandegfan a Llangoed | 0.400 | 0.132 | 0.268 |
| Ysgol Syr Thomas Jones ac ysgolion cynradd cyfagos | 0.400 | 0.132 | 0.268 |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 0.750 | 0.000 | 0.750 |
| Mynedfeydd i'r Anabl – Adeiladau Addysgol | 0.300 | 0.000 | 0.300 |
| Cerbydau Newydd | 0.150 | 0.000 | 0.150 |
| Isadeiledd TG | 0.439 | 0.000 | 0.439 |
| Atgyweirio Ysgolion | 0.500 | 0.000 | 0.500 |
| Gwaith Atgyweirio (ac eithrio Ysgolion) | 0.400 | 0.000 | 0.400 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1.359 | 0.580 | 0.779 |
| Gwariant Cyfalaf CRT / Datblygiadau Newydd | 13.110 | 2.660 | 10.450 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN GYFALAF** | **38.000** | **19.308** | **18.692** |
| | | | |
| **Cyllidir gan:** | | | |
| Grantiau Allanol | 18.728 | 18.728 | |
| Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2018/19 | 1.099 | | 1.099 |
| Grantiau Cyfalaf Cyffredinol | 1.327 | | 1.327 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2.026 | | 2.026 |
| Grant Atgyweirio Priffyrdd | 0.580 | 0.580 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | - | | - |
| Benthyca Digefnogaeth ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif | 1.847 | | 1.847 |
| Benthyca â Chefnogaeth ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif | 1.943 | | 1.943 |
| Benthyca Digefnogaeth ar gyfer y CRT | 1.000 | | 1.000 |
| Refeniw / Arian Wrth Gefn ar gyfer y CRT | 9.450 | | 9.450 |
| **CYFANSWM Y CYLLID** | **38.000** | **19.308** | **18.692** |

**8.3.** Yn y setliad terfynol i lywodraeth leol am 2019/20, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd o £738k yn y grant cyfalaf cyffredinol ond nid yw'r Pwyllgor Gwaith wedi dyrannu hwn i unrhyw brosiectau penodol hyd yma.

| **Arbedion Arfaethedig ar gyfer Cyllideb Refeniw 2019/20** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Categori Arbedion** | **Cynnig ar gyfer arbediad** | **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | **Arbedion i'w Gweithredu £** | **Camau i'w Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau i'w gweithredu'n llwyddiannus** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Rhoi'r gorau i / Trosglwyddo Gwasanaethau | Gwneud arbedion o fewn y gwasanaeth bysus drwy roi gorau i'r teithiau isod nad oes llawer yn gwneud defnydd ohonynt -<br>50b - 07.13 rhwng Amlwch a Llangefni (gwasanaeth 32) ar foreau Sadwrn<br>63a – 63 Gwasanaeth sy'n teithio o Amlwch i Lanerchymedd (drwy Brynteg) ar brynhawniau Sadwrn<br>43a – Gwasanaeth dyddiol (43a) sy'n darparu ar gyfer stadau ac ardaloedd preswyl ym Mhorthaethwy a Llanfairpwll ynghyd â gwasanaeth rhwng Caernarfon a Llangefni | EA 1 | 133 | Dwyn y contractau cyfredol gyda chontractwyr i ben | Ebrill 2019 | Gwrthwynebiad cyhoeddus i'r ffaith fod y Cyngor yn torri'r gwasanaethau hyn. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cynhyrchu Incwm | Cynnydd o £20 ym mhris y tocyn parcio blynyddol er mwyn gwneud mwy o incwm | Dim Angen | 8 | Cyhoeddi'r cynnydd yn y pris | Ebrill 2019 | Gall arwain at leihad yn y galw am docynnau gyda hynny'n golygu gostyngiad yn yr incwm a gynhyrchir. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Rhoi'r gorau i / Trosglwyddo Gwasanaethau | Adolygu dyfodol yr holl hebryngwyr croesfannau ysgol | EA 2 | 58 | Dwyn conctractau'r staff presennol i ben. Byddai angen talu tâl diswyddo i'r staff dan sylw | Ebrill 2019 neu Medi 2019 | Pryderon y cyhoedd ynghylch diogelwch |

| Arbedion Arfaethedig ar gyfer Cyllideb Refeniw 2019/20 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Categori Arbedion** | **Cynnig ar gyfer arbediad** | **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | **Arbedion i'w Gweithredu £** | **Camau i'w Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau i'w gweithredu'n llwyddiannus** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau'r cyllidebau ar gyfer cynnal a chadw'r Llwybr Arfordirol, Strwythurau a Thraffig | Dim Angen | 15 | Lleihau'r gyllideb sydd wedi ei neilltuo | Ebrill 2019 | Dim digon o gyllideb i dalu costau gwaith trwsio a chynnal a chadw hanfodol |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Rhoi'r gorau i / Trosglwyddo Gwasanaethau | Rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth ychwanegol ar gyfer casglu clytiau | EA 3 | 30 | Rhoi gwybod i'r Contractwr a defnyddwyr y gwasanaeth am y newid | Ebrill 2019 | Gwrthwynebiad cyhoeddus i'r newid |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau'r cyllidebau ar gyfer Cynnal a Chadw Goleuadau Stryd yn sgil gosod mwy o oleuadau stryd LED | Dim Angen | 42 | Lleihau'r gyllideb sydd wedi ei neilltuo | Ebrill 2019 | Dim |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Rhoi'r gorau i ddefnyddio'r ychwanegolyn 'safecote' ar gyfer graeanu | Dim Angen | 25 | Lleihau'r gyllideb sydd wedi ei neilltuo | Ebrill 2019 | Dim |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cynhyrchu Incwm | Cynyddu'r gyllideb incwm gwaith stryd i adlewyrchu'r lefel gyfredol o incwm a dderbyniwyd | Dim Angen | 100 | Cynyddu'r targed incwm | Ebrill 2019 | Nid yw'r incwm gwirioneddol yn cyflawni'r targed diwygiedig uwch |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Rhoi'r gorau i / Trosglwyddo Gwasanaethau | Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am doiledau cyhoeddus penodol i'r cymunedau | Dim Angen | 10 | Nodi a chyrraedd cytundeb gyda pharti sy'n fodlon cymryd drosodd y cyfrifoldeb am doiled cyhoeddus | Pan fydd parti sy'n fodlon yn cael ei nodi | Dim parti yn dod ymlaen i fynegi diddordeb |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Defnydd cynyddol o geir LPG a thrydan | Dim Angen | 40 | Addasu'r gyllideb i adlewyrchu'r costau cyfredol diwygiedig | Ebrill 2019 | Dim |

| Arbedion Arfaethedig ar gyfer Cyllideb Refeniw 2019/20 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Categori Arbedion** | **Cynnig ar gyfer arbediad** | **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | **Arbedion i'w Gweithredu £** | **Camau i'w Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau i'w gweithredu'n llwyddiannus** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Cynhyrchu Incwm | Incwm ychwanegol o unedau diwydiannol newydd | Dim Angen | 14 | Gosod unedau newydd | Wrth i denantiaid newydd gael eu nodi | Dim digon o denantiaid yn cael eu nodi ar gyfer yr unedau newydd |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Ailstrwythuro Staff | Ailstrwythuro'r Tîm Rheoli Eiddo | Dim Angen | 85 | Cytuno'r newidiadau i ddisgrifiadau swyddi'r staff sy'n cael eu heffeithio.<br>Rhyddhau'r staff ar gyfer y swyddi hynny nad oes eu hangen mwyach. | Eisoes wedi ei weithredu | Diffyg capasiti ymysg y staff sy'n weddill i wneud yr holl waith sydd ei angen, gan arwain at ostyngiad ym mherfformiad y gwasanaeth |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Arbedion ar gyllidebau ynni yn dilyn buddsoddiad cyfalaf | Dim Angen | 30 | Buddsoddiad cyfalaf | Ebrill 2019 | Dim |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Trawsnewid Gwasanaethau | Rhesymoli rheolaeth y staff glanhau | Dim Angen | 20 | Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoli staff i'r ysgolion | Medi 2019 | Anallu i gyrraedd cytundeb boddhaol gyda'r ysgolion |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau'r gyllideb costau adeiladau / costau rhedeg yn dilyn cael gwared ar Neuadd y Sir, Llangefni | Dim Angen | 20 | Cwblhau gwerthiant Neuadd y Sir | Ebrill 2019 | Anallu i gyrraedd cytundeb gyda'r prynwr a methiant i gael gwared ar yr adeilad |
| **Cyfanswm ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | **630** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | Rheoli'r Galw | Lleihau'r galw am leoliadau preswyl a nyrsio gan 2.5% y flwyddyn | EA 4 | 111 | Sicrhau bod darpariaeth amgen ddigonol ar gael | Ebrill 2019 | Y galw am ofal preswyl a nyrsio ddim yn gostwng – angen newid diwylliant a all gymryd mwy o amser i'w gyflawni |

| Arbedion Arfaethedig ar gyfer Cyllideb Refeniw 2019/20 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Categori Arbedion** | **Cynnig ar gyfer arbediad** | **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | **Arbedion i'w Gweithredu £** | **Camau i'w Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau i'w gweithredu'n llwyddiannus** |
| Gwasanaethau Oedolion | Rheoli'r Galw | Gostwng y galw am wasanaethau gofal cartref gan 53 awr yr wythnos | EA 5 | 46 | Adolygu'r modd y mae pecynnau gofal yn cael eu penderfynu a sut asesir anghenion y cleient | Ebrill 2019 | Dim modd lleihau'r galw am ofal cartref oherwydd nifer gynyddol y cleientiaid neu gleientiaid sydd ag anghenion cynyddol – angen newid diwylliant a all gymryd mwy o amser i'w gyflawni |
| Gwasanaethau Oedolion | Rheoli'r Galw | Gostwng y galw am wasanaeth byw â chymorth gan 50 awr yr wythnos | EA 5 | 38 | Adolygu'r modd y mae gofal yn cael ei ddarparu ar gyfer cleientiaid. Cytuno ar y newidiadau gyda darparwyr gwasanaeth, cleientiaid a staff | Ebrill 2019 | Dim modd cytuno a gweithredu'r newidiadau. |
| Gwasanaethau Oedolion | Trawsnewid Gwasanaeth | Cynyddu nifer y cleientiaid sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol gan 10 cleient y flwyddyn | Dim Angen | 30 | Nodi a throsglwyddo cleientiaid i daliadau uniongyrchol | Ebrill 2019 | Dim modd dod o hyd i ddigon o gleientiaid. |
| Gwasanaethau Oedolion | Cynhyrchu Incwm | Cynyddu cost safonol y gofal a ddarperir yng nghartrefi'r Cyngor er mwyn adlewyrchu'n agosach y gost o ddarparu'r gwasanaeth | Dim Angen | 30 | Gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnydd yn y ffioedd | Ebrill 2019 | Her gan gleient sydd wedi ei effeithio. |
| Gwasanaethau Oedolion | Cynhyrchu Incwm | Cychwyn codi'r tâl a ganiateir yn statudol ar gyfer yr holl oedolion sy'n gleientiaid a hynny'n gyson ar draws pob oedran ac anabledd | Dim Angen | 250 | Rhoi gwybod i'r cleientiaid am y newid. Cynnal y profion modd ariannol angenrheidiol | Mai 2019 | Her gan gleient / grŵp sydd wedi ei effeithio. Nifer gynyddol o apeliadau ar asesiadau |

| **Arbedion Arfaethedig ar gyfer Cyllideb Refeniw 2019/20** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Categori Arbedion** | **Cynnig ar gyfer arbediad** | **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | **Arbedion i'w Gweithredu £** | **Camau i'w Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau i'w gweithredu'n llwyddiannus** |
| Gwasanaethau Oedolion | Trawsnewid Gwasanaethau | Arbediad blwyddyn lawn yn dilyn cau Plas Penlan | Dim Angen | 70 | Gwneud i ffwrdd â'r gyllideb | Eisoes wedi'i weithredu | Dim |
| Gwasanaethau Oedolion | Trawsnewid Gwasanaethau | Allanoli mwy o becynnau gofal cartref i ddarparwyr preifat | Dim Angen | 11 | Trosglwyddo pecynnau drwy reoli'r ddarpariaeth fewnol drwy golledion naturiol | Ebrill 2019 | Dim digon o staff yn gadael yr Awdurdod |
| **Total for Gwasanaethau Oedolion** | | | | **586** | | | |
| Dysgu a Diwylliant | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau'r gronfa ar gyfer prynu llyfrau | Dim Angen | 20 | Lleihau'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Dim |
| Dysgu a Diwylliant | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Gwneud i ffwrdd â'r gyllideb sydd ddim yn cael ei defnyddio – Talnet | Dim Angen | 20 | Lleihau'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Dim |
| Dysgu a Diwylliant | Cyllidebau Ysgolion | Rhoi setliad ariannol i ysgolion sy'n is na'r gost lawn o'r holl bwysau y bydd ysgolion yn eu hwynebu yn 2019/20 | EA 6 | 1,739 | Cytuno ar y gyllideb a ddatganolir ar gyfer 2019/20, ei dyrannu i'r ysgolion drwy'r fformiwla y cytunwyd arni | Ebrill 2019 | Bydd nifer o ysgolion yn cael anhawster i ddarparu'r gwasanaeth statudol o fewn y gyllideb ddiwygiedig |
| Dysgu a Diwylliant | Cynhyrchu Incwm | Cynnydd o 20c yng nghost prydau ysgol | EA 7 | 43 | Cyhoeddi'r pris diwygiedig | Medi 2019 | Gostyngiad yn y galw am brydau ysgol a chyfanswm yr incwm ddim yn cyrraedd y targed uwch. |

| **Arbedion Arfaethedig ar gyfer Cyllideb Refeniw 2019/20** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Categori Arbedion** | **Cynnig ar gyfer arbediad** | **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | **Arbedion i'w Gweithredu £** | **Camau i'w Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau i'w gweithredu'n llwyddiannus** |
| Dysgu a Diwylliant | Rhoi'r Gorau i / Trosglwyddo Gwasanaethau | Dim ond prynu'r isafswm statudol o ddarpariaeth feithrin gan sefydliadau meithrin | EA 8 | 89 | Rhoi gwybod i sefydliadau a darparwyr addysg feithrin am y newid | Medi 2019 | Darparwyr ddim yn ariannol hyfwy mwyach ac yn cau, gan arwain at golli darpariaeth mewn rhai ardaloedd penodol |
| Dysgu a Diwylliant | Trawsnewid Gwasanaeth | Adolygu darpariaeth o wasanaethau integreiddio er mwyn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithiol | Dim Angen | 106 | Cytuno ar y newid gyda'r ysgolion a'r staff | Medi 2019 | Dim modd sicrhau'r cytundeb angenrheidiol gyda'r ysgolion ac/neu'r staff presennol.<br><br>Rhieni'n gwrthwynebu'r newid. |
| Dysgu a Diwylliant | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Dileu'r cyllidebau marchnata ar gyfer Melin Llynnon, Carchar Biwmares ac Ynys Lawd – dim eu hangen mwyach | Dim Angen | 15 | Lleihau'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Nid yw'r ddau atyniad sy'n weddill wedi cael eu trosglwyddo ac maent yn parhau i fod ar agor dan reolaeth y Cyngor. |
| Dysgu a Diwylliant | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Cau 1 clwb a lleihau nifer yr wythnosau y mae clybiau eraill ar agor a pheidio â thalu mwyach i blant weithio yn y Bar Coffi yng Nghlwb Jesse Hughes | Dim Angen | 10 | 1 Clwb eisoes wedi cau. Gweithredu'r newid yng Nghlwb Jesse Hughes drwy hybysu'r plant am y newid | Ebrill 2019 | Dim |

| **Arbedion Arfaethedig ar gyfer Cyllideb Refeniw 2019/20** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Categori Arbedion** | **Cynnig ar gyfer arbediad** | **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | **Arbedion i'w Gweithredu £** | **Camau i'w Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau i'w gweithredu'n llwyddiannus** |
| Dysgu a Diwylliant | Ailstrwythuro Staff | Ailstrwythuro Staff | Dim Angen | 36 | Ailstrwythuro a nodi swyddi i'w dileu o'r strwythur | Ebrill 2019 | Diffyg capasiti ymysg y staff sy'n weddill i wneud yr holl waith angenrheidiol, gan arwain at ddirywiad ym mherfformiad y gwasanaeth. |
| Dysgu a Diwylliant | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau'r gyllideb Grantiau ar gyfer y Celfyddydau er mwyn adlewyrchu'r swm gwirioneddol sydd ei angen | Dim Angen | 15 | Lleihau'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Dim – nid yw'r gyfran hon o'r gyllideb wedi cael ei dyrannu yn 2018/19. |
| Dysgu a Diwylliant | Cynhyrchu Incwm | Cynyddu'r gyllideb incwm ar gyfer Oriel Ynys Môn er mwyn adlewyrchu'r perfformiad cyfredol | Dim Angen | 30 | Cynyddu'r Gyllideb Incwm | Ebrill 2019 | Incwm yn syrthio o'i lefel gyfredol a methiant i gyflawni'r targed o ganlyniad. |
| **Cyfanswm ar gyfer Dysgu a Diwylliant** | | | | **2,123** | | | |
| Rheoleiddio ac Economaidd | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau cyllidebau Arforol | Dim Angen | 16 | Lleihau'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Dim |
| Rheoleiddio ac Economaidd | Ailstrwythuro staff | Lleihau capasiti yn y Swyddogaeth Adfywio | Dim Angen | 66 | Ailstrwythuro a nodi swyddi i'w dileu o'r strwythur | Ebrill 2019 | Diffyg capasiti ymysg y staff sy'n weddill i wneud yr holl waith angenrheidiol, gan arwain at ddirywiad ym mherfformiad y gwasanaeth |
| Rheoleiddio ac Economaidd | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau'r cyllidebau Twristiaeth a Chefn Gwlad | Dim Angen | 5 | Lleihau'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Dim |

| **Arbedion Arfaethedig ar gyfer Cyllideb Refeniw 2019/20** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Categori Arbedion** | **Cynnig ar gyfer arbediad** | **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | **Arbedion i'w Gweithredu £** | **Camau i'w Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau i'w gweithredu'n llwyddiannus** |
| Rheoleiddio ac Economaidd | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau'r gyllideb Cyfleusterau Awyr Agored yn dilyn trosglwyddo asedau o'r Swyddogaeth Hamdden | Dim Angen | 42 | Lleihau'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Dim |
| Rheoleiddio ac Economaidd | Ailstrwythuro Staff | Lleihau capasiti yn y Swyddogaeth Gwarchod y Cyhoedd | Dim Angen | 42 | Ailstrwythuro a nodi swyddi i'w dileu o'r strwythur | Ebrill 2019 | Diffyg capasiti ymysg y staff sy'n weddill i wneud yr holl waith angenrheidiol, gan arwain at ddirywiad ym mherfformiad y gwasanaeth. |
| **Cyfanswm ar gyfer Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | **171** | | | |
| Tai | Ailstrwythuro Staff | Ailstrwythuro Staff | Dim Angen | 54 | Dileu'r swydd nad oes ei hangen o'r sefydliad | Ebrill 2019 | Dim |
| **Cyfanswm ar gyfer y Gwasanaethau Tai** | | | | **54** | | | |
| Adnoddau | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau cyllidebau caffael canolog | Dim Angen | 5 | Lleihau'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Dim, mae'r newid yn y gyllideb yn adlewyrchu'r defnydd yn 2018/19. |
| Adnoddau | Ailstrwythuro Staff | Ailstrwythuro Staff | Dim Angen | 25 | Ailstrwythuro a nodi swyddi i'w dileu o'r strwythur | Ebrill 2019 | Diffyg capasiti ymysg y staff sy'n weddill i wneud yr holl waith angenrheidiol, gan arwain at ddirywiad ym mherfformiad y gwasanaeth. |
| **Cyfanswm ar gyfer Adnoddau** | | | | **30** | | | |

| Arbedion Arfaethedig ar gyfer Cyllideb Refeniw 2019/20 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Categori Arbedion** | **Cynnig ar gyfer arbediad** | **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | **Arbedion i'w Gweithredu £** | **Camau i'w Gweithredu** | **Amserlen** | **Risgiau i'w gweithredu'n llwyddiannus** |
| Trawsnewid | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau'r gyllideb hyfforddiant ar gyfer lleoliadau dros yr haf | Dim Angen | 20 | Lleihau'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Dim |
| Trawsnewid | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau cyllidebau ffôn yn dilyn cael gwared ar linellau ffôn nad ydynt yn cael eu defnyddio neu linellau ble mae'r defnydd yn isel | Dim Angen | 20 | Lleihau'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Dim digon o linellau ffôn defnydd isel yn cael eu nodi i sicrhau'r arbediad angenrheidiol |
| Trawsnewid | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Gwneud i ffwrdd â'r gyllideb cynadleddau fideo – nid yw'r system yn cael ei defnyddio mwyach | Dim Angen | 3 | Dileu'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Dim |
| **Cyfanswm ar gyfer Trawsnewid** | | | | **43** | | | |
| Corfforaethol | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau cyllidebau pensiwn hanesyddol er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad yn y costau | Dim Angen | 100 | Lleihau'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Dim |
| Corfforaethol | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol | Lleihau ffioedd archwilio allanol i adlewyrchu'r gwasanaeth a'r costau diwygiedig | Dim Angen | 10 | Lleihau'r ddarpariaeth yn y gyllideb | Ebrill 2019 | Dim |
| **Cyfanswm ar gyfer Corfforaethol** | | | | **110** | | | |
| | | | | | | | |
| **CYFANSWM Y CYNIGION ARBEDION** | | | | **3,747** | | | |

Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynnigion Cyllidol 2019/20**

| Hanes adolygu: | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 1 | 20.09.2018 | Drafft terfynol |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | |
|---|---|
| **1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?** | Cludiant Cyhoeddus<br><br>Mae'r Adran Briffyrdd wedi cynnal adolygiad o wasanaethau bysiau, gan nodi llwybrau â niferoedd teithwyr isel a chymhorthdal uchel.<br><br>**Cytundeb 50b** – Argymell peidio â gweithredu'r siwrna' dan wasanaeth 32 am 0713 o Amlwch i Langefni ac argymell peidio â gweithredu'r siwrneiau ynghlwm gyda'r gytundeb yma ar ddydd Sadwrn. Ar hyn o bryd nid yw'r siwrneiau sy'n rhan o'r cytundeb yma yn gweithredu ar brynhawn Sadwrn, arbed £10.7k.<br><br>**Cytundeb 63a** – Argymell peidio â gweithredu gwasanaeth 63 ar brynhawn Sadwrn o Amlwch i Lannerch-y-medd i Fangor (heibio Brynteg), arbed £6.2k.<br><br>**Cytundeb 43a** – Argymell terfynu pob siwrna' sy'n rhan o'r cytundeb yma, arbed £95k. Mae'r siwrneiau presennol yn gwasanaethu stadau tai ac ardaloedd preswyl ym Mhorthaethwy a Llanfairpwll a siwrna' sengl yn gweithredu yn uniongyrchol rhwng Caernarfon a Llangefni. |
| **2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?** | Huw Percy, Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Interim<br>Iwan Cadwaladr, Uwch Beiriannydd Trafnidiaeth |
| **3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?** | Cynnig newydd |

Tudalen 48

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| **4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?** | Teithwyr bws fyddai yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma. Yn enwedig y defnyddwyr sydd yn llai abl i gerdded at y safle bws agosaf. |
| **5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?** | Bydd y siwrneiau dan sylw ddim ar gael i deithwyr. |
| **6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl** | Na ddim yn ymwybodol o unrhyw gynnig arall. |
| **7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, plis rhestrwch nhw** | Ni fydd teithwyr arferol y siwrneiau dan sylw yn gallu eu defnyddio mwyach mi all hyn arwain at fwy o siwrneiau ceir neu unigolion yn methu teithio. Bydd angen i'r teithwyr arferol ar siwrneiau 43a gerdded yn bellach i safle bws gwahanol neu ddefnyddio dau wasanaeth sydd yn cysylltu. |
| **8 – Fydde 'na risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno a'r cynnig**<br><br>Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant. | Mae peryg y gall lleihau cyllideb y gwasanaeth cludiant cyhoeddus effeithio ar lefelau 'Bus Services Support Grant' yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r grantiau hyn yn cael eu hadolygu. |

| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | |
|---|---|
| **8 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig** | Cyn newid neu ddarfod unrhyw brif siwrneiau bws bydd ymarfer ymgynghori ychwanegol yn angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori gyda grwpiau defnyddwyr penodol, cynghorwyr, cynghorau tref a chymuned ac aelodau o'r cyhoedd dros 3 mis. Mae gofyn rhoi rhybudd o 84 diwrnod i'r gweithredwyr bws. |



| **Cam 2: Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| **1 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Wrth dorri y siwrneiau dan sylw mi fyddai'n golygu bod y teithwyr arferol yn cael eu heffeithio. Mewn rhai achosion, mae siwrneiau gwahanol ar gael (siwrneiau yn ymwneud â chytundeb 43a yn benodol).<br><br>Byddai angen i deithwyr Porthaethwy gerdded at y B5420 a defnyddio gwasanaeth bws 62.Byddai angen i deithwyr Llanfairpwll gerdded at yr A5 a defnyddio gwasanaeth 4/X4/42.<br><br>Byddai angen i deithwyr o Langefni i Gaernarfon wneud cysylltiad ym Mangor neu Ysbyty Gwynedd. |
| **2 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | Bydd siwrneiau bws gwahanol ar gael i deithwyr bws sydd yn cael eu heffeithio, ond bydd angen cerdded ymhellach at y gwasanaethau hynny. Mae safleoedd bws a cysgodfannau ar y llwybrau arfaethedig a gwasanaeth amlach. |
| | |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **3 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Na |

## Cam 3 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | 3 mis o ymgynghori gyda defnyddwyr | IC | Cychwyn Tachwedd |
| | 84 diwrnod o rybudd i weithredwyr bws | IC | Cychwyn Rhagfyr |
| | | | |

Tudalen 51

Tudalen 52

# Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynnigion Cyllidol 2018/19**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 1 | 20.09.2018 | Drafft terfynol |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | |
|---|---|
| **1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?** | Darfod Gwasanaeth Croeswyr Plant Ysgol |
| **2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?** | Huw Percy, Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo Interim<br>Jennifer Clark, Uwch Beiriannydd Trafnidiaeth Strategol a Diogelwch y Ffyrdd |
| **3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?** | Newydd – y polisi blaenorol oedd i beidio ail osod swydd ar ol i Croeswr benderfynu adael y Gwasanaeth. |
| **4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?** | Croeswyr Plant Ysgol - Kingsland, Caergybi<br>Cybi, Caergybi (x 2)<br>Llanfawr, Caergybi (1x parhaol, 1 x achlysurol)<br>St. Mary's, Caergybi<br>Y Graig, Llangefni<br>Amlwch<br>Llanfechell<br>Caergeiliog<br>Llannerch y Medd<br><br>Plant Ysgol Cynradd sydd yn cerdded i'r ysgolion uchod.<br><br>Rhieni sydd yn gyfrifol am blant oed Cynradd yn yr ysgolion uchod. |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| **5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?** | Bydd y staff sydd yn cael eu heffeithio yn colli swydd.<br><br>Plant/rhieni –cyfrifoldeb y rhieni ydyw yn bresennol i sichrau bod y plant yn cyrraedd yr ysgol yn ddiogel – bydd hyn ddim yn newid. |
| **6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl** | Na |
| **7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, plis rhestrwch nhw** | Cyllidebol – costau diswyddiadau |
| **8 – Fydde 'na risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno a'r cynnig**<br><br>Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant. | Gallai tynnu'r Croeswyr Plant Ysgol olygu bod y risg o wrthdrawiadau i blant yn cynyddu.<br><br>Posibilrwydd o fwy o dagfeydd tu allan i ysgolion.<br><br>Cyhoeddusrwydd negyddol i'r Cyngor. |
| **9 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig** | Bydd angen cynnal ymgynghoriad gyda'r Croeswyr Plant Ysgol a'r ysgolion sydd yn cael eu heffeitho. |

<table>
<tr><th colspan="2">Cam 2: Canlyniad yr asesiad</th></tr>
<tr><td>10 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru’r effeithiau negyddol (sef crynodeb o’r tabl uchod).</td><td>Gallai tynnu’r Croeswyr Plant Ysgol olygu bod y risg o wrthdrawiadau i blant yn cynyddu, gallai’r risg yma gael ei leihau drwy ddilyn y mesuriadau canlynol:<br><br>Gwella’r  cyfleusterau croesfanau ffisegol  – bydd angen cynnal asesiad ym mhob ysgol i adnabod unrhyw ddarpariaeth sydd angen ei wneud ymhle does dim darpariaeth, ac i wiro addasrwydd y ddarpariaeth ymhle bod cyfleusterau eisoes wedi eu gosod.<br><br><table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Darpariaeth Cyfredol</th></tr>
<tr><td>Kingsland, Caergybi</td><td>Dim Croesfan</td></tr>
<tr><td>Cybi, Caergybi</td><td>Mae yna croesfannau sebra y ddwy ochr o’r ysgol ond dim ar leoliadau’r croeswyr</td></tr>
<tr><td>Llanfawr, Caergybi</td><td>Dim Croesfan</td></tr>
<tr><td>St. Mary’s, Caergybi</td><td>Dim Croesfan</td></tr>
<tr><td>Y Graig, Llangefni</td><td>Croesfan Pelican wrth leoliad y croeswr ac hefyd Croesfan Toucan wrth yr ysgol</td></tr>
<tr><td>Amlwch</td><td>Croesfan Sebra</td></tr>
<tr><td>Llanfechell</td><td>Dim Croesfan</td></tr>
<tr><td>Caergeiliog</td><td>Ynys Traffic</td></tr>
<tr><td>Llannerch y Medd</td><td>Dim Croesfan</td></tr>
</table><br>Gwersi Diogelwch y Ffyrdd gan aelodau staff yr Uned Diogelwch y Ffyrdd– dim costau ychwanegol i’r Awdurdod.<br><br>Adran Addysg / Ysgolion - Diweddaru eu Cynlluniau Teithio i’r Ysgol</td></tr>
</table>

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **11 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | Nid yw'r Gwasanaeth Croeswyr Plant Ysgol (CPY) yn un stadudol. Mae'r Cyngor yn bresennol yn dilyn canllawiau y gwasanaeth CPY ar gyfer asesu safle sydd yn defnyddio y formiwla "PV2" (P= Number of Pedestrians, V=Number of Vehicles)<br><br>Mae'r fformiwla "PV2" yn mesur y potensial am wrthdaro a'r amser oedi gan gerddwyr. Mae hefyd yn ystyried yr angen i helpu nifer fach o gerddwyr ar draws y lon yn ddiogel pan mae llif y traffic yn drwm a'r oedi yn hir. Yn ogystal mae'n ystyried yr angen i helpu nifer uchel o gerddwyr pan mae'r traffic yn ysgafn a'r cyfnod oedi yn fyrrach.<br><br>Cafodd pob safle a'r Ynys Môn ei asesu yn 2007 gan ddefnyddio'r fformiwla "PV2", nid oedd cyfiawnhad ar gyfer yr un safle. Fel canlyniad mabwysiadodd yr Awdurdod y polisi o beidio ag ail lenwi swyddi Croeswyr Plant Ysgol oedd yn penderfynu gadael y gwasanaeth. Mae'r ffigyrau "PV2" wedi eu hadolygu ac yr ydym yn rhagweld y byddant yn aros yn sylweddol is na'r trothwy. Cafwyd y 3 llwybr i'r safle Ysgol Cybi newydd eu asesu ym Mis Medi 2017 ac roedd y 3 llwybr o dan y trothwy.<br><br>Mae yna Croesfanau Pal neu Sebra tu allan pedair ysgol (y rhai sydd wedi eu lleoli ar y lonydd prysura) a bydd gwersi diogelwch y ffyrdd yn cael eu cynnig. |
| **12 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Na |

**Cam 3 – Cynllun Gweithredu**

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | Adolygu unrhyw safle ymylol | JC | Tachwedd 2018 |
| | Ymgynghori gyda Staff | JC | Rhagfyr 2018 |
| | | | |

Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynnigion Cyllidol 2018/19**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 1 | 20.09.2018 | Drafft terfynol |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | |
|---|---|
| **1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?** | Rhoi'r gorau i'r gwasanaeth casglu clytiau annibynnol i blant a chynnig casglu clytiau plant fel rhan o wasanaeth y bin du (byddai hyn yn golygu casglu clytiau plant yn y bin du safonol bob 3 wythnos) |
| **2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?** | Huw Percy, Pennaeth Gwasanaeth Interim Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Meirion P Edwards, Prif Swyddog Rheoli Gwastraff |
| **3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?** | Newydd |
| **4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?** | Teuluoedd gyda phlant ifanc mewn clytiau<br><br>Teuluoedd lle mae gan blant ofynion gofal iechyd arbennig |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
| --- | --- |
| **5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?** | Bydd cael gwared ar y gwasanaeth hwn yn golygu bod clytiau budr yn cael eu casglu bob tair wythnos yn y bin du safonol yn hytrach na phob pythefnos fel y gwasanaeth presennol.<br><br>Mae'n debygol y bydd y teuluoedd hyn yn wynebu problemau sylweddol wrth storio clytiau oherwydd y cyfaint uchel. Gallai hyn arwain at arllwysiad o glytiau gyda photensial o faterion yn ymwneud ag iechyd ac effaith negyddol ar lanhau strydoedd Ynys Môn e.e. tipio clytiau anghyfreithlon, taflu sbwriel ac effeithiau amgylcheddol eraill fel arogleuon. |
| **6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl** | Na |
| **7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, plis rhestrwch nhw** | Cyhoeddusrwydd negyddol i'r Cyngor gan y bod awdurdodau lleol cyfagos yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd yn casglu clytiau plant yn wythnosol.  Cynnydd posibl mewn tipio anghyfreithlon, goblygiadau o ran iechyd a lleihad yn safonau glendid strydoedd.<br><br>Goblygiadau posibl i'r contractiwr o ddileu swyddi yn sgil cael gwared ar y gwasanaeth hwn.<br><br>Mwy o gwynion gan rieni a dramgwyddwyd. |
| **8 – Fydde 'na risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno a'r cynnig**<br><br>Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, | **Goblygiad iechyd** – Mae'r Cyngor eisoes yn casglu clytiau plant yn llai aml na'r awdurdodau lleol cyfagos (bob pythefnos o gymharu â phob wythnos). Mae'n debygol y byddai newid amlder y casglu i bob tair wythnos yn cael effaith negyddol ar iechyd oherwydd natur cynnwys clytiau. |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant. | **Anghenion iechyd arbennig** - Mae angen y gwasanaeth hwn ar rai plant hŷn sydd ag anghenion iechyd arbennig, ac oherwydd eu hoedran, mae nifer y clytiau sy'n cael eu cynhyrchu yn uwch na babanod ifanc. Bydd yr aelwydydd hyn yn cael trafferth pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu.<br><br>**Tipio anghyfreithlon a glendid stryd** – gallai'r newid arfaethedig leihau glendid cyffredinol yr Ynys a allai gael effaith negyddol ar y gymuned leol, twristiaeth, cyfleoedd busnes ac ati. |
| **8 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig** | Byddai angen ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid. |



| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **1 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Gallai'r cyngor ymchwilio i'r posibilrwydd o hyrwyddo gwasanaeth clytiau 'real'.  Byddai hyn yn cynnwys annog deiliaid tai gyda phlant ifanc i ddefnyddio clytiau 'real' yn hytrach na chlytiau gwaredu. Nid yw swyddogion yn ymwybodol o unrhyw fenter o'r fath yn y gymdogaeth ar hyn o bryd. |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **2 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | Mae casglu gwastraff o gartrefi yn wasanaeth statudol. Fodd bynnag, gall y Cyngor benderfynu pa mor aml y mae'n casglu'r gwastraff hwn. Mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad polisi i gasglu clytiau plant bob pythefnos. Gwnaed y penderfyniad hwn pan gyflwynwyd y casgliad tair wythnos newydd o "wastraff bagiau du" ym mis Hydref 2016. Gwnaed ymrwymiad bryd hynny i sicrhau na fyddai'r holl deuluoedd â phlant mewn clytiau yn waeth eu byd o ran pa mor aml y byddent yn cael eu casglu o ganlyniad i'r newid gwasanaeth newydd. |
| **3 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Oes.<br><br>Bydd yn rhaid i'r penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid casglu clytiau plant bob tair wythnos ystyried a yw'n rhesymol disgwyl i deuluoedd ifanc reoli eu holl "wastraff bagiau du" a gwastraff clytiau plant yn eu bin olwynion. |



## Cam 3 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynnigion Cyllidol 2018/19**
**Rheoli Gofyn Ar Draws Gwasanaethau**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 1 | 24-09-18 | |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | |
|---|---|
| **1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?** | Rheoli Gofyn mewn sawl maes. Y meysydd penodol yw 1) Nifer lleoliadau o fewn cartrefi 2) Nifer yr oriau o ofal cartref a ddarparwyd 3) Cefnogaeth mewn prosiectau byw gyda chefnogaeth |
| **2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?** | Pennaeth Oedolion- Alwyn Jones- gyda chefnogaeth drwy aelodau or tim yn benodol Iola Richard a Barbara William, uwch reolwyr o fewn yr adran. |
| **3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?** | Yn Gynnig blynyddol |
| **4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?** | Unigolion o fewn gwasanaeth a rhai fydd yn dymuno derbyn gwasanaethau ir dyfodol |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| **5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?** | Bydd newid ar y cynnig y mae unigolion yn ei dderbyn or gwasanaeth gyda llai o bwysau ar ddatrys gofynnion unigolion a mwy o ffocws ar eu hadnoddai personol a cheisio osgoir gwasanaethau sydd yn cynyddu dibynniaeth. |
| **6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl** | Oherwydd natur yr arbediad yma, nid oes linc I unrhyw arbediad arall. |
| **7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, plis rhestrwch nhw** | Mae risg y bydd gofyn yn parhau I godi oherwydd pwysau demograffi serch newid mewn ymarfer o fewn y gwasanaeth. |
| **8 – Fydde 'na risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno a'r cynnig**<br><br>Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant. | Na,  bydd llai o ddibynniaeth ar wasanaeth a chynydd mewn annibynniaeth yn gallu bod yn beth bositif . |

| Cam 1: Y Cynnig a’r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| **8 – Ydych chi’n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i’r broses cyffredinol) cyn gweithredu’r cynnig arfaethedig** | Na |



| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **1 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru’r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o’r tabl uchod). | Effaith= Lleihad mewn cynnig gwasanaeth<br>Lliniaru= Cynnig cefnogaeth ar sail asedau unigolion a chwrdd au canlyniadau personol. |
| **2 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | Dim yn berthnasol |
| **3 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon.  Os rydych chi wedi adnabod | Na |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | |

## Cam 3 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynigion Cyllidol 2018/19**

| **Hanes adolygu:**<br>**Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | |
|---|---|
| **1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?** | 1. Prynu'r isafswm statudol o ddarpariaeth meithrin<br>**2. Darparu setliad I'r ysgolion sy'n is na chost llawn yr holl bwysau sydd arnynt yn ystod 19/20**<br>3. Cynyddu costau prydau ysgol 20c<br>4. Symud i fodel o gymorthyddion mewn dalgylchoedd Uwchradd |
| **2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?** | Arwyn Williams |
| **3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?** | Ystyriaeth blynyddol yn y blynyddoedd diwethaf |
| **4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?** | Effaith ar staff ysgolion a chapasiti i gynnal / godi safonau<br>Effaith anuniongyrchol ar ddisgyblion, a'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth a roddir iddynt |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| | |
| **5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?** | Yn anorfod o gadw at y toriad a ymgynghorir arno, bydd torri swyddi – boed yn athrawon, cymorthyddion, staff gweinyddol.<br><br>Bydd torri swyddi yn rhoi straen a phwysau ychwanegol ar y staff fydd yn parhau yn ein ysgolion, ac yn cael effeithio ar y gynhaliaeth, darpariaeth ac adnoddau ar gyfer disgyblion. |
| **6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl?** | Gweler cynnig rhif 4 uchod. |
| **7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, rhestrwch nhw os gwelwch yn dda** | Oes:-<br><br>• Dirywiad yn ansawdd y safonau a'r darpariaeth<br>• Effaith negyddol ar les a morâl staff<br>• Staff yn gadael eu gwaith – pwysau amlwg ar benaethiaid o orfod gweithredu'r toriadau.<br>• Nifer gynyddol o'n ysgolion yn mynd i ddyled<br>• Llai o amser arwain ar benaethiaid yn ein ysgolion cynradd, ac yn arbennig y rhai lleiaf<br>• Effaith sylweddol ar gyllidebau ysgolion Uwchradd ac ysgolion cynradd mawr |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| **8 – A fyddai unrhyw risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno â'r cynnig?**<br><br>Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r risg o hawliadau yswiriant. | • Staff yn gadael eu swyddi / y proffesiwn<br>• Anoddach denu penaethiaid<br>• Canlyniadau mewn arolygon Estyn wedi bod yn bositif yn ddiweddar, dros gyfnod mae'n debygol o gael effaith ar hyn o weithredu'r toriad yn llawn. |
| **8 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig?** | • Fforwm Cyllid Ysgolion, Chwefror 6ed |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **1 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Bydd y toriad llawn yn cael effaith ar safonau, darpariaeth a chynhaliaeth i ddisgyblion yn ein ysgolion. Bydd effaith ar les a morâl staff. |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| | Anodd lliniaru; yn sylfaenol bydd rhaid i ysgolion ddarganfod ffyrdd gwahanol o ddarparu'r gwasanaeth ar lai o gyllid. Gyda rhai ysgolion gellir dadlau fod modd gwneud hyn, gydag ysgolion eraill mae'n anodd iawn gweld sut heb unai fynd i ddyled, peryglu safonau.<br><br>Mae nifer dda o Benaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethu wedi cysylltu a'r Pennaeth Dysgu yn nodi nad ydynt yn gweld sut mae modd gweithredu'r toriad.<br><br>Mae swyddogion yr adrannau addysg a chyllid wedi bod yn gweithio gyda phenaethiaid a chyrff llywodraethu i geisio dod o hyd i ffyrdd i allu torri'r 5%. |
| **2 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | Y flaenoriaeth fydd sicrhau diogelu a diogelwch y disgyblion a chynnal safonau. Bydd codi safonau yn hynod o heriol o ystyried effaith y toriadau ar yr ysgolion hynny nad oes unman amlwg o ran meysydd i dorri cyllid. |
| **3 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Bydd y toriad yn golygu fod yr rhan fwyaf o'r ysgolion yn mynd i ddyled heb iddynt dorri swyddi. Bydd y rhan fwyaf o'r ysgolion a fydd yn parhau mewn dyled yn gallu rhoi cynllun adfer yn ei le dros flynyddoedd, ond bydd rhai ysgolion yn cael trafferth i roi cynllun o'r math yma yn ei le. Mae rhai ysgolion yn wynebu sefyllfa o fynd i ddyled (rhai yn ddyledion sylweddol) neu fethu staffio dosbarthiadau.<br><br>Y pris mwyaf i'w dalu ydy'r effaith y mae'n bosibl i hyn gael ar addysg plant Môn. O ganlyniad, er fod y toriad yn bosibl, gan y byddai ei effaith mor andwyol, credaf y dylid ail ystyried. |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| | |

| Cam 3 – Cynllun Gweithredu |
|---|

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynigion Cyllidol 2018/19**

| **Hanes adolygu:** Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | |
|---|---|
| **1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?** | 1. Cyfrannu tuag at gynnal y cyfnod statudol o ddarpariaeth meithrin<br>2. Darparu setliad I'r ysgolion sy'n is na chost llawn yr holl bwysau sydd arnynt yn ystod 19/20<br>**3. Cynyddu costau prydau ysgol 20c**<br>4. Symud i fodel o gymorthyddion mewn dalgylchoedd Uwchradd |
| **2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?** | Arwyn Williams |
| **3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?** | Cynyddodd y pris llynedd |
| **4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?** | Rhieni / disgyblion ysgol |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| | |
| **5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?** | • Cynnydd yn y pris<br>• Posib y caiff effaith ar ddewis o ginio, e.e. rhai yn penderfynu yn erbyn pryd ysgol sydd yn cwrdd a safon penodol o ran bwyd maethlon ayyb. |
| **6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl** | • Petai'r cyngor yn penderfynu codi treth y cyngor – byddai costau hyn hefyd yn ychwanegu at gynnydd mewn costau i rieni. |
| **7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, rhestrwch nhw os gwelwch yn dda** | • Posibl y bydd llai o incwm yn cael ei ddenu drwy ginio ysgol,<br>• Effaith ar gostau i rieni |
| **8 – A fyddai unrhyw risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno â'r cynnig?**<br><br>Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu'r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu'r | • Disgyblion yn troi at ginio llai maethlon. |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| risg o hawliadau yswiriant. | |
| **8 – Ydych chi'n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i'r broses cyffredinol) cyn gweithredu'r cynnig arfaethedig** | Na |



| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **1 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | - |
| **2 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | - |
| **3 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i** | Mae cyswllt o ran cynnydd mewn costau i rieni gyda penderfyniadau eraill, |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **gynnal yr asesiad effaith yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | ee treth y cyngor. Felly yr angen i ail ystyried yn ddibynnol ar benderfyniadau eraill. |

## Cam 3 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Cyngor Sir Ynys Môn - **Templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gynigion Cyllidol 2018/19**

| **Hanes adolygu:** Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol** | |
|---|---|
| **1 - Beth yw'r cynnig cyllidol sy'n cael ei asesu?** | 1. **Cyfrannu tuag at gynnal y cyfnod statudol o ddarpariaeth meithrin**<br>2. Darparu setliad I'r ysgolion sy'n is na chost llawn yr holl bwysau sydd arnynt yn ystod 19/20<br>3. Cynyddu costau prydau ysgol 20c<br>4. Symud i fodel o gymorthyddion mewn dalgylchoedd Uwchradd |
| **2 - Pwy yw'r Swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig yma?** | Arwyn Williams |
| **3 - Ydy'r cynnig yma'n un newydd neu un sydd wedi ei gysidro eisoes?** | Cafodd hyn ystyriaeth rai blynyddoedd yn ol. |
| **4 – Pa grwp o randdeiliaid fydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yma?** | Cylchoedd meithrin – staff, gwirfoddolwyr a phwyllgorau<br>Rhieni disgyblion sy'n mynychu cylch meithrin yn nhymor penblwydd eu plentyn yn 3 oed. |

| Cam 1: Y Cynnig a'r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| | |
| **5 – Sut bydd y grwp hwn yn cael eu heffeithio?** | O dderbyn y cynnig, ni fydd y cyngor yn cyfrannu tuag at addysg feithrin rhwng Medi'r 1af a Rhagfyr 31ain. Y statud ydy darparu 10awr o addysg yn y tymor yn dilyn penblwydd y disgybl yn 3 oed<br><br>Bydd darpariaeth i'r disgyblion fydd yn dair oed cyn Awst 31ain yn eu hysgol gynradd (gydag eithriad Talwrn, Corn Hir, Henblas a Llandegfan). Bydd disgyblion a fydd yn 3oed rhwng Medi'r 1af a Rhagfyr 31ain yn derbyn addysg feithrin yn y tymor cyntaf wedi hyn, sef o Ionawr 1af ymlaen.<br><br>Bydd cyfle i gylchoedd meithrin ddenu incwm drwy ddarparu gofal o amgylch y 10awr, ac i ddisgyblion sydd ddim yn eu tymor cyntaf wedi eu penblwydd yn 3oed. |
| **6 – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynnig arall all effeithio ar y grwp hyn o bobl** | - |
| **7 – Oes yna risgiau yn perthyn i'r cynnig yma? Os oes, rhestrwch nhw os gwelwch yn dda** | • Angen i gylchoedd fanteisio ar ddarparu cyfleoedd gofal 30awr er mwyn creu ffynhonnell arall o incwm yn ystod y tymor cyntaf. |

| Cam 1: Y Cynnig a’r Risgiau Perthnasol | |
|---|---|
| **8 – A fyddai unrhyw risgiau cysylltiedig yn dilyn penderfyniad i gytuno â’r cynnig?**<br><br>Er enghraifft, lleihau gwariant priffyrdd, yn cynyddu’r tebygolrwydd am fwy o potholes fydd o ganlyniad yn cynyddu’r risg o hawliadau yswiriant. | Mae’n bosib y bydd sgil effaith ar y ddarpariaeth feithrin allai yn ei dro gael effaith ar pa mor barod ydy disgyblion i dechrau mewn dosbarth meithrin yn yr ysgol. |
| **8 – Ydych chi’n tybio bod angen proses ymgynghori ychwanegol (h.y. yn ychwanegol i’r broses cyffredinol) cyn gweithredu’r cynnig arfaethedig** | Trafodaeth i’w barhau gyda chylchoedd meithrin a’r mudiad meithrin. |



| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **1 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru’r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o’r tabl uchod). | Er mwyn lliniaru fe anogir cylchoedd i ddenu ffynhonnell arall o incwm yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn academaidd.<br><br>Mae swyddog o’r adran addysg eisoes wedi cychwyn trafodaeth gyda |

| Cam 2: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| | swyddog mudiad meithrin am hyn. |
| **2 – Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?** | |
| **3 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad effaith yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon.  Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario ‘mlaen gyda’r cynnig ar yr adeg yma). | Nag oes |

## Cam 3 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi’u cynllunio yn dilyn cwblhau’r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Ymateb i Gynigion Cyllidebol Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith– 2019/20**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Ionawr 2019**

**Dadansoddwr – Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad a Busnes**

**Awdur – Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Pherfformiad**

**Pennaeth Gwasanaeth – Carys Edwards, Pennaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid Corfforaethol**

## 1. *Cyflwyniad*

1.1. Yn ddiweddar, ymgynghorodd y Cyngor ar gynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith rhwng 16 Tachwedd a 31 Rhagfyr, 2018. Roedd y cyfnod ymgynghori o 7 wythnos yn canolbwyntio ar oddeutu 15 cynnig.

1.2. Deilliodd y cynigion hyn o'r broses gyllideb flynyddol ac ymgynghorwyd arnynt er mwyn casglu barn y cyhoedd a sicrhau y gall y Pwyllgor Gwaith (wrth i'r broses ddirwyn i ben) wneud argymhellion yn seiliedig ar wybodaeth gyflawn. Cawsant eu cyflwyno gan y gwasanaethau yn ystod yr hydref a bu i Aelodau Etholedig o bob grŵp gwleidyddol yn y Cyngor eu herio a chytuno arnynt i bwrpas ymgynghori.

1.3. Rhannwyd y cynigion i'r themâu canlynol fel yr amlinellir isod, sef:

- Dysgu
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lleihau Cyllidebau
- Bysiau, Parcio ac Adfywio
- Y Dreth Gyngor
- Premiymau Treth
- Syniadau

1.4. Ystyriwyd amrywiaeth helaeth o arbedion lle'r oedd yr her a chytundeb fewnol wedi arwain at gynigion oedd yn amrywio o faterion megis cynyddu lefel Treth Gyngor Band 'D' £2.19 yr wythnos, rhoi'r gorau i gasglu clytiau a darparu isafswm statudol o ddarpariaeth feithrin yn unig ar draws yr ynys.

1.5. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynigion hyn mewn nifer o ffyrdd;

1.5.1. Sesiwn friffio i'r wasg leol

1.5.2. Datganiadau ac erthyglau yn y wasg

1.5.3. Cyhoeddwyd y cynigion ar wefan y Cyngor (tudalen gartref)

1.5.4. Defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol – Twitter, Facebook - i hyrwyddo'r cynigion i amrywiaeth ehangach o drigolion

1.5.5. E-byst perthnasol yn tynnu sylw at drafodaethau ar y cynigion ac yn gwahodd trigolion i gymryd rhan

1.5.6. Cyfweliad gan yr Arweinydd ar MônFM yn hyrwyddo'r ymgynghoriad a'i gynnwys

Bwriad pob un o'r sianeli uchod oedd hysbysebu ac ennyn brwdfrydedd dinasyddion a staff i ymgysylltu ac ymateb i'r cynigion cychwynnol.

1.6. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad drwy wahanol ddulliau gan gynnwys:

- Arolwg ar-lein ar ein gwefan
- E-bost neu
- Ysgrifennu atom drwy anfon llythyr traddodiadol drwy'r post

1.7. Yn ogystal â'r uchod, cynhaliodd y Cyngor waith ymgysylltu pellach drwy gynnal:

- Sesiwn grŵp ffocws ar gyfer pobl ifanc o ysgolion uwchradd yr Ynys yn Siambr y Cyngor
- Sesiynau gyda cynghorau ysgolion uwchradd yn ogystal a sesiwn gyda'r Clwb Ffermwyr Ifanc yr Ynys a'r Urdd
- Sesiwn a gynhaliwyd yn y Cyngor ar gyfer nifer o'n partneriaid fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Iechyd, Cynghorau Tref a Chymuned, sefydliadau 3ydd Sector ac asiantaethau eraill.
- Sesiwn gyda Phenaethiaid ac Uwch Reolwyr ysgolion yr Ynys
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2018

Roedd yr ymgynghoriad eleni yn dilyn patrwm tebyg i ddigwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond rhoddwyd mwy o bwyslais eleni ar hyrwyddo ymateb electronig drwy wneud defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol.

Yn ogystal â hyn, eleni gofynnwyd am farn ein trigolion ynglŷn â lle y gallwn wneud arbedion pellach neu gynyddu ein hincwm yn y dyfodol er mwyn cau'r bwlch cyllidebol a ragwelir o ganlyniad i'n Cynllun Ariannol Tymor Canol. Bwriad hyn oedd ennyn trafodaeth gyda'n trigolion a'n cymunedau ar y materion dan ystyriaeth.

Rydym wedi derbyn ystod eang o syniadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad eleni ac mae'r mwyafrif wedi eu cynnwys yn ***Atodiad A*** yr adroddiad hwn

**Argymhellir bod y Panel Sgriwtini Cyllid yn trafod y syniadau hyn ymhellach fel rhan atodol o'r broses bresennol i weld a oes lle i'w derbyn fel syniadau gwirioneddol y gellir eu datblygu ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.**

## 2. ***Canfyddiadau***

2.1. Roedd yr ymateb i'r cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer 19/20 dros gyfnod o 7 wythnos yn gytbwys gyda nifer o sylwadau cadarnhaol a negyddol ynglŷn â'r cynigion amrywiol. Eleni mae cyfradd yr ymatebion wedi cynyddu'n sylweddol a derbyniwyd oddeutu 5,400 o ymatebion yn erbyn 17 o gynigion, sef cyfartaledd o thua 317 ymateb ar gyfer pob cynnig. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ymateb a gafwyd yn y gorffennol ac mae hynny i'w groesawu. Cyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio'r sianelau amrywiol a amlinellwyd uchod, gydag ymatebwyr yn defnyddio'r holl ddulliau ymgysylltu oedd ar gael.

2.2. Y dull mwyaf llwyddiannus ar gyfer casglu ymatebion eleni oedd yr arolwg ar-lein – ymatebodd dros 95% drwy'r sianel hon ac mae hyn yn gynnydd pellach o gymharu â blynyddoedd blaenorol ac efallai ei fod yn dangos unwaith eto fod trigolion yn fwy parod i gymryd rhan drwy ddefnyddio'r dull hwn.

2.3. Derbyniwyd ymatebion gan gyrff megis cynghorau tref, cyrff llywodraethu ysgolion, pobl hŷn a phobl anabl, pobl ifanc, athrawon, a thrigolion eraill nad oedd modd eu cynnwys mewn unrhyw grŵp penodol.

2.4. Fel yn y gorffennol, rydym wedi llwyddo i fesur lefel 'cyrraedd' ac ymgysylltiad y Cyngor drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Drwy hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy'r cyfryngau hyn bu inni gyrraedd oddeutu 62,000+ o bobl.

2.5. Rhoesom negeseuon am yr ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol nifer o weithiau yn ystod y cyfnod (7 wythnos).

2.6. Nid yw'r ffaith ein bod wedi llwyddo i gyrraedd cymaint o bobl yn cadarnhau eu bod wedi ymweld â thudalen yr ymgynghoriad ar y wefan, ond yn ddi-os mae'r ffigyrau'n dangos fod y niferoedd hyn yn ymwybodol o'r ymgynghoriad oedd yn cael ei gynnal.

2.7. Yn wir, o'r wybodaeth ddadansoddol sydd gennym, gwelir fod cyrraedd yr ymgyrch farchnata ar y cyfryngau cymdeithasol eleni wedi caniatáu i ni ymgysylltu'n gadarn ag oddeutu 1,300 o unigolion a fu'n ymweld â'r ymgynghoriad ar ein gwefan.

2.8. Mae'r ffigwr hwn yn cael ei ategu gan y niferoedd a ymwelodd â'n safle we gorfforaethol yn ystod y cyfnod 7 wythnos hwn, a tharddiad daearyddol yr unigolion hynny a ymwelodd â'r arolwg o wledydd megis -

2.8.1. Unol Daleithiau America
2.8.2. Iwerddon
2.8.3. Awstria
2.8.4. India
2.8.5. Yr Iseldiroedd
2.8.6. Canada
2.8.7. Yr Almaen

2.9. Serch hynny, roedd mwyafrif yr ymweliadau â'n gwefan gan unigolion o'r Deyrnas Unedig (tua 94%).

## ***3. <u>Canlyniadau'r Ymgynghoriad</u>***

3.1. Yn debyg i'r llynedd, mae canlyniadau'r ymgynghoriad eleni wedi bod yn gytbwys ar y cyfan, gyda safbwyntiau o blaid ac yn erbyn nifer o gynigion. Amlygwyd barn glir ynglŷn â meysydd penodol o ganlyniad i'r ymgynghoriad eleni. Amlygir y meysydd hynny fel rhan o'r adroddiad hwn (gweler isod).

3.2. Mae gweddill yr adroddiad yn rhoi sylw i'r ymatebion ffurfiol a dderbyniwyd drwy'r gwahanol ddulliau a nodwyd yn 1.6 a 1.7 uchod. Caiff ei lunio i roi sylw i / ddilyn y pynciau / themâu perthnasol a nodir ar ddechrau'r adroddiad hwn.

**3.3.** ***Pwynt i'w nodi*** – yn erbyn y cynigion sy'n dilyn, nodir % yr ymatebion i'r cwestiynau caeedig a ofynnwyd fel rhan o'r arolwg ac yn dilyn hynny rhoddir sylwebaeth ar y sylwadau a gyflwynwyd ynghylch y cynigion hynny.

3.4. ***Dysgu***. Roedd 4 o gynigion i'w hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad -

- Dim ond prynu'r lleiafswm statudol o ddarpariaeth feithrin h.y. dau dymor yn hytrach na thri
  - ***37% cytuno / 63% anghytuno***

- Darparu setliad ariannol i ysgolion sy'n is na chost lawn yr holl bwysau sydd ar y gyllideb a wynebir gan ysgolion yn 2019/20
  - ***15% cytuno / 85% anghytuno***

- Cynyddu cost prydau ysgol 20c (cynradd ac uwchradd) –
  - ***64% cytuno / 36% anghytuno***

- Symud i fodel cymorthyddion mewn dalgylchoedd ysgol uwchradd gan wneud defnydd mwy effeithiol o staff.
  - ***49% cytuno / 51% anghytuno***

Cyfanswm gwerth y 4 cynnig uchod oedd - £1,977,000.

*3.4.1.* Mae'n ymddangos bod unigolion a ymatebodd i'r cwestiynau hyn yn anghytuno â mwyafrif y cynigion ond dengys y dystiolaeth fod y gwrthwynebiad mwyaf i'r cynnig i ddarparu setliad ariannol i ysgolion sy'n is na'r costau a ragwelir. Dim ond y cynnig i gynyddu cost prydau ysgol a groesawyd gan bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr.

*3.4.2.* Yn ogystal â'r casgliadau uchod, derbyniwyd nifer o sylwadau (68), oedd yn nodi safbwyntiau cryf. Tra nad oedd y safbwyntiau hyn bob amser yn gysylltiedig â'r

cynigion eu hunain, roedd y mwyafrif, os nad y cyfan o'r sylwadau, yn erbyn y cynigion yn hytrach nac yn cefnogi'r cynigion i wneud arbedion.

*3.4.3.* Er enghraifft, mae rhai yn siarad am ddiffyg cyfrifoldeb rhieni i addysgu eu plant, tra bod eraill yn siarad am yr angen parhaus i resymoli ysgolion a gwerthu adeiladau gwag er mwyn gwneud y mwyaf o adnoddau. Nodwyd fod angen cyflymu'r broses o foderneiddio ysgolion. Mae gan eraill farn bendant na ddylid gwneud unrhyw doriadau o gwbl i'r gwasanaeth addysg gan fod hyn gyfystyr ag addysgu ein dyfodol a byddai gweithredu'r fath gamau yn ateb tymor byr fyddai yn ddiamheuaeth yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff addysgu.

*3.4.4.* Yn yr un modd, mae rhai sylwadau'n adlewyrchu'r teimlad y dylai'r Cyngor glustnodi unrhyw adnoddau ychwanegol a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru drwy'r broses gosod cyllideb neu unrhyw gynnydd gan yr Awdurdod yn y Dreth Gyngor ar gyfer y gwasanaeth Addysg ac yn arbennig darpariaeth ysgolion er mwyn helpu cyllidebau ysgolion.

*3.4.5.* Mae ymatebion gan Gynghorau Ysgol, Urdd a Clwb Ffermwyr Ifanc hefyd yn mynegi pryder ac nid ydynt yn cefnogi'r cynigion hyn e.e. Roedd ymateb Cyngor Ysgol Bodedern yn mynegi ei safbwynt yn bendant iawn -

3.4.5.1. cynyddu'r Dreth Gyngor
3.4.5.2. peidio torri cyllidebau ysgolion
3.4.5.3. edrych ar feysydd eraill megis rheoli gwastraff er mwyn gwneud arbedion

3.4.6. Nododd y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned y byddai torri cyllideb ysgolion a gwasanaethau plant yn arwain at arbedion ffug ac y dylai'r Cyngor ystyried cynyddu'r Dreth Gyngor yn hytrach na gwneud toriadau o'r fath.

3.4.7. Felly, i gloi ar y cynigion i wneud arbedion mewn perthynas ag ysgolion a'u costau cysylltiedig, ymddengys bod gwahaniaeth barn amlwg gyda'r mwyafrif yn erbyn gwneud arbedion o'r fath ac eraill o'u plaid. Mae'r drafodaeth uchod yn amlygu rhai o'r tensiynau.

3.5. **Gwasanaethau Cymdeithasol** – Roedd 3 chynnig yn cael eu gwneud ar gyfer Gofal Cymdeithasol, fel a ganlyn -

- Lleihau'r galw am wasanaethau gofal cartref a gwasanaethau byw â chymorth
    - ***22% cytuno / 78% anghytuno***

- Cynyddu nifer y cleientiaid sy'n trefnu eu gofal eu hunain drwy'r broses taliadau uniongyrchol a chynyddu cost safonol y gofal a geir mewn cartrefi preswyl sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor er mwyn adlewyrchu'n agosach y gost o ddarparu'r gwasanaeth.
    - ***47% cytuno / 53% anghytuno***

- Lleihau'r galw am leoliadau preswyl a nyrsio drwy barhau gyda'n gwaith i hybu annibyniaeth yn y gymuned
    - ***64% cytuno – 36% anghytuno***

Cyfanswm gwerth y 3 chynnig oedd - £255,000

3.5.1. Derbyniwyd 22 o sylwadau ychwanegol ac mae'r ymatebion yn amrywio o rai sy'n cydnabod bod annibyniaeth yn y gymuned yn ddibynnol ar gymorth hefyd a'r angen i ofalu na fyddai unrhyw doriad yn rhoi gormod o bwysau ar weithwyr cymunedol.

3.5.2. Mae eraill yn nodi bod angen i deuluoedd 'gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hanwyliaid' sydd unwaith eto yn cyd-fynd â'r ymgyrch i alluogi pobl i fod mor annibynnol â phosib wrth heneiddio.

3.5.3. Yn ogystal, roedd cydnabyddiaeth fod anghenion gofal yn fwy cymhleth wrth i bobl fyw'n hirach, a dylai'r Cyngor ddatblygu rôl a statws gofalwyr cyflogedig a darparu strwythur gyrfa sy'n adlewyrchu pwysigrwydd eu gwaith a'u cyfrifoldebau.

3.5.4. Mae rhai yn cwestiynu a oes modd gwireddu'r hyn a gynigiwyd mewn gwirionedd h.y. os yw person angen y gwasanaethau hyn, nid oes dewis arall. A yw lleihau'r galw yn bosibilrwydd gwirioneddol a drwy anelu i wneud hynny a oes risg y byddwn yn cynyddu'r costau mewn gwirionedd gan mai gofal cartref o ansawdd uchel yw'r amddiffyniad cyntaf yn y gymuned i atal problemau rhag dwysáu. Nododd rhai bod gwir angen buddsoddi mewn darpariaeth o ansawdd uchel yn y gymuned er mwyn cefnogi'r agenda.

3.5.5. Cwestiynir hefyd a ddylai lleoliadau nyrsio fod yn un o'r materion i'w hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ac efallai y byddai'n gweddu'n well i ymgynghoriad gan y GIG.

3.5.6. Yn olaf, mewn perthynas â rhan hon yr ymgynghoriad, nodir y ffaith bod ystadegau'n dangos fod pobl yn byw yn hirach ac mae rhai yn datgan y dylid cynnal, neu hyd yn oed gynyddu'r gyllideb hon, gan y bydd galw parhaus amdani.

3.6. **Lleihau Cyllidebau** – Roedd 2 o gynigion o dan y thema hon

- Lleihau neu ddileu'r llinellau cyllidebol canlynol -

  Talnet (cyllideb prynu llyfrau ar gyfer llyfrgelloedd) / Melin Llynnon (cyllideb farchnata) / Carchar a Llys Biwmares (cyllideb farchnata) / Llwybr yr Arfordir / Strwythurau a Thraffig / Morol (baneri glas) / Cyfleusterau awyr agored yn dilyn trosglwyddo asedau i'r gymuned / caffael corfforaethol / cyllideb hyfforddi ar gyfer lleoliadau dros yr haf / twristiaeth a chefn gwlad

    - ***38% cytuno / 62% anghytuno***

- Rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth casglu clytiau

    - ***55% cytuno / 45% anghytuno***

3.6.1. Cyfanswm gwerth y cynigion hyn oedd £188,000

3.6.2. Derbyniwyd 38 o sylwadau yn gysylltiedig â’r cynigion hyn ac roeddent yn amrywio o bobl oedd yn anhapus ynglŷn â’r ffaith ein bod wedi ymgynghori ar nifer o’r cynigion gyda’i gilydd ac o ganlyniad nid oedd modd cael dealltwriaeth lawn o’r sefyllfa ariannol, a rhai oedd yn anghytuno’n chwyrn ag unrhyw ostyngiad yn y ddarpariaeth Llyfrgelloedd (Talnet – cyllideb prynu llyfrau ar gyfer llyfrgelloedd).

3.6.3. Yn wir, ymddengys bod y gwasanaeth Llyfrgell yn uchel ei barch ymysg ychydig o ymatebwyr sydd o’r farn y dylid eu cadw fel hybiau cymunedol posib i’r dyfodol.

3.6.4. Mae eraill yn nodi bod yr atebion hyn yn rhai da a bod lle i ganoli marchnata ymhellach, ac i wasanaethau wneud mwy o ddefnydd o staff cyfathrebu corfforaethol.

3.6.5. Mae’r rhai sydd yn gwrthwynebu’r cynnig i roi’r gorau i gasglu clytiau wedi mynegi eu pryder yn ddiamheuol gan eu bod yn nodi fod y gwasanaeth hwn yn angenrheidiol ac os yw’r gwasanaeth yn cael ei ddileu yna byddai’n rhaid adolygu’r casgliadau biniau du a chyflwyno casgliadau mwy aml na’r casgliadau bob 3 wythnos presennol.

3.6.6. Mae un yn gofyn pan nad yw Oriel Ynys Môn yn cael ei chynnig fel eitem i’w dileu o dan 1 ac mae eraill yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw twristiaeth i’r ynys a nodir eu pryderon i’r cynnig i dorri gweithgareddau yn gysylltiedig â thwristiaeth mewn cyfnod sensitif i’r economi dan gysgod Brexit.

3.6.7. I gloi'r maes hwn felly, mae’r cwestiynau a nodir dan 3.6 yn nodi safbwynt yn erbyn y toriadau arfaethedig ac mae’r drafodaeth uchod yn rhoi blas o safbwyntiau'r rhai hynny sy’n anghytuno â’r cynigion.

3.7. **Bysiau, Parcio ac Adfywio** yw’r thema nesaf sydd yn cynnwys 3 o gynigion –

- Lleihau capasiti o fewn y Swyddogaeth Adfywio
  - ***Cytuno 64% / Anghytuno 36%***

- Cynnydd o £20 yng nghost tocyn parcio blynyddol er mwyn creu mwy o incwm
  - ***Cytuno 75% / Anghytuno 25%***

- Gwireddu arbedion o fewn y gwasanaethau bysus drwy roi’r gorau i’r teithiau canlynol
  - 50b Amlwch i Langefni (gwasanaeth 32 ar fore Sadwrn)
  - 63a - Gwasanaeth 63 sy’n teithio o Amlwch i Lannerchymedd i Fangor drwy Frynteg ar bnawn Sadwrn
  - 43a - Gwasanaeth 43 dyddiol sy’n gwasanaethu stadau ac ardaloedd preswyl ym Mhorthaethwy a Llanfairpwll ynghyd â darparu gwasanaeth rhwng Caernarfon a Llangefni
  - ***Cytuno 70% / Anghytuno 30%***

3.7.1. Mae’r cynigion hyn yn wahanol i’r meysydd eraill yr ymgynghorwyd arnynt ac mae cefnogaeth ddigamsyniol i’r arbedion a nodwyd.

3.7.2. Wedi nodi hynny, mae’n bwysig hefyd tynnu sylw’r pwyllgor at y ffaith fod y Cyngor wedi derbyn deiseb yn gwrthwynebu dileu’r gwasanaeth bws 43a sy’n gwasanaethu

Porthaethwy a Llanfairpwll. Mae 229 o unigolion o Borthaethwy a Llanfairpwll wedi llofnodi'r ddeiseb hon (nodir y geiriad yn atodiad B).

3.7.3. O'r sylwadau eraill (cyfanswm o 22) mae neges gyson ynglŷn â'r angen i adolygu mwy o wasanaethau bws ar draws yr ynys ond rhaid cadw mewn cof bod rhai pobl yn dibynnu ar rai o'r gwasanaethau hyn er mwyn teithio a bod angen rhoi ystyriaeth bellach i hyn hefyd o safbwynt model cynaliadwy.

3.7.4. Mae tensiynau rhwng rhai ymatebwyr sydd yn gweld yr angen i gynyddu cost tocynnau parcio ymhellach tra bod eraill o'r farn y dylai'r Cygnor wneud mwy i gynyddu'r ddarpariaeth parcio am ddim ar draws yr ynys, ond yn fwyaf penodol yng nghanol trefi.

3.7.5. Yn ddi-os, mae'r maes hwn yn wahanol i'r meysydd eraill a heblaw am y ddeiseb a dderbyniwyd, mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynigion y cyfeiriwyd atynt.

***3.8. Y Dreth Gyngor –*** nid oedd y cynigion ar gyfer ymgynghori eleni yn rhoi ffigyrau yn ôl % ond yn hytrach yn defnyddio ffigyrau ariannol gan y rhagwelwyd y byddai hynny'n dangos yn gliriach i ymatebwyr beth fyddai'r effaith o ddydd i ddydd. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd fel a ganlyn -

- Fyddai ymatebwyr yn hapus i dalu ar gyfartaledd (eiddo Band D) £2.19 yn ychwanegol ar eich Treth Gyngor er mwyn gwarchod gwasanaethau allweddol statudol y Cyngor ac er mwyn ein galluogi i ymdopi â'r pwysau a'r galw cynyddol am wasanaethau ar yr ynys
    - Cytuno 43% (66 o ymatebwyr) / Anghytuno 57% (89 o ymatebwyr)
- Os na, ticiwch pa gynnydd wythnosol yn y dreth gyngor y byddech yn hapus i'w dalu (dewiswch un bocs yn unig) -

| ***Cynnig*** | ***% ymateb*** | ***Nifer o ymatebwyr*** |
|---|---|---|
| ***£1.97 ychwanegol yr wythnos*** | ***5%*** | ***4*** |
| ***£1.75 ychwanegol yr wythnos*** | ***3%*** | ***2*** |
| ***£1.53 ychwanegol yr wythnos*** | ***9%*** | ***7*** |
| ***£1.32 ychwanegol yr wythnos*** | ***5%*** | ***4*** |
| ***£1.10 ychwanegol yr wythnos*** | ***77%*** | ***58*** |

*3.8.1.* Yr hyn y mae'r uchod yn ei ddangos yw nad oedd talu £2.19 ychwanegol yr wythnos o Dreth Gyngor yn cael ei wrthwynebu i'r un graddau a rhai o'r cynigion eraill a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad eleni.

*3.8.2.* O'r rhai oedd yn gwrthwynebu hynny, ymddengys mai'r opsiwn a ffafrir o ran cynyddu'r Dreth Gyngor yw'r cynnydd lleiaf a gynigiwyd, sef cynnydd o £1.10 yr wythnos.

*3.8.3.*Derbyniwyd 58 o sylwadau ynglŷn â'r cynnig hwn a gellir crynhoi'r gwahanol safbwyntiau fel a ganlyn.

*3.8.4.*Roedd mwyafrif y sylwadau a dderbyniwyd yn erbyn codi'r Dreth Gyngor. Yn wir, thema gyson a amlygwyd yn y sylwadau yw nad oedd y trigolion a ymatebodd yn deall pam ddylid gofyn iddynt dalu mwy o Dreth Gyngor pan fod y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn lleihau. Roedd nifer yn nodi petai'r dreth gyngor yn codi yna byddai disgwyl i wasanaethau wella ac y dylid dileu'r cynigion eraill a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Cafwyd beirniadaeth hefyd bod Ynys Môn yn cymharu ei hun gydag awdurdodau eraill mewn perthynas â'r dreth gyngor a nodwyd bod hynny'n wallus oherwydd bod cyfartaledd cyflog yn is ar yr ynys a'r boblogaeth yn llai.

*3.8.5.*Roedd un neu ddau o'r ymatebwyr yn beirniadu'r ffaith na chafodd canrannau (%) eu nodi yn yr ymgynghoriad ac nad oedd defnyddio termau ariannol (£oedd) yn rhoi darlun llawn.

*3.8.6.*Wedi dweud hynny, roedd 9 o'r 50 ymatebydd a gyflwynodd sylwadau yn cytuno i gynyddu'r dreth gyngor a'r thema gyffredin yn yr ymatebion hynny oedd petai'r dreth gyngor yn cynyddu y dylai'r cyfan o'r arian ychwanegol gael ei ddefnyddio i leihau'r toriad i ysgolion, neu hyd yn oed glustnodi'r cyfan er budd addysg ac ysgolion.

*3.8.7.*Er bod gwrthwynebiad i gynyddu'r Dreth Gyngor yn amlwg ar y cyfan, roedd rhai yn teimlo fod angen y cynnydd ac y dylai'r Cyngor wneud hynny.

*3.9. Y Dreth Gyngor - Premiymau*

3.9.1.Ymatebodd bron i 1,000 o bobl i'r arolwg a derbyniodd yr arolwg hwn lawer iawn mwy o ymatebion na'r cynigion cyllidebol eraill.

3.9.2.Roedd 70% o'r rhai a ymatebodd wedi cynnwys sylwadau ychwanegol hefyd er mwyn cefnogi eu hachos.

3.9.3.Fodd bynnag, nid oedd nifer o'r sylwadau yn deall y gwahaniaeth rhwng tŷ gwag tymor hir ac ail gartref sydd yn wag am gyfnodau hir yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn peri rhai anawsterau wrth ddadansoddi'r data er bod nifer o'r themâu'n debyg.

3.9.4.Isod rhoddir dadansoddiad o'r ddau gwestiwn a ofynnwyd ynghyd â'r themâu a amlygwyd yn yr ymatebion:

- **Ydych chi'n meddwl y dylem gynyddu'r Premiwm Treth Gyngor ar eiddo gwag tymor hir o 25% i 100%?**

3.9.5.Cafwyd 979 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn yr arolwg.

3.9.5.1. Nid yw 56% yn cytuno i gynnydd o 100%
3.9.5.2. Mae 44% yn cytuno.

3.9.6.O’r 979 o ymatebion cafwyd 678 o sylwadau ychwanegol, ond nid oedd pob un ohonynt yn ymwneud ag eiddo gwag ond ag ail gartrefi yn bennaf.

3.9.7. Mae themâu yn y sylwadau yn erbyn y premiwm ar dai gwag yn cynnwys:

3.9.7.1. Nid yw Tai Gwag yn defnyddio cymaint o Wasanaethau’r Cyngor
3.9.7.2. Bydd arian sy’n cael ei ddefnyddio i adnewyddu tai gwag yn cael ei golli ac o ganlyniad byddant yn wag am gyfnod hirach
3.9.7.3. Mae’n anodd gwerthu rhai tai gwag
3.9.7.4. Cartrefi wedi bod yn y teulu ers cenedlaethau
3.9.7.5. Caledi Ariannol
3.9.7.6. Cael eu gorfodi i werthu

3.9.8.Mae themâu o blaid y premiwm ar dai gwag yn cynnwys:

3.9.8.1. Mae cynnydd yn golygu bod tai gwag yn dod yn ôl i ddefnydd
3.9.8.2. Cynnydd graddol dros gyfnod o amser e.e. Blwyddyn 1 – 50%, Blwyddyn 2 – 75%...
3.9.8.3. Cynyddu’r premiwm ar gyfer tai gwag cyfnod hir yn unig, e.e. dros 2 flynedd
3.9.8.4. Cynnig cynllun i leihau nifer y tai gwag
3.9.8.5. Cynllun pryniant gorfodol ar gyfer tai gwag tymor hir

- ***Ydych chi’n meddwl y dylem gynyddu’r Premiwm Treth Gyngor ar Ail Gartrefi o 25% i 35%?***

3.10. Cafwyd 992 o ymatebion i’r cwestiwn hwn yn yr arolwg.
3.10.1. Nid yw 83% yn cytuno â’r cynnydd
3.10.2. Mae 17% yn cytuno

3.11O’r 992 o ymatebion derbyniwyd 689 o sylwadau ychwanegol er, yn yr un modd â’r uchod, nid oedd yr holl sylwadau’n ymwneud â phremiymau’r dreth gyngor ar ail gartrefi.

3.10.3. Mae’r themâu o fewn y sylwadau yn erbyn cynyddu’r premiwm ar ail gartrefi yn cynnwys:

3.10.3.1. Bydd yr Ynys yn colli budd economaidd
3.10.3.2. Bydd yn cael effaith ar dwristiaeth
3.10.3.3. Mae Ail Gartrefi yn defnyddio llai o wasanaethau’r cyngor
3.10.3.4. Mae nifer o Ail Gartrefi yn Gartrefi Ymddeol ar gyfer y dyfodol
3.10.3.5. Cael eu gorfodi i werthu
3.10.3.6. Dylai Ail Gartrefi dalu llai o dreth gyngor nid mwy
3.10.3.7. Penderfyniad byrbwyll
3.10.3.8. Gwahaniaethu
3.10.3.9. Newid ail gartref yn brif gartref

3.10.3.10. Mae themâu o blaid y premiwm ar ail gartrefi yn cynnwys:

3.10.3.11. Dylid cynyddu Treth Gyngor ar Ail Gartrefi hyd yn oed yn fwy gan eu bod yn gallu fforddio talu

3.10.3.12. Gallai'r cynnydd greu mwy o gartrefi i bobl leol

3.12 Mae'r safbwyntiau hyn hefyd yn cael eu cyfarch yn oddeutu 50 o e-byst a dderbyniwyd ar y mater. Mae'r rhai sydd wedi cysylltu a'r Cygor drwy'r ffordd yma wedi mynegi eu anfodlonrwydd llwyr gyda'r fath gynnig ac maent yn hollol wrthwynebus iddo.

3.13Mae'r cwmwl geiriau isod (Darlun 1) yn rhoi crynodeb o'r sylwadau. Mae'r geiriau mwyaf yn cael eu trafod yn fwy aml a'r geiriau lleiaf yn llai aml.

*Darlun 1.*




## 4 *Casgliad Terfynol*

4.1 I gloi felly, o'r ymatebion i'r mathau o arbedion a gynigir mewn perthynas â chyllideb 2019/20, ymddengys fod cydbwysedd amlwg, gyda rhai ymatebwyr yn erbyn a rhai o blaid. Mae'r uchod

yn amlygu rhai o'r tensiynau hyn ac yn nodi'r meysydd mwyaf cynhennus (ymatebion dros 70%) lle mae cryn anghytundeb gyda'r cynigion. Y meysydd hynny yw:

*4.11.1.1* *Y Dreth Gyngor – Premiymau ar 2[ail] Gartrefi*
*4.11.1.2* *Toriadau i gyllidebau ysgolion a*
*4.11.1.3* *Gwneud arbedion drwy leihau'r galw am ofal cartref a gwasanaethau byw â chymorth*

*4.11.2* Nodir hefyd fod y gyfradd ymateb i'r ymgynghoriad eleni yn llawer uwch nag yn y gorffennol a chynigir fod gwerthusiad llawn o broses ymgynghori eleni yn cael ei chynnal er mwyn dysgu gwersi a darparu sylfaen gadarn er mwyn gwella eto flwyddyn nesa'.

***4.11.3*** **Ar sail y casgliadau hyn, argymhellir bod -**

***4.11.3.1*** **y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried yr ymateb fel rhan o'u trafodaethau cyn gwneud argymhellion terfynol**
***4.11.3.2*** **Panel Cyllid y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystyried ymhellach y meysydd ar gyfer gwneud arbedion a argymhellwyd gan ein dinasyddion (Atodiad A) fel rhan gyntaf y broses ar gyfer gosod cyllideb 2020/21.**

Atodiad 'A' – Ymatebion / Syniadau – wedi cael eu crynhoi

1. **Gwasanaeth Biniau**

- Stopio gwasanaeth casglu biniau gwyrdd rhwng Hydref a Mawrth.
- Stopio gwasanaeth casglu biniau gwyrdd yn gyfan gwbl.
- Lleihau casgliadau bin gwyrdd a du i fod yn fisol.
- Biniau ailgylchu mawr (gwahanol liwiau ar gyfer deunydd ailgylchu gwahanol) i gael eu casglu yn fisol – annog pobl i ailgylchu mwy a lleihau gwastraff er mwyn i'r bin du gael ei gasglu yn fisol hefyd.

2. **Llyfrgelloedd**

- Cau llyfrgelloedd sydd ddim yn cael eu defnyddio llawer.
- Canoli llyfrgelloedd neu ddefnyddio ac uno gyda llyfrgelloedd yr Ysgolion Uwchradd.
- Cynnal gweithgareddau i blant yn y llyfrgelloedd a chodi taliad bach.
- Codi ffi mynediad i Oriel Môn.

3. **Ysgolion**

- Cau ysgolion i blant am 1pm bob dydd Gwener. Bydd hyn yn galluogi athrawon i gymryd eu 10% o amser digyswllt yr un pryd - hyrwyddo cydweithio a lleihau costau staffio craidd (h.y. costau athrawon cyflenwi ar gyfer y 10%).
- Opsiwn hefyd o leihau costau staffio eraill yn ystod y cyfnod – mewn ysgolion mawr gall hyn arbed dros £100,000 y flwyddyn.
- Cynyddu cost cinio ysgol – ond, mae angen sicrhau prydau ysgol o ansawdd gwell i wneud hyn. (o £2.40 i £3.00).
- 4.5 diwrnod yr wythnos i ysgolion?
- Gwresogydd ymlaen drwy'r adeg yn yr ysgol - methu ei reoli. Dim ond botwm ymlaen /diffodd.
- Codi dirwy ar ffurf trwydded ar rieni sydd yn bysio eu plant i ysgolion cynradd tu allan i ddalgylchoedd priodol eu preswylfa.
- Codi tâl ar bob disgybl i dalu am fws i'r uwchradd.

4. **Trafnidiaeth Gyhoeddus**

- Cyfuno'r gwasanaeth bws 62 a 61 i gysylltu Bangor a Chaergybi gyda lleoliadau megis Cemaes a Cemlyn.
- Adolygu'r systemau bysus – lleihau / uno teithiau.

5. **Twristiaeth**

- Codi proffil twristiaeth ar yr Ynys – rhaid buddsoddi er mwyn gwneud arian.
- Ynys Môn yn colli cyfle i hyrwyddo'r holl ddiwylliant a chwedloniaeth sy'n bodoli yma.
- Codi toll ar ymwelwyr i groesi'r pontydd wrth iddynt ddod i'r Ynys.
- Datblygu twristiaeth – gan gynnwys canolfan twristiaeth.

**6. Codi Treth**

- Codi treth o 10%.
- Codi treth i fod yn gyfartal a Gwynedd.
- Codi treth ychwanegol fwy ar dai sydd yn cael eu prynu fel tai gwyliau personol – ni ddylid cosbi pobl leol sydd yn prynu ail dŷ ar gyfer incwm drwy ei logi.
- Codi premiwm ail gartrefi / tai haf i 100%.

**7. Awgrymiadau Staffio**

- Diswyddo staff
- Ail-strwythuro mewnol
- Stopio hysbysebu swyddi.
- Pwyllgor Gwaith yn rhy fawr – angen lleihau.
- Edrych ar swyddi 'rheolaeth ganol' i fyny yn yr holl adrannau – oes angen cymaint o swyddogion?
- Ddim angen y ddwy brif weithredwraig gynorthwyol.
- Lleihau'r defnydd o 'ymgynghorwyr' a rhoi'r cyfrifoldeb ar swyddogion sydd â'r un cymwysterau.

**8. Cyflogi**

- Lleihau cyflogau staff
- Toriadau cyflog staff sydd dros £40,000.
- Stopio talu 'goramser' a 'bonuses' i staff

**9. Taliadau Parcio**

- Codi tâl ar staff am barcio eu ceir – yn y swyddfeydd.
- Codi £200 (yn ddibynnol ar raddfa cyflog) y flwyddyn ar bawb sy'n parcio mewn mannau'r Cyngor (cynnwys swyddfeydd ac ysgolion) – i gael ei dynnu gan yr adran gyflogau.

**10. Lleihau Cynghorwyr**

- Ddim angen 30 o aelodau i gynrychioli ynys mor fach.
- Adolygu'r niferoedd o gynghorwyr fesul ardal (2 yn ddigonol)
- Lleihau treuliau ar eu cyfer.
- Lleihau gwariant ar gynghorwyr – fel prynu i-pads.
- Lleihau cyflog cynghorwyr lleol.

**Atodiad 'B'** – deiseb yn erbyn yr arbediad arfaethedig o dorri siwrne bws (yn yr iaith y'i derbynwyd)

Dear Sir /Madam

Please find enclosed our petition ruling against the final desition to withdraw from the service 43/47 running through Llanfair P.G also the surrounding villages of menai bridge All names on this petition have been written down by people who use this service only. We will continue to collect names up until the end of march. Also please note all the names on the petition are from people who use the bus and not from general public.

The comunity feel that yes the service needs looking at and at the worse Reducing / Fine turning but not withdrawing. Thou we know the service has been reduced in use, The service is being used by all walkes of life the Disabled, Sick, Enabled, Young, Students, Elderly and more. We wish to put to you if the service is taken away we want to know what will happen and where and how do some of the passengers get around and go about their buisness, shopping, visiting family members and much more.

**Park and ride Llanfairpwll**

We have people visiting their sick and dying Family members / Wifes there is no other service passing throu here so how will these public passengers visit them in the Fairways nursing home located behind the park and ride.

**Llanfair Doctors and Dental surgery**

We have Elderly, Sick and Disabled people who visit here on a daily basis people who physically cant walk long distance and are coming from the higher end of llanfair p.g and the surrounding villages of tyddtn to.

**Co.op Llanfairpwll**

We have the local comunity who are unable to walk who go on a daily basis to get their shopping needs there is usually around 30 minutes between each service and for those who are unable to stay on their feet very long go and do their shopping.

E.G we have one gentleman who can spend a max hour and a half on his feet his visit to the shop consists of a journey on the bus do his shopping and gets next bus back, his visit will after withdrawal will end up around 3 and a half hours how will that impact his life.

**Ysbyty Gwynedd**

How are people who live where there will be no bus meant to get to appointments and emergencies.

We also have a lady who goes to the surgery 2 times a week for her tablets and shopping she struggles on a daily basis anyway but in some cases the driver helps her off with her shopping. This lady lives in the top end of llanfair and certainly cant walk long distance. She is so disabled she gets of the bus backwards

Withdrawal of the service will have a massive impact on most of the comunity who use this service. Yes in some cases they can use an alternate service but in lots of cases the busses are full and full of children in the morning and evening so where are the elderly sick and disabled meant to sit. We also carry students and vulranable children for their school and in these dark wet mornings what will

happen to them. Not only will it have an impact on peoples lives it will also have some impact on local buisnesses who reply on this service.

This service is also linked to a service 46 which serves bangor – Llangefni also Bangor – Caernarfon also Llangefni – Caernarfon and Llangefni – Caernarfon This service carries children to school, Students to college, Council workers to work in llangefni and local cumunity shoppers, what will happen to this service.

There is also the job loss of 3 drivers who serv the comunity on this service.

Before plans to withdraw service we the comunity feel we need a meeting so we can talk about the impact this will make on our comunity.

Please contact me on the address and tel no at top of this petition if you wish to talk and for further information.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SGRIWTINI

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL: 2017/2018 → 2018/19

Cadeirydd: Cynghorydd Aled Morris Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Dylan Wyn Rees

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752578

E-bost: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **31 Mai 2017**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 3.30yp | Ethol Cadeirydd y Pwyllgor | Trefniadau llywodraethiant effeithiol | | | | |
| | Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor | Trefniadau llywodraethiant effeithiol | | | | |
| **26 Mehefin 2017**<br>**[CH4: 2016/17]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2016/17<br>Adroddiad SAC ar salwch fel atodiad | Monitro perfformiad | | | | |
| | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, 2016/17 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Strategaeth Tai Gwag 2017/2022 | Datblygu Polisi | | | √ | |
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau | Enwebu Aelodau | | √<br>(Aelodau) | | |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √<br>(Aelodau) | | |
| **11 Gorffennaf 2017**<br>**[Cyfarfod arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghoriad Statudol ardal Llangefni | Sgriwtini cyn penderfyniad | | √<br>(Holl Rhanddeiliaid) | √ | |
| | Moderneiddio Ysgolion – Rhaglen Amlinellol Strategol – Band B (2019/24) | Trawsnewid | | √<br>(Holl Rhanddeiliaid) | √ | |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | |

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Aelodaeth Paneli a Byrddau – enwebiad i'r Panel Gwella Ysgolion | Enwebu Aelodau | | √<br>(Aelodau) | | |
| **4 Medi 2017**<br>**[CH1: 2017/18]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Sgorffwrdd Corfforaethol [CH1 ] 2017/18 | Monitro perfformiad | | ) | | |
| | Cynllun y Cyngor 2017/2022 | Sgriwtini cyn penderfyniad | | √<br>(Holl Rhanddeiliaid | | √ |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √<br>(Aelodau) | | |
| | Eitem er Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2016/17) | Er gwybodaeth / monitro perfformiad | | | | |
| **2 Hydref 2017**<br>**[Cyfarfod arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Perfformiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2016/17 (AGGCC) | Monitro perfformiad | | | | √ |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17 | Monitro perfformiad | | | √ | √ |
| | Tai Gofal Ychwanegol – Ardal Seiriol | Sgriwtini cyn penderfyniad | | √<br>(Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol | Sgriwtini cyn penderfyniad | | √<br>(Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **31 Hydref 2017** **[Cyllideb]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad | | √ (Aelodau) | √ | √ |
| | Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad | | √ (aelodau) | √ | √ |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad | √ | | | √ |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **13 Tachwedd 2017** **[CH2: 2017/18]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2017/18 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid | √ | √ |
| | Strategaeth Rheoli Asedau - Tai Cyngor | Datblygu Polisi | | | √ | |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ ( Aelodau) | | |
| **14 Rhagfyr 2017** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 | Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant – Carchar a Llys Biwmaris | Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 27/11/17 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Kenneth Hughes, Bryan Owen a Peter Rogers) | | | | √ |
| **31 Ionawr, 2018** **[Cyfarfod** | Tai Gofal Ychwanegol – ardal Seiriol (crynodeb o adborth yn sgîl y broses ymgysylltu) | Trawsnewid | | √ (Holl | √ | √ |





Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arbennig]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | | | | Rhanddeiliaid | | |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Cludiant ysgol | Cyfeiriad gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant / Monitro perfformiad | | | | |
| | Rhaglen Wella Mân-ddaliadau | Rhybudd o gynnig o'r Cyngor Llawn | | | | √ |
| | Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd (2016/17) | Monitro perfformiad – er gwybodaeth | | | | |
| **5 Chwefror 2018 [Cyllideb]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Cyllideb Ddrafft 2018/19 | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | √<br><br>(Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √<br><br>(Aelodau) | | |
| | Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (Panel Sgriwtini Cyllid) | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | | | √ |
| **12 Mawrth 2018 [CH3: 2017/18]**<br><br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2017/18 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Seiriol | Trawsnewid | | √<br><br>(Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Y | Trawsnewid | | √ | √ | √ |

Tudalen 101





Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Graig a'r Talwrn) | | | (Holl Rhanddeiliaid) | | |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ ( Aelodau) | | |
| **23 Ebrill 2018** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Corn Hir, Bodffordd a Henblas) | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid | √ | √ |
| | Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol – cynnydd ar y meysydd blaenoriaeth | Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 02/10/17] | √ | | | |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Trawsnewid | | | √ | √ |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ ( Aelodau) | | |
| **4 Mehefin, 2018 [CH4: 2017/18]** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2017/18 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Trafnidaeth Ysgol – diweddariad ar wireddu'r cynllun gweithredu (er gwybodaeth) | Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 31/01/18] | | | √ | |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen raglen waith – adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ ( Aelodau) | | |

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **5 Gorffennaf, 2018** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn) | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Monitro perfformiad | | | | |
| **13 Gorffennaf, 2018** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ardal Seiriol | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| **2 Awst, 2018** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ardal Llangefni (Y Talwrn a'r Graig) | Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 16/07/18 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, Eric Wyn Jones, Lewis Davies, Bryan Owen a Peter Rogers) | | | | √ |
| **6 Awst, 2018** **[Cyfarfod Arbennig]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ardal Seiriol | Galw Mewn penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 18/07/18 (galw mewn gan y Cyng Aled Morris Jones, John Arwel Roberts, Robert Llewelyn Jones, Bryan Owen a Peter Rogers) | | | | √ |
| **12 Medi, 2018** **[CH1: 2017/18]** Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH1] 2018/19 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Eitem er Gwybodaeth: Adroddiad Blynyddol Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (2017/18) | Er gwybodaeth / monitro perfformiad | | | | |





Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **20 Medi, 2018 [Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Gwaredu adeilad hen Ysgol Llaingoch, Caergybi | Galw Mewn penderfyniad gan y Deilydd Portffolio ar 30/08/18 (galw mewn gan y Cyng Shaun Redmond, Peter Rogers, Eric Wyn Jones, Bryan Owen ac Aled Morris Jones) | | | | √ |
| **8 Hydref, 2018 [Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 1yp | Strategaeth Trawsnewid Addysg a Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn – diweddariad (2018) | Trawsnewid | | | √ | √ |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2017/18 | Monitro perfformiad | | | √ | |
| **24 Hydref, 2018 [Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Achos Busnes Amlinellol Ysgol Gynradd Newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir | Trawsnewid | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | √ |
| **6 Tachwedd, 2018 [Cyllideb]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cynigion Cychwynnol Cyllideb 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | | √ | √ |
| | Cynllun Ymgynghori ar Gyllideb 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | √ | √ | √ |
| | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| **23 Tachwedd, 2018** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH2] 2018/19 | Monitro perfformiad | | | | |

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **[Ch2: 2018/19]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √<br>(Aelodau) | | |
| **10 Rhagfyr, 2018**<br>**[Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 10yb | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | **R**haglen Moderneiddio Ysgolion – Achos Busnes Amlinellol – Ehangu Ysgol y Graig a chau Ysgol Talwrn | Trawsnewid | | √<br>(Holl Rhanddeiliaid | √ | √ |
| **17 Ionawr, 2019**<br>**[Cyfarfod Arbennig]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 9:30yb | Archwiliad o'r Gwasanaethau Plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |
| | Adroddiad Blynyddol 2017/18 – Gwasanaeth Llyfrgell | Monitro perfformiad | | | | |
| **4 Chwefror, 2019**<br>**[Cyllideb]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2019/20 | Sgriwtini cyn penderfyniad | √ | √ | √ | √ |
| | Polisi Cludiant Ysgol Diwygiedig – Panel Sgriwtini Cyllid | Datblygu polisi | | √<br>( i'w gadarnhau) | √ | |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √<br>( Aelodau) | | |
| **11 Mawrth, 2019**<br>**[CH3: 2018/19]**<br>Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH3] 2018/19 | Monitro perfformiad | | | | |
| | Monitro cynnydd – Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant<br>Adroddiad cynnydd – Panel Gwella Gwasanaethau Plant | Monitro perfformiad | √ | | √ | √ |

| Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ ( Aelodau) | | |
| **8 Ebrill, 2019** Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp | Adroddiad cynnydd – Panel Sgriwtini Cyllid | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen raglen waith - adolygiad | Cynllunio ymlaen effeithiol / aliniad gyda blaenoriaethau corfforaethol | | √ (Aelodau) | | |
| | **Eitemau Posibl ar gyfer y Blaen Raglen Waith (dyddiadau i'w cadarnhau)** | | | | | |
| I'w gadarnhau (Mehefin, 2019) | Cerdyn Sgorio Corfforaethol [CH4] 2018/19 | Monitro perfformiad | | | | |
| I'w gadarnhau | Rheoli Ynni | Monitro perfformiad (Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 31/10/17) | | | | |
| I'w gadarnhau | Tlodi Tanwydd – cynlluniau i gefnogi cartrefi | Monitro perfformiad [Penderfyniad Pwyllgor Sgriwtini, 13/11/17] | | | | |
| I'w gadarnhau | Effeithiau Diwygio Lles | Monitro perfformiad | | | | |
| I'w gadarnhau | Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | Datblygu polisi [Fforwm Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Scrutiny, 18/06/18] | | | | |